# Agenda - Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 3 - Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Llun, 16 Gorffennaf 2018

Amser: 13.00

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Fay Bowen**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddArchwilio@cynulliad.cymru

## (Rhag-gyfarfod)

(13.00 - 13.45)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(13.45)

## 2 Papur(au) i'w nodi

(13.45 - 13.50) (Tudalennau 1 - 3)

**2.1 Siaradwch fy iaith: Goresgyn rhwystrau iaith a chyfathrebu mewn gwasanaethau cyhoeddus: Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru**

(Tudalennau 4 - 56)

**2.2 Addasiadau Tai: Llythyr oddi wrth Llywodraeth Cymru (10 Gorffennaf 2018)**

(Tudalennau 57 - 58)

**2.3 The 21st Century Schools and Education Programme: Letter from the Welsh Government (10 July 2018)**

## 3 Gweithredu Deddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014: Sesiwn dystiolaeth 4

(13.50 - 14.50) (Tudalennau 59 - 94)

Papur briffio gan y Gwasanaeth Ymchwil

PAC(5)-21-18 Papur 1 - Llywodraeth Cymru

Dr Andrew Goodall - Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol/Prif Weithredwr GIG Cymru, Llywodraeth Cymru

Simon Dean - Dirprwy Brif Weithredwr GIG, Llywodraeth Cymru

Steve Elliot - Dirprwy Gyfarwyddwr Cyllid, Llywodraeth Cymru

**(Egwyl)**

(14.50 - 15.00)

## 4 Gwasanaethau Gwybodeg GIG Cymru: Sesiwn dystiolaeth 4

(15.00 - 15.45) (Tudalennau 95 - 115)

Papur briffio gan y Gwasanaeth Ymchwil

PAC(5)-21-18 Papur 2 – Llywodraeth Cymru

PAC(5)-21-18 Papur 3 – Gohebiaeth gan Ymddiriedolaeth GIG Felindre

Dr Andrew Goodall - Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol/Prif Weithredwr GIG Cymru, Llywodraeth Cymru

Andrew Griffiths - Prif Weithredwr, Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru

## 5 Sesiwn ffarwél: Archwilydd Cyffredinol Cymru

(15.45 - 16.45) (Tudalennau 116 - 137)

Papur briffio gan y Gwasanaeth Ymchwil

PAC(5)-21-18 Papur 4 – Archwilydd Cyffredinol Cymru: Myfyrdodau wrth ffarwelio

Huw Vaughan Thomas CBE – Archwilydd Cyffredinol Cymru

## 6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y mater a ganlyn:

(16.45)

Eitemau 7 ac 8 o'r cyfarfod ar 17 Medi 2018 ac Eitemau 1 a 2 o'r cyfarfod ar 24 Medi 2018

## 7 Gweithredu Deddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014: Trafod y dystiolaeth a ddaeth i law

(16.45 - 17.00)

## 8 Gwasanaethau Gwybodeg GIG Cymru: Trafod y dystiolaeth a ddaeth i law

(17.00 - 17.15)

# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 3 - Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Llun, 9 Gorffennaf 2018

Amser: 14.01 - 16.42

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/4752

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Nick Ramsay AC (Cadeirydd)<br>Mohammad Asghar (Oscar) AC<br>Vikki Howells AC<br>Lee Waters AC |
| Tystion: | Lynne Hamilton, Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg<br>Sian Harrop-Griffiths, Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg<br>Tracy Myhill, Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg<br>Bob Chadwick, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro<br>Len Richards, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro |
| Swyddfa Archwilio Cymru: | Huw Vaughan Thomas CBE - Archwilydd Cyffredinol Cymru<br>Mark Jeffs<br>Dave Thomas |
| Staff y Pwyllgor: | Fay Bowen (Clerc)<br>Claire Griffiths (Dirprwy Glerc) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Neil Hamilton AC, Rhianon Passmore AC ac Adam Price AC. Nid oedd dirprwyon yn bresennol ar eu rhan.

## 2 Papur(au) i'w nodi

2.1 Nodwyd y papurau.

2.2 Cytunodd y Cadeirydd i ymateb i Lywodraeth Cymru yn gofyn am eglurhad ynghylch yr ymrwymiad y cytunwyd arno y byddent yn cyhoeddi manylion y cymhorthdal fesul teithiwr bob blwyddyn ochr yn ochr â niferoedd y teithwyr.

### 2.1 Gwasanaethau Gwybodeg GIG Cymru: Llythyr gan Steve Ham, Prif Weithredwr, Ymddiriedolaeth GIG Felindre (28 Mehefin 2018)

### 2.2 Gwasanaeth Awyr oddi mewn i Gymru - Caerdydd i Ynys Môn: Llythyr gan Lywodraeth Cymru (3 Gorffennaf 2018)

## 3 Cyllid cychwynnol Llywodraeth Cymru ar gyfer prosiect Cylchffordd Cymru: Trafod ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor

3.1 Trafododd yr Aelodau yr ymateb, gan gytuno y byddai'r Cadeirydd yn ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i ofyn am eglurder ynghylch nifer o faterion.

## 4 Gweithredu Deddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014: Sesiwn dystiolaeth 2

4.1 Clywodd yr Aelodau dystiolaeth gan Tracy Myhill, Prif Weithredwr;

Sian Harrop-Griffiths, Cyfarwyddwr Strategaeth; a Lynne Hamilton, Cyfarwyddwr Cyllid o Fwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg fel rhan o'r ymchwiliad i weithredu Deddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014.

4.2 Cytunodd Tracy Myhill i:

- siarad â Chadeirydd y Bwrdd ynghylch y pecyn taliadau a gafodd y cyn Brif Weithredwr pan adawodd y Bwrdd Iechyd a rhoi gwybod i'r Cadeirydd am y drafodaeth hon; a

- rhannu rhai o gynlluniau digidol y Bwrdd Iechyd â'r Pwyllgor.

## 5 Gweithredu Deddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014: Sesiwn dystiolaeth 3

5.1 Clywodd yr Aelodau dystiolaeth gan Len Richards, Prif Weithredwr, a Bob Chadwick, Cyfarwyddwr Cyllid, Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Caerdydd a'r Fro fel rhan o'r ymchwiliad i weithredu Deddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014.

5.2 Cytunodd Len Richards i gadarnhau a ddarparodd y Bwrdd Iechyd ddatganiad o effaith y diffoddiad ym mis Ionawr 2018 ac i roi gwybod i'r Pwyllgor am hyn mewn nodyn.

## 6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y mater a ganlyn:

6.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 7 Gweithredu Deddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014: Trafod y dystiolaeth a ddaeth i law

7.1 Trafododd yr Aelodau y dystiolaeth a ddaeth i law.

26 Ebrill 2018

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Siaradwch fy iaith: Goresgyn rhwystrau iaith a chyfathrebu mewn gwasanaethau cyhoeddus

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU



Mae'r adroddiad yma wedi cael ei baratoi i'w gyflwyno i'r Cynulliad Cenedlaethol yn unol â Deddf Llywodraeth Cymru 1998 a Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Roedd tîm astudio Swyddfa Archwilio Cymru yn cynnwys Philippa Fido, Claire Flood-page, Rachel Harries, James Ralph a Nigel Blewitt, ac fe gafwyd cyfraniadau ychwanegol gan ein timau arfer da a chyfathrebu. Matthew Mortlock fu'n cyfarwyddo gwaith y tîm gan adrodd i Anthony Barrett, Archwilydd Cyffredinol Cynorthwyol.

**Swyddfa Archwilio Cymru**
**24 Heol y Gadeirlan**
**Caerdydd**
**CF11 9LJ**

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol o'r Cynulliad Cenedlaethol ac o lywodraeth. Mae'n archwilio ac yn ardystio cyfrifon Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus sy'n gysylltiedig â hi ac a noddir ganddi, gan gynnwys cyrff y GIG. Mae ganddo'r pŵer i gyflwyno adroddiadau i'r Cynulliad Cenedlaethol ar ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y defnydd a wna'r sefydliadau hynny o'u hadnoddau wrth gyflawni eu swyddogaethau, a sut y gallent wella'r defnydd hwnnw.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, mae'n cynnal astudiaethau gwerth am arian mewn llywodraeth leol ac yn arolygu cydymffurfiaeth gydag anghenion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sydd yn fwrdd statudol wedi'i sefydlu ar gyfer y nod hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2018

Cewch ailddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys y logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Os byddwch yn ei ailddefnyddio, rhaid i chi ei ailddefnyddio'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid rhoi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle nodwyd deunydd hawlfraint unrhyw drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei ailddefnyddio.

Am fwy o wybodaeth, neu os ydych angen unrhyw un o'n cyhoeddiadau mewn ffurf ac/neu iaith wahanol, cysylltwch â ni drwy ffonio 029 2032 0500 neu drwy e-bostio post@archwilio.cymru. Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Gallwch ysgrifennu atom hefyd, yn Gymraeg neu'n Saesneg, a byddwn yn ymateb yn yr iaith rydych chi wedi ei defnyddio. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

**This document is also available in English.**

# Cynnwys


Adroddiad Cryno 5

Crynodeb 8

1. Gwneud gwasanaethau yn hygyrch i bobl sy'n wynebu rhwystrau o ran iaith a chyfathrebu 14

Deddfwriaeth a pholisi 15

Deddf Cydraddoldeb 2010 a Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus 15

Deddfwriaeth arall berthnasol sy'n ymwneud yn benodol â Chymru 17

Safonau Cymru Gyfan GIG Cymru ar gyfer Darparu Gwybodaeth Hygyrch i Bobl â Nam ar eu Synhwyrau a Chyfathrebu â Hwy 2013 18

Polisïau Llywodraeth Cymru ar ffoaduriaid a cheiswyr lloches 19

Gwahanol ymagweddau at ddarparu gwasanaethau dehongli a chyfieithu 20

Cyflogi staff a all weithredu fel dehonglwyr a chyfieithwyr pan fo angen 20

Gwasanaeth Dehongli a Chyfieithu Cymru 22

Gwasanaethau a ddarperir gan gwmnïau preifat a chyrff y trydydd sector 28

2. Yr heriau o flaen gwasanaethau dehongli a chyfieithu 30

Sicrhau bod dehonglwyr ar gael 31

Sicrhau bod dehonglwyr wedi'u trefnu ar gyfer pob apwyntiad pan fo angen 33

Meithrin cyd-ddealltwriaeth o rôl y dehonglydd 34

Cynnig dewis o ddehonglwyr i bobl pan fydd hynny'n ymarferol bosib 35

Paru pobl â dehonglydd o'r un rhyw os yw'n ymarferol bosib 35

Sicrhau bod gwasanaethau dehongli o ansawdd da 36

Datblygu sgiliau proffesiynol ac ieithyddol dehonglwyr 37

Dehongli arbenigol i'r gwasanaethau iechyd meddwl 38

3. Datblygu gwasanaethau dehongli a chyfieithu 40

Camau gweithredu ar y gweill mewn Cynghorau ac yng nghyrff y GIG yng Nghymru 41

Rhestr wirio ar gyfer gwasanaethau dehongli a chyfieithu 43

Atodiadau

Atodiad 1 – Ein dulliau 47

Atodiad 2 – Perfformiad yn erbyn Safonau Cymru Gyfan GIG Cymru ar gyfer Darparu Gwybodaeth Hygyrch i Bobl â Nam ar eu Synhwyrau a Chyfathrebu â Hwy 2013 50


# Adroddiad Cryno

## FFEITHIAU ALLWEDDOL

**84,500**
o bobl yng Nghymru yn siarad iaith arall ar wahân i Gymraeg neu Saesneg fel prif iaith

**19,500**
yn methu siarad Cymraeg na Saesneg yn dda

**3,500**
yn methu siarad Cymraeg na Saesneg o gwbl




Siaredir **DROS 80** o brif ieithoedd eraill yng Nghymru

**PWYLEG** 17,000

**TSIEINEEG** 8,000

**BENGALEG** 5,000


**ARABEG** 7,000

Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011, y ffigurau wedi'u talgrynnu i'r 500 agosaf.

# FFOADURIAID A CHEISWYR LLOCHES



Mae'r rhan fwyaf o waith ymchwil ym awgrymu nad oes gan geiswyr lloches sgiliau da yn Gymraeg nac yn Saesneg wrth gyrraedd




**96 O BOBL**
wedi'u cartrefu yng Nghymru o dan Raglen Adsefydlu Pobl Agored i Niwed o Syria

Mae nifer y ffoaduriaid a'r ceiswyr lloches wedi dyblu yng Nghymru ers 2011

**1,398** CH.1 2011 → **2,831** CH.1 2017

Mae'r termau 'ceisiwr lloches' a 'ffoadur' yn cyfeirio at bobl a chanddynt statws cyfreithiol gwahanol i'w gilydd.

Ceiswyr lloches yw pobl sydd wedi gwneud cais am loches yn y DU o dan Gonfensiwn 1951 ar Statws Ffoaduriaid.



Ffoaduriaid yw pobl y mae eu cais am loches wedi'i gymeradwyo.

Ffynhonnell: Ystadegau Mewnfudo y Swyddfa Gartref, chwarter olaf 2017.

Tudalen y pecyn 9

# NAM AR Y SYNHWYRAU



Mae'r term 'pobl â nam ar y synhwyrau' yn cyfeirio at:

- Bobl sydd yn Fyddar, wedi'u byddaru neu'n drwm eu clyw
- Pobl sydd yn Ddall neu'n rhannol ddall
- Pobl sydd yn Fyddar ac yn ddall – lle bo nam ar eu golwg ac ar y clyw yn achosi anawsterau wrth gyfathrebu, wrth gael mynediad at wybodaeth ac wrth symud o gwmpas

**7,200 O DDEFNYDDWYR IAITH ARWYDDION PRYDAIN** yng Nghymru, y mae 4,000 ohonynt yn fyddar (ffynhonnell – Cymdeithas Pobl Fyddar Prydain 2017)

Dywedodd **1,118 O BOBL** mai iaith arwyddion oedd eu prif iaith (ffynhonnell – Cyfrifiad 2011)



Mae **100,000 O BOBL** yn ddall neu'n rhannol ddall (ffynhonnell RNIB Cymru)

Mae **575,000** yn profi byddardod neu nam ar y clyw (ffynhonnell – Action on Hearing Loss Cymru, 2017)

Iaith weledol nad yw'n gysylltiedig â'r Gymraeg na'r Saesneg yw Iaith Arwyddion Prydain. Mae'r gymuned o bobl fyddar yn y DU sydd yn defnyddio iaith arwyddion yn grŵp diwylliannol ac ieithyddol unigryw, a chanddo amryw o amrywiadau rhanbarthol. Drwy ein gwaith, gwelsom nad oedd gan lawer o bobl, gan gynnwys darparwyr gwasanaeth, ryw lawer o ddealltwriaeth o'r diwylliant byddar ac o iaith arwyddion.

Bydd dehonglwyr iaith arwyddion yn helpu pobl fyddar i gyfathrebu. Ymhlith y mathau eraill o gefnogaeth ceir siaradwyr gwefusau, palanteipyddion sy'n trosi'r gair llafar yn destun a chymerwyr nodiadau.

Tudalen y pecyn 10

# Crynodeb

## Y Cefndir

1 Mae tua 20,000 o bobl yn byw yng Nghymru nad ydynt yn siarad Cymraeg na Saesneg fel iaith gyntaf. O blith y rhain, nid yw tua 3,500 ohonynt ym medru ond ychydig o Gymraeg neu Saesneg os o gwbl. Mae'r ffigur hwn, a dynnwyd o Gyfrifiad 2011, yn cynnwys 1,138 o bobl sydd yn defnyddio Iaith Arwyddion Prydain fel prif neu unig iaith. Fodd bynnag, mae elusennau sy'n gweithio gyda phobl[1] fyddar yn awgrymu bod oddeutu 4,000 o bobl yn defnyddio Iaith Arwyddion Prydain.

2 Mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus sicrhau bod pawb, waeth beth fo'u hanghenion o ran iaith a chyfathrebu, yn gallu cyrchu gwasanaethau. Mae dyletswyddau perthnasol wedi'u nodi yn Neddf Cydraddoldeb 2010, Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Os nad yw cyrff cyhoeddus yn cyflawni'r dyletswyddau hyn, mae peryg iddynt wynebu cwynion a chamau cyfreithiol yn eu herbyn. Ar ben hynny, bydd pobl yn profi deilliannau a phrofiadau gwaelach.

3 Mae darparu gwasanaethau dehongli a chyfieithu effeithiol i bobl nad ydynt yn siarad Cymraeg na Saesneg fel iaith gyntaf, neu sy'n fyddar ac yn defnyddio iaith arwyddion, yn un ffordd y gall cyrff cyhoeddus geisio cyflawni eu dyletswyddau yn gysylltiedig â chydraddoldeb. Ym Mocs 1 ceir gwybodaeth am ddehongli a chyfieithu.

**Bocs 1 – Ynghylch dehongli a chyfieithu**

Yn aml, defnyddir y termau **'dehongli'** a **'chyfieithu'** yn rhyng-gyfnewidiol. Fodd bynnag, mae'r naill weithgaredd yn wahanol i'r llall:

- **Dehongli (a elwir hefyd yn gyfieithu ar y pryd)** yw cyfieithu geiriau ar lafar neu i iaith arwyddion pan fydd rhywun yn siarad â rhywun arall. Gall hynny ddigwydd wyneb yn wyneb; dros y ffôn os yw'r dehonglwr yn ymuno â galwad gynadledda; neu drwy Fideo-ddehongli o Bell lle bydd modd gweld y dehonglwr ar gyfrifiadur, llechen neu ffôn clyfar.
- **Cyfieithu** yw newid testun ysgrifenedig o'r naill iaith i iaith arall. Yn gynyddol, defnyddir meddalwedd cyfieithu i ddarparu cyfieithiad, er enghraifft i gyfieithu tudalennau gwe o'r naill iaith i iaith arall.

Yn ogystal â dehonglwyr, gall pobl fyddar hefyd elwa ar fathau eraill o gefnogaeth wrth gyfathrebu, gan gynnwys siaradwyr gwefus, rhai sy'n cymryd nodiadau, a phalanteipyddion sydd yn trosi geiriau llafar yn destun.

Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru

1 Mae'r term byddar yn cynnwys pobl fyddar sy'n defnyddio iaith arwyddion a phobl fyddar sy'n drwm eu clyw ond sydd yn siarad Saesneg fel iaith gyntaf, ac a allai ddarllen gwefusau ac/neu ddefnyddio cymhorthion clyw.

4 Gall cyrff cyhoeddus gyflogi staff fel dehonglwyr neu brynu gwasanaethau oddi wrth ddarparwyr trydydd sector a masnachol. Gallant ofyn i staff â sgiliau iaith helpu i gyfathrebu, ond yn ôl arfer da, ni ddylid ond gwneud hynny mewn argyfwng nes bo dehonglwr proffesiynol ar gael.

5 Bu pryder ynghylch argaeledd dehonglwyr yng Nghymru ers cryn amser: yn 2009, darparodd Llywodraeth Cymru grant o £120,000 i sefydlu Gwasanaeth Dehongli a Chyfieithu Cymru (WITS). Gwasanaeth canolog yw WITS sydd ar gael i unrhyw gorff cyhoeddus yng Nghymru. Ar hyn o bryd, mae 0 o sefydliadau yn 'bartneriaid' i WITS sydd yn rhoi llais iddynt yn rheolaeth gyffredinol y gwasanaeth.

6 Cynhaliwyd WITS gan Heddlu Gwent i ddechrau, a oedd hefyd yn gyfrifol am reoli'r gwasanaeth o ddydd i ddydd. Mewn archwiliad a gomisiynwyd gan Heddlu Gwent yn 2014, nodwyd pryderon ynghylch trefniadau rheoli a llywodraethu WITS, yr oedd peth ohonynt yn deillio o dwf cyflym y gwasanaeth. Yn rhan o'i ymateb i'r archwiliad, cysylltodd Heddlu Gwent â Chyngor Caerdydd, i ofyn iddo fod yn gyfrifol am gynnal y gwasanaeth. Trosglwyddwyd WITS yn ffurfiol i Gyngor Caerdydd ym mis Gorffennaf 2017.

## Ein gwaith

7 Yn 2015, buom yn ymateb i faterion a godwyd gyda'r Archwilydd Cyffredinol ynghylch trefniadau Bwrdd Iechyd i gaffael gwasanaeth dehongli Iaith Arwyddion Prydain. Ar sail y gwaith a wnaed ar y pryd, ni chawsom hyd i unrhyw bryderon penodol ynghylch yr ymagwedd a fabwysiadwyd gan y Bwrdd Iechyd. Fodd bynnag, yn ddiweddarach, penderfynwyd y byddem yn mynd ati i edrych yn ehangach ar y modd y mae cyrff cyhoeddus, yn enwedig llywodraeth leol a chyrff y GIG sy'n darparu gwasanaethau rheng flaen, yn darparu gwasanaethau dehongli a chyfieithu ar gyfer Iaith Arwyddion Prydain ac ieithoedd eraill, fel bo modd i bobl sy'n wynebu'r rhwystrau cyfathrebu hyn gyrchu gwasanaethau. Yn rhan o'n gwaith, nid ydym wedi ystyried ymatebion polisi integreiddio a chydlyniant cymunedol ar raddfa ehangach a allai gynorthwyo pobl i ddysgu iaith wahanol. Bu ein ffocws ar ddarparu gwasanaethau dehongli a chyfieithu i rai sydd eu hangen.

8 Yn rhan o'r gwaith hwn, buom yn ymchwilio ac yn cyfweld â phobl o wahanol grwpiau cynrychioliadol, llunwyr polisi yng Nghymru a darparwyr gwasanaethau dehongli a chyfieithu. Defnyddiwyd gwybodaeth hefyd o ddau ddigwyddiad cyd-ddysgu a gynhaliwyd gennym tua dechrau 2017. Buom yn adolygu dogfennau polisi a ddarparwyd gan gynghorau a byrddau iechyd, yn ogystal â dogfennau strategol eraill perthnasol; cynlluniau cydraddoldeb strategol y mae'n ofynnol i bob corff cyhoeddus eu creu; Asesiadau Anghenion Poblogaeth a gynhyrchwyd gan gynghorau a byrddau iechyd am y tro cyntaf yn 2017; a'r asesiadau llesiant a gynhyrchir gan Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (Atodiad 1).

9 Ni wnaethom adolygu'r gwasanaeth dehongli a chyfieithu Saesneg/Cymraeg. Rhoddir statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru, felly mae safonau a deddfwriaeth wahanol yn berthnasol i hynny[2]. Comisiynydd y Gymraeg sydd yn goruchwylio cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg.

10 Rydym yn cydnabod bod llawer o bobl yn wynebu rhwystrau cyfathrebu am resymau eraill ar wahân i iaith wrth gyrchu gwasanaethau cyhoeddus. Mae hyn yn cynnwys pobl sydd yn drwm eu clyw, pobl sydd wedi colli eu golwg neu sydd wedi colli dau synnwyr (cyfuniad o golli'r golwg a'r clyw), yn ogystal â phobl ag anableddau neu anawsterau dysgu neu awtistiaeth[3]. Er nad ydynt wedi'u cynnwys yng nghwmpas yr adroddiad hwn, bydd mentrau i wella dulliau cyfathrebu – fel symleiddio'r iaith, codi ymwybyddiaeth ynghylch anghenion cyfathrebu a datblygu gwefannau hygyrch – o fudd i'r grŵp ehangach hwn o ddefnyddwyr gwasanaeth.

2 Mae Mesur y Gymraeg (2011) yn adeiladu ar ddeddfwriaeth flaenorol ar y Gymraeg. Ni ddylai sefydliadau drin y Gymraeg yn llai ffafriol na Saesneg, ac mae dyletswydd arnynt i hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn gyfrifol am fonitro a gorfodi Safonau'r Gymraeg yng Nghymru.

3 Er enghraifft, amcangyfrifwyd yn flaenorol bod oddeutu 100,000 o bobl ddall a rhannol-ddall yng Nghymru (GIG Cymru, Safonau Cymru Gyfan ar gyfer Darparu Gwybodaeth i Bobl â Nam ar y Synhwyrau a Chyfathrebu â Hwy, Gorffennaf 2013). Ceir tua 31,000 o bobl awtistig yng Nghymru (Llywodraeth Cymru, Cynllun Gweithredu Strategol Newydd ar gyfer Anhwylder ar y Sbectrwm Awtistig, Rhagfyr 2016). Mae Cymdeithas Dyslecsia Prydain (2018) yn amcangyfrif bod gan 10% o'r boblogaeth (310,000 o bobl yng Nghymru) ddyslecsia, yr anhawster dysgu mwyaf cyffredin, a bod gan 4% ohonynt (124,000 o bobl) ddyslecsia difrifol.

## Ein canfyddiadau a'n casgliadau

11 Er na wnaethom edrych yn fanwl ar y gwasanaethau a gynigir mewn cynghorau neu yng nghyrff y GIG, roedd hi'n glir bod amrywiaeth yn y graddau yr oeddent yn deall anghenion eu cymunedau ac yn sicrhau bod eu gwasanaethau yn hygyrch i bobl yr oedd arnynt angen gwasanaethau dehongli a chyfieithu. O'r 15 o gynghorau a saith corff y GIG a ymatebodd i'n cais am wybodaeth, dim ond hanner ohonynt a feddai ar bolisi ffurfiol ar y defnydd o wasanaethau dehongli a chyfieithu. Fodd bynnag, dywedodd yr holl ymatebwyr eu bod wedi darparu hyfforddiant i'w holl staff, neu rai ohonynt, ar anghenion ieithyddol ac/neu golli synhwyrau. Ni wnaethom asesu'r defnydd o'r hyfforddiant hwn, neu ei effeithiolrwydd.

12 Nid ydym yn gwybod beth yw cyfanswm cost gwasanaethau dehongli a chyfieithu ar gyfer ieithoedd eraill ar wahân i'r Gymraeg. Fodd bynnag, gwariwyd £2.2 miliwn gan gyrff cyhoeddus drwy WITS yn 2016-17. Gwariwyd £55,000 ganddynt hefyd ar gwmnïau eraill drwy gontractau fframwaith Llywodraeth y DU. Nid yw'r ffigurau hyn yn cynnwys contractau â chwmnïau masnachol neu sefydliadau trydydd sector na chaffaelwyd drwy'r fframweithiau, na'r gost o gyflogi staff fel dehonglwyr neu gyfieithwyr.

13 Mae angen i gyrff cyhoeddus sicrhau bod pobl nad ydynt yn siarad Cymraeg na Saesneg fel iaith gyntaf yn gallu cyrchu dehonglwyr a chyfieithwyr i'w galluogi i ddefnyddio gwasanaethau cyhoeddus. Dylai sefydliadau hefyd sicrhau eu bod yn cymryd camau i hysbysu pobl am eu hawl i wneud cais am ddehonglwyr a gwybodaeth ar ffurf hygyrch. Rydym wedi datblygu rhestr wirio i helpu cyrff cyhoeddus i adolygu'r gwasanaeth dehongli a chyfieithu a ddarperir (Bocs 4). Nodwyd hefyd nifer o heriau o flaen gwasanaethau dehongli a chyfieithu y mae angen i gyrff cyhoeddus eu hystyried wrth gynllunio a chaffael y gwasanaethau hynny.

| Argymhellion |
| --- |
| **Sicrhau bod pobl sy'n wynebu rhwystrau o ran iaith a chyfathrebu yn gallu cyrchu gwasanaethau cyhoeddus**<br>A1 Mae'n ofynnol i gyrff cyhoeddus sicrhau y gall pobl gyrchu'r gwasanaethau y mae arnynt eu hangen. **Er mwyn bod yn ystyriol o ofynion Deddf Cydraddoldeb 2010 a deddfwriaeth arall, argymhellwn y dylai cyrff cyhoeddus gynnal adolygiad rheolaidd er mwyn canfod pa mor hygyrch yw eu gwasanaethau i bobl nad ydynt yn siarad Cymraeg na Saesneg fel prif iaith, gan gynnwys pobl fyddar sydd yn defnyddio iaith arwyddion. Gellir defnyddio ein rhestr wirio yn rhan o'r asesiad hwn.** |
| **Datblygu gwasanaethau dehongli a chyfieithu yng Nghymru**<br>A2 Drwy ein gwaith gyda chyrff cyhoeddus, darparwyr gwasanaeth dehongli a chyfieithu a defnyddwyr gwasanaeth, nodwyd bod sawl her o flaen gwasanaethau dehongli a chyfieithu. **Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda chyrff cyhoeddus, grwpiau cynrychioliadol a phartïon eraill â buddiant i sicrhau:**<br>• **bod digon o ddehonglwyr ar gael, yn enwedig ar gyfer ieithoedd y ceir galw mawr amdanynt, fel Iaith Arwyddion Prydain ac Arabeg;**<br>• **bod dehonglwyr sydd wedi derbyn hyfforddiant arbenigol ar gael i weithio mewn gwasanaethau iechyd meddwl, a chyda phobl sydd wedi profi trawma neu drais; a**<br>• **bod gweithdrefnau ar waith i ddiogelu a sicrhau ansawdd.** |

## Argymhellion

**Safon Gwybodaeth Hygyrch**

A3 Nid yw Safonau GIG Cymru ar gyfer Darparu Gwybodaeth Hygyrch i Bobl â Nam ar eu Synhwyrau a Chyfathrebu â Hwy, a gyhoeddwyd yn 2013, ond yn berthnasol i'r gwasanaeth iechyd. Mae'r Safon Gwybodaeth Hygyrch newydd yn ei gwneud hi'n ofynnol hefyd i feddygfeydd teulu holi ynghylch anghenion cyfathrebu cleifion â nam ar eu synhwyrau. O fis Mawrth 2018, gellir rhannu gwybodaeth ar ffurf e-atgyfeiriad o fewn GIG Cymru. **Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru ystyried y canlynol:**

- **ehangu cwmpas Safonau Cymru Gyfan ar gyfer Darparu Gwybodaeth Hygyrch i Bobl â Nam ar eu Synhwyrau a Chyfathrebu â Hwy 2013 a'r Safon Gwybodaeth Hygyrch newydd i gynnwys:**
  - a **cleifion nad ydynt yn siarad Cymraeg na Saesneg fel prif iaith;**
  - b **cleifion sy'n wynebu rhwystrau o ran iaith a chyfathrebu, oherwydd anabledd, anawsterau dysgu neu awtistiaeth; a**
  - c **rhieni a gofalwyr sy'n wynebu rhwystrau o ran iaith a chyfathrebu.**
- **a ellid addasu Safonau Cymru Gyfan ar gyfer Darparu Gwybodaeth Hygyrch i Bobl â Nam ar eu Synhwyrau a Chyfathrebu â Hwy 2013 i gynnwys gwasanaethau cyhoeddus eraill.**

Rhan 1

# Gwneud gwasanaethau yn hygyrch i bobl sy’n wynebu rhwystrau o ran iaith a chyfathrebu



1.1 Yn y rhan hon o’r adroddiad, edrychwn ar y gofynion deddfwriaethol y mae’n rhaid i gyrff cyhoeddus eu bodloni er mwyn sicrhau bod eu gwasanaethau yn hygyrch i bobl nad ydynt yn siarad Cymraeg na Saesneg fel iaith gyntaf. Byddwn hefyd yn adrodd ein canfyddiadau ar y ffyrdd y mae cyrff cyhoeddus yn sicrhau bod eu gwasanaethau yn hygyrch i’r cymunedau ieithyddol hyn.

# Deddfwriaeth a pholisi

## Deddf Cydraddoldeb 2010 a Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus

1.2 Mae peryg i gyrff cyhoeddus wynebu cwynion a chamau cyfreithiol os nad ydynt yn llwyddo i gyfathrebu’n effeithiol â phobl nad ydynt yn siarad Cymraeg na Saesneg. Mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru wedi ymdrin â chwynion o’r fath o fewn y GIG. Mae’r achosion yn cynnwys sefyllfa lle canfu’r Ombwdsmon fod absenoldeb dehonglwr wedi cyfrannu at amryw o wallau yn ystod genedigaeth, ac amryw o sefyllfaoedd lle nad oedd pobl wedi cael esboniad llawn o’u gofal. Mewn achos arall, canfu’r Ombwdsmon nad oedd claf byddar wedi derbyn gofal digonol ar ddiwedd ei oes gan nad oedd Bwrdd Iechyd wedi gwneud addasiadau rhesymol i fodloni ei anghenion cyfathrebu.

1.3 Rhoddai Deddf Cydraddoldeb 2010 gyfrifoldeb statudol ar ddarparwyr gwasanaeth cyhoeddus i hyrwyddo cyfle cyfartal a chael gwared â gwahaniaethu. Gelwir y cyfrifoldeb hwn yn Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (Bocs 2).

**Bocs 2 – Deddf Cydraddoldeb 2010 a Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus**

Daeth Deddf Cydraddoldeb 2010 â'r holl ddeddfwriaeth flaenorol ar atal gwahaniaethu ynghyd, a chyflwyno Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus. Mae'r Ddyletswydd yn ei gwneud hi'n ofynnol i gyrff cyhoeddus a rhai sy'n darparu gwasanaethau ar eu rhan yng Nghymru, Lloegr a'r Alban roi sylw i'r canlynol:

- cael gwared ag achosion anghyfreithlon o wahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth, ac unrhyw ymddygiad arall a waherddir yn sgil y Ddeddf;
- hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl o wahanol grwpiau; a
- meithrin perthynas dda rhwng pobl o wahanol grwpiau - mae hyn yn cynnwys mynd i'r afael â rhagfarn a hyrwyddo dealltwriaeth rhwng pobl o wahanol grwpiau.

Mewn Ymchwil i Gomisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Cymru yn 2016[4] casglwyd bod Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn gweithio'n effeithiol yng Nghymru a bod dyletswyddau'n ymwneud yn benodol â Chymru yn cefnogi cynnydd gwaith ar gydraddoldeb.

Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru

1.4 Yn ôl y Ddeddf Cydraddoldeb, mae'n ofynnol i gyrff cyhoeddus gyhoeddi Cynllun Cydraddoldeb Strategol sy'n nodi eu hamcanion cydraddoldeb a chamau gweithredu i'w cyflawni. Yr oedd dros hanner (24 o 41) y Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol a adolygwyd gennym yn trafod camau gweithredu ar gyfer pobl sydd yn fyddar neu sy'n defnyddio Iaith Arwyddion Cymru, ac roedd 20 o 41 yn crybwyll materion yn gysylltiedig â nam ar y synhwyrau. Yr oedd dros hanner ohonynt (26 o 41) yn cynnwys cyfeiriadau at ddarparu gwasanaethau mewn ieithoedd eraill ar wahân i'r Gymraeg a Saesneg. Yr oedd deg o 41 o Gynlluniau Cydraddoldeb Strategol yn cyfeirio'n benodol at ffoaduriaid neu geiswyr lloches. Roedd y rhain yn cynnwys ardaloedd y pedwar cyngor lle mae mwyafrif y ceiswyr lloches yn byw. Er enghraifft, yn eu Cyd-gynllun Cydraddoldeb Strategol, mae Heddlu Gwent a Chomisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gwent yn ymrwymo i weithio gydag ymfudwyr a cheiswyr lloches newydd er mwyn cynyddu hyder ac ymddiriedaeth mewn plismona yn y gymuned. Yr oedd eraill - gan gynnwys ardaloedd gwasgaru Abertawe, Caerdydd a Wrecsam - yn cyfeirio at anghenion ieithyddol Cymunedau Du a Lleiafrifol Ethnig yn fwy cyffredinol.

4 Martin Mitchell, Kelsey Beninger, Nilufer Rahim a Gareth Morrell, **Adolygiad o Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yng Nghymru**, Gorffennaf 2016

## Deddfwriaeth arall berthnasol sydd yn ymwneud yn benodol â Chymru

1.5 Dylai deddfwriaeth arall a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru ddylanwadu ar y modd y mae cyrff cyhoeddus yn ymdrin ag anghenion penodol pobl sy'n wynebu rhwystrau ieithyddol, ac yn ymateb i'r anghenion hynny.

### Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

1.6 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i gydweithio i fodloni anghenion eu cymunedau, i fodloni saith nos llesiant, gan gynnwys adeiladu Cymru fwy cyfartal a chymunedau cydlynol a chynhwysol. Un o ofynion y Ddeddf yw bod yn rhai i Fyrddau Gwasanaeth Cyhoeddus gyhoeddi asesiad llesiant o anghenion eu cymunedau. Mae pob Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn penderfynu ar y materion i'w cynnwys yn ei asesiad o anghenion. Wrth adolygu cynnwys yr asesiadau cyntaf a gyhoeddwyd ym mis Mai 2017, gwelsom fod naw o 19 o Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus[5] yn cyfeirio at anghenion pobl fyddar, yn fyw cyffredinol at bobl â nam ar y synhwyrau neu at Iaith Arwyddion Prydain. Roedd asesiadau deuddeg o Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn cyfeirio at anghenion ieithyddol rhai cymunedau (ar wahân i'r Gymraeg) a saith yn cyfeirio at anghenion ymfudwyr, ceiswyr lloches neu ffoaduriaid. Roedd y rhain yn cynnwys asesiadau a drafodai'r pedair ardal a oedd yn cynnwys y mwyaf o geiswyr lloches a ffoaduriaid.

### Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

1.7 Nod Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yw gwella'r modd y caiff anghenion gofal unigolion eu hasesu a'u bodloni. Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol ddarparu gwybodaeth, cyngor a chymorth i unigolyn mewn modd sydd yn hygyrch iddo, er mwyn ei alluogi i gymryd rhan weithredol yn y broses o'u cynorthwyo a'u cynllun cymorth. Mae'n ofynnol iddynt hefyd lunio cofrestr o bobl sydd yn byw yn lleol ac sydd â nam ar eu golwg, nam difrifol ar eu golwg, nam ar eu clyw, nam difrifol ar eu clyw, neu a chanddynt y nam ar y golwg ac ar y clyw sydd gyda'i gilydd yn cael effaith sylweddol ar eu bywyd. Ni wnaethom asesu'r graddau y mae awdurdodau lleol yn bodloni'r gofynion hyn yn rhan o'r gwaith hwn. Roedd Llywodraeth Cymru wedi nodi nam ar y synhwyrau fel thema graidd yn ei chanllawiau ar gyfer yr asesiad. Pob un o'r saith Asesiad o Anghenion Poblogaeth a gyhoeddwyd ym mis Ebrill a Mai 2017[6] yn cynnwys cyfeiriadau at anghenion a gwasanaethau i bobl â cholled synhwyraidd.

5 Ar y cyfan, mae Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn trafod ardaloedd awdurdod lleol unigol. Dewisodd Cynghorau Ynys Môn a Gwynedd a Sir Ddinbych a Chonwy greu Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ar y cyd.

6 Mae Asesiadau Anghenion Poblogaeth yn trafod y cymunedau sy'n byw yr ardal y mae pob un o'r saith bwrdd iechyd lleol yn ymdrin â hwy.

1.8 Roedd dau o saith o Asesiadau Anghenion y Boblogaeth yn cyfeirio at anghenion ieithyddol ffoaduriaid, ymfudwyr neu geiswyr lloches wrth gyrchu gwasanaethau cyhoeddus. Er enghraifft, amlinellodd Partneriaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig Caerdydd a'r Fro broblemau allweddol sy'n wynebu ceiswyr lloches a ffoaduriaid wrth gyrchu gwasanaethau cyhoeddus yn ei Hasesiad o Anghenion y Boblogaeth. Roedd y problemau'n cynnwys diffyg gwybodaeth hygyrch a chyfyngu ar y defnydd o ddehonglwyr mewn lleoliadau iechyd meddwl. Mae'r Asesiad hefyd yn cynnwys meysydd lle mae angen gweithredu ymhellach, fel mynediad gwell at gwasanaethau iechyd meddwl i bobl nad ydynt yn siarad Cymraeg na Saesneg. Roedd Partneriaeth Gofal Cymdeithasol a Llesiant Gwent Fwyaf hefyd wedi cynnwys asesiad o anghenion ffoaduriaid a cheiswyr lloches yn ei Hasesiad o Anghenion y Boblogaeth.

## Safonau Cymru Gyfan GIG Cymru ar gyfer Darparu Gwybodaeth Hygyrch i Bobl â Nam ar eu Synhwyrau a Chyfathrebu â Hwy 2013

1.9 Yn 2012, adroddodd gweithgor a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru ar y rhwystrau a brofir gan bobl â nam ar y synhwyrau wrth gyfathrebu ym maes gofal iechyd. Arweiniodd ei argymhellion at gyhoeddi safonau GIG Cymru ar gyfer darparu gwybodaeth hygyrch i bobl â nam ar eu synhwyrau a chyfathrebu â hwy ym mis Tachwedd 2013[7]. Nodir yn y safonau yr hyn y dylai pobl â nam ar y synhwyrau ei ddisgwyl wrth gyrchu gofal iechyd. Mae'r safonau'n berthnasol i oedolion, pobl ifanc a phlant ac yn trafod cyfathrebu, y gweithlu a hyfforddi, safonau gofal iechyd a chwynion.

7 GIG Cymru, **Safonau Cymru Gyfan gyfer Darparu Gwybodaeth Hygyrch i Bobl â Nam ar eu Synhwyrau a Chyfathrebu â Hwy**, Gorffennaf 2013

1.10 Mae Llywodraeth Cymru yn monitro cynnydd cyrff y GIG tuag at fodloni'r safonau bob blwyddyn. Yn yr adolygiadau nas cyhoeddwyd ganddi ar gyfer 2015-16 a 2016-17, casglodd fod holl gyrff y GIG yn gweithio tuag at gyflawni'r safonau[8]. Mae'r cynnydd, fodd bynnag, yn amrywio: cafwyd mwy o gynnydd ar y cyfan mewn gofal eilaidd nag mewn gofal sylfaenol, gofal brys a gofal heb ei drefnu (Atodiad 2). Amlygwyd rhai o'r problemau sy'n weddill[9] mewn adroddiad gan Action on Hearing Loss Cymru ym mis Mawrth 2018 ar fynediad pobl â nam ar y clyw at feddygon teulu. Er enghraifft, dywedodd 54% o'r 380 a ymatebodd i'r arolwg eu bod wedi gadael y feddygfa yn ansicr ynghylch eu diagnosis neu sut i gymryd eu meddyginiaeth. Dangosai'r adroddiad anawsterau yn gysylltiedig â threfnu apwyntiadau yn enwedig: Bu'n rhaid i 29% o'r rhai a ymatebodd ofyn i rywun ffonio'r feddygfa ar eu rhan, a bu'n rhaid i 36% ymweld â'r feddygfa i drefnu apwyntiad gan nad oeddent yn gallu defnyddio'r ffôn na'r mynediad ar-lein, neu gan nad oedd dulliau eraill o gyfathrebu ar gael.

## Polisïau Llywodraeth Cymru ar ffoaduriaid a cheiswyr lloches

1.11 Mae Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am bolisïau fel iechyd, addysg a thai sydd yn hanfodol er mwyn integreiddio ceiswyr lloches a ffoaduriaid yn llwyddiannus[10]. Mae Llywodraeth y DU yn gyfrifol am y polisi ymfudo a cheisio lloches, gan gynnwys penderfyniadau ynghylch lloches.

8 Llywodraeth Cymru, Diweddariad ar Ddarparu Gwybodaeth Hygyrch i Bobl â Nam ar eu Synhwyrau a Chyfathrebu â Hwy, Mai 2016, adroddiad heb ei gyhoeddi.

9 Action on Hearing Loss Cymru, Good practice?: **Why people in Wales who are deaf or have hearing loss are still not getting accessible information from their GP**, Mawrth 2018.

10 Ceir ystyr penodol i'r termau 'ceisiwr lloches' a 'ffoadur'. Mae ceisiwr lloches wedi arfer ei hawl gyfreithiol i geisio lloches o dan Gonfensiwn 1951 y Cenhedloedd Unedig yn gysylltiedig â Statws Ffoaduriaid. Ffoadur yw rhywun sydd 'oherwydd ofn rhesymol o gael ei erlid am resymau'n ymwneud â hil, crefydd, cenedligrwydd, bod yn aelod o grŵp cymdeithasol penodol, neu farn wleidyddol, sydd y tu allan i wlad ei genedligrwydd, ac sy'n methu neu, oherwydd ofn o'r fath, sy'n amharod i dderbyn diogelwch y wlad honno'. Y mae hefyd yn cynnwys pobl nad ydynt yn cael eu hadnabod fel ffoaduriaid ond sydd wedi cael caniatâd amhenodol i aros, amddiffyniad dyngarol neu ganiatâd i aros yn ôl disgresiwn.

1.12 Yn **Strategaeth Cynnwys Ffoaduriaid** Llywodraeth Cymru (Cylchlythyr 14/2008, Mehefin 2008) nodwyd ei gweledigaeth, sef bod ffoaduriaid yn cael cefnogaeth i fod yn aelodau cwbl weithredol mewn cymdeithas, gan gymryd rhan yn y bywyd Cymreig, a chyfrannu ato. Roedd y strategaeth yn cydnabod bod iaith yn hanfodol er mwyn sicrhau cynhwysiant, ac yn cynnwys cynigion i ymdrin â'r prinder dehonglwyr sydd yn gweithio yng Nghymru, a chynlluniau i fonitro a gwerthuso gwasanaethau dehongli. Mae cyfres o Gynlluniau Cyflawni Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches wedi cefnogi'r strategaeth[11]. Mae Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar gynllun newydd ar hyn o bryd[12]. Mae Partneriaeth Ymfudo Strategol Cymru, a sefydlwyd yn 2001 gan y Swyddfa Gartref ac a gynhelir gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, yn cefnogi Llywodraeth Cymru, cynghorau a phartneriaid eraill lleol sydd yn cyflenwi gwasanaethau i ffoaduriaid a cheiswyr lloches.

# Gwahanol ymagweddau at ddarparu gwasanaethau dehongli a chyfieithu

## Cyflogi staff a all weithredu fel dehonglwyr a chyfieithwyr pan fo angen

1.13 Pan fo digon o alw, gall cyrff cyhoeddus gyflogi staff a all weithredu fel cyfieithwyr neu gyfieithwyr ar y pryd. Er enghraifft, sefydlwyd Gwasanaeth Addysg Lleiafrifoedd Ethnig Gwent lle bydd staff a gyflogir i gefnogi disgyblion nad ydynt yn siarad Saesneg mewn ysgolion hefyd wedi'u hyfforddi i weithredu fel cyfieithwyr ar y pryd yn fwy cyffredinol ar draws gwasanaethau cyhoeddus. Dehonglwyr GEMS yw'r dewis cyntaf i rai cyrff cyhoeddus yn ardal Gwent, gan gynnwys Cyngor Dinas Casnewydd a Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.

1.14 Fel y disgrifir yn Astudiaeth Achos 1, rhestrodd Cyngor Caerdydd y gallu i siarad iaith gymunedol fel maen prawf dymunol wrth recriwtio staff i weithio yn ei ganolfannau cymunedol yn darparu gwybodaeth a gwasanaethau cynghori. Mae cyrff cyhoeddus eraill yn cadw cofrestr o staff sy'n gallu gweithio mewn ieithoedd eraill. Er enghraifft, bydd byrddau iechyd yn cyhoeddi manylion meddygon teulu sydd yn gallu gweithio mewn ieithoedd eraill yn ogystal â'r Gymraeg.

11 Llywodraeth Cymru, **Cynllun Cyflawni Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches,** Mawrth 2016.

12 Llywodraeth Cymru, **Cenedl Noddfa - Cynllun Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches,** Mawrth 2018.

Astudiaeth Achos 1 – Recriwtiodd Cyngor Caerdydd staff a allai siarad ieithoedd cymunedol i'w wasanaethau cynghori

| |
|---|
| Bum mlynedd yn ôl, ad-drefnodd Cyngor Caerdydd y gwasanaethau cynghori a chymunedol fel eu bod yn seiliedig ar fodel cymdogaeth. Mae un ar ddeg o ganolfannau ar draws y ddinas bellach yn darparu gwasanaethau llyfrgell, cyngor ar dai ac ymholiadau ynghylch y dreth gyngor, prydau ysgol am ddim a cheisiadau pas bws, hyfforddiant sgiliau gwaith a gwybodaeth am gyfleoedd dysgu i oedolion yn y gymuned.<br><br>Sylweddolodd Cyngor Caerdydd fod angen gwasanaethau cynghori mewn ieithoedd eraill ar wahân i'r Gymraeg a Saesneg yn ei gymuned amrywiol. Rhestrai wybodaeth am ail iaith gymunedol fel 'sgìl dymunol' wrth recriwtio staff i weithio yn y Canolfannau.<br><br>Yn ôl y Cyngor, ni fu'n rhaid iddo ysgwyddo unrhyw gostau ychwanegol wrth gyflogi rhai pobl a oedd yn gallu gweithredu fel dehonglwyr yn rhan o'u rôl yn ôl yr angen. Yr oedd hynny gan fod llawer o ymgeiswyr o safon uchel hefyd yn meddu ar y sgiliau iaith yr oedd yn dymuno eu cael. Yn hytrach, ei awgrym i ni oedd ei fod wedi arbed arian drwy beidio orfod defnyddio dehonglwyr, a'i fod hefyd yn darparu gwasanaeth gwell i ddinasyddion. Mae'r Cyngor o'r farn fod y fenter wedi codi ei broffil fel cyflogwr da o fewn y cymunedau ieithyddol. |

Ffynhonnell: Cyngor Caerdydd, 2017

1.15 Dywedodd cyfanswm o chwech o'r 12 o gynghorau a ddarparodd wybodaeth wrthym eu bod yn cyflogi staff i ddarparu gwasanaeth o ryw fath mewn ieithoedd eraill ar wahân i'r Gymraeg a Saesneg. Ni chafwyd ffigurau manwl gan yr un ohonynt, ond roedd hyn yn cynnwys staff a gyflogir ym maes y gwasanaethau cymdeithasol ac addysg fel cynorthwywyr addysgu ac athrawon i ddisgyblion nad ydynt yn siarad Cymraeg na Saesneg. Efallai na fydd digon o alw mewn rhai cyrff cyhoeddus i gyfiawnhau cyflogi staff. Fodd bynnag, hyd yn oed pan fo digon o alw, neu pan fo ganddynt staff â sgiliau iaith, bydd angen i gyrff cyhoeddus ddefnyddio sefydliadau allanol o hyd i ddarparu gwasanaethau dehongli a chyfieithu i fodloni cynnydd sydyn yn y galw, ar gyfer sefyllfaoedd lle na fydd staff ar gael, neu ar gyfer ieithoedd mwy prin.

## Gwasanaeth Dehongli a Chyfieithu Cymru

### Cefndir i Wasanaeth Dehongli a Chyfieithu Cymru

1.16 Sefydlwyd Gwasanaeth Dehongli a Chyfieithu Cymru (WITS) yn dilyn pryderon ynghylch ansawdd a nifer y dehonglwyr sydd ar gael i gyrff cyhoeddus yng Nghymru (Bocs 3). Wrth wneud gwaith ymchwil ar gyfer Cronfa Creu'r Cysylltiadau Llywodraeth Cymru yn 2004, argymhellwyd y dylid sefydlu stop un siop i gyrff cyhoeddus a sefydliadau'r trydydd sector yng Nghymru ar gyfer gwasanaethau dehongli a chyfieithu. Y nod oedd darparu gwasanaeth o ansawdd gyda chostau sylfaenol, ac y byddai'r gwasanaeth yn dod i'w ariannu ei hun yn raddol.

1.17 Er iddi gymryd peth amser i wireddu argymhelliad Creu'r Cysylltiadau o 2004, sefydlodd Cyngor Caerdydd a Heddlu Gwent WITS ar ffurf cydweithrediad ym mis Tachwedd 2009, drwy ddefnyddio grant cychwynnol o £120,000 o Gronfa Creu'r Cysylltiadau. O dan delerau'r grant, roedd disgwyl i WITS ddechrau ei ariannu ei hun o fewn tri mis. Ni chafwyd unrhyw ymwneud uniongyrchol pellach gan Lywodraeth Cymru yn nhrefniadau ariannu na rheoli WITS.

**Bocs 3 – Ynglŷn â Gwasanaeth Dehongli a Chyfieithu Cymru (WITS)**

Mae WITS yn darparu gwasanaeth archebu un stop ar gyfer dehongli wyneb yn wyneb a chyfieithu, drwy gynnig cofrestr o ddehonglwyr hunangyflogedig. Mae WITS yn darparu gwasanaeth dehongli dros y ffôn drwy gontractau â'r Language Line a The Big Word. Mae'r ddau yn gwmnïau aml-wladol sy'n darparu ystod lawn o wasanaethau dehongli a chyfieithu. Mae'r trefniadau hyn yn galluogi WITS i ddarparu gwasanaeth bob ar o'r dydd a phob dydd o'r wythnos.


Gall cyrff cyhoeddus ymrwymo i gytundebau partneriaeth â WITS. Drwy fynychu cyfarfodydd Bwrdd Partneriaeth bob chwarter byddant yn cael llais yn nhrefniadau rheoli'r gwasanaeth. Mae WITS yn cynnwys 30 o bartneriaid ar hyn o bryd: 14 o'r 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru; pob un o'r saith bwrdd iechyd a dwy o ymddiriedolaethau'r GIG; y pedwar heddlu; a thair cymdeithas tai.

Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru a WITS, Ionawr 2018

## Y Defnydd o Wasanaeth Dehongli a Chyfieithu Cymru

1.18 Yn 2016-17, derbyniodd WITS 31,107 o geisiadau am ddehonglwyr, a oedd yn gynnydd sylweddol o gymharu â'r flwyddyn gynt (25,000). Cyflawnodd dehonglwyr WITS 30,448 o archebion, gyda thros ddeuparth ohonynt (69%) yn archebion gan gyrff y GIG (Dangosyn 1). Defnyddiodd cyfanswm o 28 o sefydliadau WITS yn ystod y flwyddyn, er mai deg ohonynt a wnaeth 90% o'r archebion[13].

Dangosyn 1 – Nifer yr archebion WITS a gyflawnwyd fesul sector, 2016-17




Sylwer: Mae'r ffigurau hyn yn cynnwys rhai archebion (llai na 94) ar gyfer y Gymraeg.

Ffynhonnell: WITS

1.19 Derbyniodd WITS archebion am ddehonglwyr mewn 82 o ieithoedd yn ystod 2016-17. Archebion am wasanaethau Pwyleg, Arabeg a Iaith Arwyddion Prydain oedd y rhain gan amlaf (Ffigur 2). Yr oedd 21 o ieithoedd lle na chafodd WITS ond 10 neu lai o geisiadau am wasanaeth dehongli dros y flwyddyn, gan gynnwys wyth o ieithoedd na chafwyd ond un cais amdanynt.

13 Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, Cyngor Sir Caerdydd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Heddlu De Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, Cyngor Abertawe, Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg, Cyngor Casnewydd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf a Chwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru.

Dangosyn 2 – Gwasanaeth Dehongli a Chyfieithu Cymru, yr ieithoedd y gofynnwyd amdanynt, 2016-17[1]

| Iaith | Nifer y ceisiadau | % o gyfanswm y ceisiadau |
|---|---:|---:|
| Pwyleg | 4,420 | 14.2 |
| Arabeg | 4,381 | 14.1 |
| Iaith Arwyddion Prydain | 2,773 | 8.9 |
| Mandarin | 1,940 | 6.2 |
| Tsiec | 1,885 | 6.1 |
| Bengali | 1,829 | 5.9 |
| Rwmaneg | 1,415 | 4.5 |
| Farsi | 1,100 | 3.5 |
| Slofaceg | 1,099 | 3.5 |
| Cwrdeg Sorani | 980 | 3.2 |
| Arall[2] | 9,285 | 29.8 |
| **Cyfanswm** | **31,107** | **100** |

Sylwer:

1. Mae'r dangosyn hwn yn dangos nifer y ceisiadau yn hytrach na nifer yr archebion a gyflawnwyd (y rhif isaf yn Nangosyn 1).
2. Mae 'Arall' yn cynnwys 94 o geisiadau am wasanaeth dehongli yn Gymraeg. Bydd WITS hefyd yn darparu cymerwyr nodiadau neu balanteipyddion (llafar i destun) ar gais. Dywedodd wrthym nad oedd wedi cael cais am siaradwyr gwefusau yn ddiweddar.

Ffynhonnell: WITS

1.20 Mae WITS wedi adrodd trosiant blynyddol o oddeutu £2.2 miliwn ar gyfer 2015-16 a 2016-17. Mae trosiant 2016-17 yn cynrychioli cost gyfartalog o £72 fesul archeb, gan gynnwys costau teithio.

## Yr heriau o flaen WITS o ran llywodraethu a rheoli

1.21 Heddlu Gwent a gynhaliodd WITS i ddechrau, ac a oedd yn gyfrifol am reoli'r gwasanaeth o ddydd i ddydd. Mewn archwiliad a gomisiynwyd gan Heddlu Gwent yn 2014, nodwyd pryderon ynghylch trefniadau rheoli a llywodraethu WITS, yr oedd peth ohonynt yn deillio o dwf cyflym y gwasanaeth. Roedd y rhain yn cynnwys cadarnhau'r cyfrifoldebau a'r rhwymedigaethau a gafwyd yn sgil gweithredu WITS, darparu tystiolaeth fod gwiriadau diogelwch a phroffesiynol cyfredol wedi'u cynnal ar ddehonglwyr a diweddaru cylch gorchwyl y Bwrdd Partneriaeth. Datblygodd Heddlu Gwent gynllun gweithredu i ymdrin â chanfyddiadau'r adroddiad archwilio.

1.22 Yn rhan o'i ymateb i'r archwiliad, cysylltodd â Chyngor Caerdydd, i ofyn iddo fod yn gyfrifol am gynnal WITS. Trosglwyddwyd WITS yn ffurfiol i'r Cyngor ym mis Gorffennaf 2017. Gwnaeth rhai aelodau dros dro o staff WITS a oedd yn cael eu cyflogi gan Heddlu Gwent geisiadau llwyddiannus am swyddi parhaol gyda WITS, a daethant yn gyflogeion i'r Cyngor. Mae'r Cyngor wedi cyflwyno dangosyddion perfformiad a mesurau rheoli ansawdd ar gyfer gwasanaeth trin galwadau ITS sydd yn debyg i'r rhai a ddefnyddir yn ei ganolfannau galw eraill. Mae'r Cyngor hefyd wedi dechrau datblygu gwasanaeth e-archebu a phorthol lle gall dehonglwyr gyrchu gwybodaeth am archebion, yn hytrach na gorfod rhannu gwybodaeth drwy systemau e-bost sydd heb eu diogelu.

1.23 Bellach mae gan WITS strwythur llywodraethu ffurfiol, a reolir gan Fwrdd Cynghori, a gadeirir gan Gyfarwyddwr o Gyngor Caerdydd (Dangosyn 3). Mae hi wedi cymryd mwy o amser i ffurfioli'r trefniadau partneriaeth newydd nag a amcangyfrifwyd yn wreiddiol. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn (Mawrth 2018), gofynnwyd i bob sefydliad partner lofnodi cytundebau partneriaeth newydd a nodai rolau a chyfrifoldebau'r partneriaid a rhwymedigaethau'r partneriaid a'r corff sy'n cynnal y gwasanaeth (Paragraff 1.28). Hyd nes y cwblheir y cytundebau hynny, mae WITS yn gweithredu o dan drefniadau interim a gytunwyd gan sefydliadau partner.

Ffigur 3 – Strwythur llywodraethu WITS (Mawrth 2018)

Amcan WITS yw bodloni anghenion ieithyddol y boblogaeth drwy ddarparu gwasanaeth sydd:

- Yn darparu ar gyfer Cymru gyfan
- Yn ymdrin ag anghenion gwasanaeth gwahanol pob sefydliad
- Yn ymdrin â'r holl anghenion o ran ieithoedd tramor
- Yn ymdrin ag anghenion perthnasol o ran y Gymraeg
- Yn ymdrin ag anghenion perthnasol o ran Iaith Arwyddion Prydain
- Ar gael bob ar o'r dydd a phob dydd o'r wythnos
- Yn cynnig cyfleoedd hyfforddiant a chyflogaeth i bobl leol
- Yn gost-effeithiol i ddarparwyr gwasanaeth cyhoeddus lleol

Caiff yr holl sefydliadau partner eu cynrychioli ar y Bwrdd Cynghori. Nid yw pob un ohonynt yn bresennol yn rheolaidd: cytunwyd y bydd y cyfarfod yn mynd rhagddo os bydd saith partner – gan gynnwys tri o chwartel uchaf y gwariant – yn bresennol. Mae'r Bwrdd yn goruchwylio datblygiad a chynnydd WITS ac yn pennu ei gyfeiriad strategol. Mae'n cymeradwyo'r gyllideb a'r cynllun blynyddol a'r ffioedd. Mae'n ystyried achosion difrifol o dorri'r cod ymddygiad a chwynion.

Y sefydliad sy'n cynnal y gwasanaeth (Cyngor Caerdydd ar hyn o bryd) sydd yn gyfrifol am weithredu argymhellion y Bwrdd Cynghori. Mae'r sefydliad sy'n cynnal y gwasanaeth yn cyflogi rheolwr WITS sydd yn adrodd wrth y Bwrdd. Y partneriaid sydd yn talu'r costau cyflogi.

Dirprwyir trefniadau rheoli beunyddiol WITS i'r tîm rheoli WITS.

Ffynhonnell: WITS (Rhagfyr 2017)

## Yr her sy’n wynebu WITS wrth dyfu ei fusnes

1.24 Erbyn 2014, roedd amrywiaeth o sefydliadau o’r trydydd sector a sefydliadau preifat yn defnyddio WITS. Peidiodd WITS â darparu gwasanaethau i’r sefydliadau hyn ar ôl i archwiliad yn 2015 gwestiynu a oedd yr arfer honno’n gyfreithlon, gan nad yw’r Heddlu yn cael ymrwymo i berthnasoedd masnachol â chwmnïau preifat. Cyfrannodd y pryder hwn at benderfyniad Heddlu Gwent i gysylltu â Chyngor Caerdydd i gymryd drosodd y gwaith o gynnal WITS gan fod cynghorau’n cael cynnal gwasanaethau sy’n creu elw. Mae’r Cyngor yn cydnabod y bydd potensial yn y dyfodol i ehangu WITS drwy ddatblygu gwasanaethau ar gyfer sefydliadau’r trydydd sector a’r sector preifat, yn ogystal ag ehangu ei gyfran o farchnad y sector cyhoeddus.

1.25 Mae’r ffioedd a’r taliadau am wasanaethau WITS wedi aros yr un peth ers amryw o flynyddoedd. Mae’r Cyngor yn cydnabod bod lle i adolygu taliadau’n flynyddol yn unol â’r arfer ar gyfer ffioedd eraill y cyngor. Yn y blynyddoedd diwethaf, defnyddiwyd arian wrth gefn i lenwi’r diffyg mewn ffioedd. Fodd bynnag, o dan y trefniadau presennol, byddai angen i’r Bwrdd Cynghori gytuno ar unrhyw gynnydd mewn ffioedd. Nid yw’n glir a fydd partneriaid yn barod i godi costau fydd yn y pen draw yn effeithio ar eu cyllidebau eu hunain. At ei gilydd, mae’n bwysig cadw cost gwasanaethau yn gystadleuol, ond roedd ymarfer meincnodi gan Heddlu Gwent yn 2015-16 yn awgrymu bod y costau naill ai’n cyfateb â chostau sefydliadau’r trydydd sector a sefydliadau masnachol, neu’n is na’r costau hynny.

## Yr her sy’n wynebu WITS wrth gyflogi cyfieithwyr

1.26 Ar adeg adroddiad archwilio 2015, roedd gan WITS gofrestr o fwy na 1,000 o ddehonglwyr hunangyflogedig. Canfu’r archwilwyr mai ychydig iawn o ddehonglwyr a oedd wedi derbyn gwiriadau fetio diogelwch ar y lefel ofynnol i weithio gyda phlant ac oedolion sy’n agored i niwed. Yn dilyn hynny, nododd Heddlu Gwent mai ond tua 400 o’r rhai a oedd wedi’u cofrestru oedd yn gweithio’n rheolaidd i WITS. Cyflogodd aelod staff dros dro i gynnal ôl-wiriadau clirio diogelwch a’r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer y dehonglwyr hyn. Cynhaliodd WITS hefyd wiriadau ar gymwysterau’r dehonglwyr. Cost y gwaith fetio ôl-weithredol hwn oedd £15,000. Prynodd Cyngor Caerdydd asiantaeth i reoli’r gwaith o recriwtio fetio a thalu dehonglwyr o fis Gorffennaf 2017.

1.27 Yn nhymor yr haf 2017, cododd anghydfod rhwng y Cyngor a'r dehonglwyr ynghylch taliadau. Yn benodol, roedd y dehonglwyr yn anfodlon ynghylch penderfyniad y Cyngor, sef y dylid didynnu treth a chyfraniadau yswiriant gwladol cyn talu. Yn flaenorol, roedd dehonglwyr wedi cael eu talu'n llawn ac wedi bod yn gyfrifol am eu treth a'u cyfraniadau Yswiriant Gwladol eu hunain[14]. Credai'r Cyngor na ddylai'r newid i'r arfer hwn olygu bod dehonglwyr yn talu cyfanswm uwch o dreth neu gyfraniadau Yswiriant Gwladol. Fodd bynnag, gwrthododd rhai dehonglwyr Iaith Arwyddion Prydain weithio i WITS o dan y trefniadau hyn. Ni fu modd i WITS gyflawni 35 o archebion ym mis Gorffennaf a mis Awst 2017. Mae'r Cyngor wedi darparu gwybodaeth i Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi ynghylch y telerau cyflogaeth ac yn disgwyl am ymateb i gadarnhau'r mater hwn. Yn y cyfamser, nid yw'r dreth yn cael ei didynnu cyn talu. Yn ôl y Cyngor, mae'r holl ddehonglwyr wedi dechrau derbyn archebion WITS unwaith eto.

1.28 Mater pwysig arall a nodwyd yn adroddiad archwilio 2015 oedd nad oedd Heddlu Gwent na phartneriaid WITS yn deall yn glir beth oedd eu hymrwymiadau yn gysylltiedig â WITS. Ychydig o'r dehonglwyr oedd wedi trefnu yswiriant atebolrwydd; weithiau y rheswm am hyn oedd nad oeddent wedi cymhwyso, ac na allent gael yswiriant, tra nad oedd cyfieithwyr eraill yn gwneud digon o waith i gyfiawnhau cost yswiriant. O dan y cytundeb cydweithio newydd a luniwyd gan Gyngor Caerdydd, bydd yn rhaid i WITS ysgwyddo'r risg o ran yswiriant a bod yn gyfrifol fel partneriaeth os ceir unrhyw hawliadau. Mae hyn yn golygu y bydd partneriaid yn ymestyn eu polisïau yswiriant indemniad proffesiynol ac atebolrwydd cyhoeddus. Yn y tymor hwy, mae WITS am i ddehonglwyr drefnu eu hyswiriant indemniad proffesiynol ac atebolrwydd cyhoeddus eu hunain.

## Gwasanaethau a ddarperir gan gwmnïau preifat a chyrff y trydydd sector

1.29 Mae llawer o gwmnïau masnachol hefyd yn cynnig gwasanaethau dehongli a chyfieithu. Gall unrhyw gorff cyhoeddus gysylltu â hwy'n uniongyrchol neu drwy amryw o gontractau fframwaith Llywodraeth y DU i drefnu gwasanaethau dehongli a chyfieithu. Y Llysoedd, y Gwasanaeth Carchardai a'r Adran Gwaith a Phensiynau yng Nghymru sy'n defnyddio'r contractau fframwaith hyn, ond gall cyrff cyhoeddus eraill wneud hynny hefyd. Gwariodd Llywodraeth Cymru, cynghorau a'r byrddau iechyd £55,000 drwy'r fframweithiau hyn yn 2016-17.

14 Mae'r rheolau y cyfeirir atynt gan CaThEM (Cyllid y Wlad 35) yn sicrhau bod pobl nad ydynt ar gyflogres sefydliad ond a gyflogir drwy ganolwr yn talu'r un faint o dreth a chyfraniadau Yswiriant Gwladol yn fras ag y byddai cyflogai'n ei wneud. Mae'n ofynnol i gyrff cyhoeddus benderfynu a yw'r rheoliadau hyn yn berthnasol i unrhyw un a gyflogir yn y modd hwn.

1.30 Yn ein cais am wybodaeth. gwelsom fod gan bob un o'r 15 o gynghorau ac eithrio un a phob un o'r saith o gyrff y GIG a ymatebodd gontractau gydag un sefydliad o leiaf ar wahân i WITS i ddibenion dehongli a chyfieithu. Soniwyd am gyfanswm o saith sefydliad ac eithrio WITS sydd ar gontract ar hyn o bryd i ddarparu gwasanaeth dehongli a chyfieithu. Fodd bynnag nid oeddem yn gallu cyfrif faint o archebion a wnaed drwy'r cwmnïau hyn na'r gost gysylltiedig gan nad oedd gwybodaeth fanwl ar gael yn gyson.

1.31 Roedd rhai cyrff cyhoeddus hefyd wedi contractio sefydliadau trydydd sector i ddarparu gwasanaeth dehongli ar gyfer Iaith Arwyddion Prydain. O blith y rhai a weithredai yng Nghymru yr oedd Action on Hearing Loss Cymru, y Ganolfan Arwyddo-Golwg-Sain (Cymdeithas y Byddar Gogledd Cymru) a Chyngor Cymru i Bobl Fyddar. Bydd pob un yn cyflogi dehonglwyr o gronfa fechan o tua 40 o bobl sy'n gweithio'n rheolaidd yng Nghymru[15]. Yn wyneb nifer o geisiadau am wasanaeth dehongli Iaith Arwyddion Prydain, cynhaliodd WITS arbrawf drwy gyflogi dehonglydd Iaith Arwyddion Prydain ar un adeg. Fodd bynnag, canfu WITS nad oedd y swydd yn cynnig gwerth am arian: er bod y costau'n llai i sefydliadau yn Ne Cymru, nid oedd y galw yn ddigon i dalu costau'r swydd. Ni wnaethom gyfrifo cyfanswm y gwariant gan gyrff cyhoeddus ar wasanaeth dehongli Iaith Arwyddion Prydain, ond mae nifer y sefydliadau sy'n ymwneud â hyn yn awgrymu y gellid bod lle i ymchwilio a yw'r gwariant hwn yn cynnig gwerth am arian i gyrff cyhoeddus.

15 Mae'r Gofrestr Genedlaethol o Weithwyr Proffesiynol Cyfathrebu sy'n gweithio gyda Phobl sy'n Fyddar ac yn Fyddar ac yn Ddall (NRCPD) yn amcangyfrif bod oddeutu 900 o ddehonglwyr Iaith Arwyddion Prydain yn y DU. Daw'r ffigurau ar gyfer Cymru o ohebiaeth bersonol.

Rhan 2

# Heriau o flaen gwasanaethau dehongli a chyfieithu



2.1 Yn yr adran hon ystyrir rhai o'r heriau a wynebir wrth ddarparu gwasanaethau dehongli a chyfieithu. Mae'r adran hon yn mynd i'r afael â rhai o'r problemau hyn ac yn adlewyrchu problemau a godwyd gyda ni yn ystod ein gwaith.

## Sicrhau bod dehonglwyr ar gael

2.2 Dywedodd pobl y buom yn siarad â nhw yn ystod ein gwaith nad yw dehonglwyr bob amser ar gael pan fydd angen. Mewn ymchwil ddiweddar[16] canfuwyd bod 42% o ddefnyddwyr Iaith Arwyddion byddar yn dweud bod trefniadau cyfathrebu'n annigonol yn eu hapwyntiad diweddar gyda'u meddyg teulu gan nad oedd dehonglydd ar gael. Gall sefydliadau gynyddu'r tebygolrwydd y bydd dehonglydd ar gael drwy roi cymaint o rybydd ag sy'n bosibl ynghylch apwyntiadau a chynnig elfen o hyblygrwydd o ran amseru. Weithiau gall hyn alluogi'r dehonglydd i gynnal mwy nag un apwyntiad gyda gwahanol bobl a lleihau costau teithio'r dehonglydd.

2.3 Gall problemau neilltuol godi wrth sicrhau bod dehonglwyr ar gael ar gyfer ieithoedd lle gall y galw fod yn uchel:

a Iaith Arwyddion Prydain – Nifer fach o ddehonglwyr Iaith Arwyddion Prydain sydd yn gweithio yng Nghymru, ac mae hynny'n golygu y gall fod yn anodd bodloni'r galw. Oherwydd hynny gall dehonglwyr Iaith Arwyddion Prydain godi cyfraddau uchel ar y sefydliadau amrywiol sy'n darparu gwasanaeth dehongli Iaith Arwyddion Prydain. Er enghraifft, mae WITS yn talu cyfradd ychydig yn uwch i ddehonglwyr Iaith Arwyddion Prydain nag i ddehonglwyr mewn ieithoedd eraill. Bydd dehonglwyr Iaith Arwyddion Prydain yn cael eu talu am isafswm o dair awr, ond telir dehonglwyr eraill fesul awr.

b Arabeg – Mae nifer y ceiswyr lloches sydd wedi cyrraedd o Syria, y Dwyrain Canol a Gogledd Affrica yn y blynyddoedd diwethaf wedi cynyddu'r galw am ddehonglwyr Arabeg ym mhob rhan o'r DU. Mae WITS yn ymateb i hyn drwy brosesu ceisiadau gan siaradwyr Arabeg yn gyflym.

2.4 Mae cael dehonglydd ar fyr-rybudd neu mewn argyfwng yn destun pryder ers tro, Bydd llawer o sefydliadau'n defnyddio gwasanaeth dehongli dros y ffôn yn yr amgylchiadau hyn, ond yn gynyddol mae elusennau a sefydliadau masnachol yn buddsoddi i ddatblygu Gwasanaeth Fideo-ddehongli o Bell (gweler Astudiaeth Achos 2 er enghraifft). Mae rhai grwpiau o fewn y gymuned o bobl fyddar yn lled groesawu'r fenter hon ar gyfer argyfyngau, ond nid ydynt am ei gweld yn disodli gwasanaeth dehongli wyneb yn wyneb yn y rhan fwyaf o sefyllfaoedd.

16 Action on Hearing Loss Cymru Good practice?: **Why people in Wales who are deaf or have hearing loss are still not getting accessible information from their GP**, Mawrth 2018.

Astudiaeth Achos 2 – Y Ganolfan Arwyddo-Golwg-Sain – Prosiect DAISY

Mae'r Ganolfan Arwyddion-Golwg-Sain yn datblygu prosiect DAISY (Digital Accessible Information System) i roi mynediad o bell i ddehonglwyr a mathau eraill o gefnogaeth ym maes cyfathrebu. Mae DAISY yn galluogi mynediad cyflym at Ddehonglydd Iaith Arwyddion Prydain/Saesneg i ddefnyddwyr gwasanaeth ac i siaradwr gwefusau neu gymerwr nodiadau i bobl sydd yn drwm eu clyw. Ei nod yw helpu pobl fyddar i fyw'n annibynnol ac i wneud dewisiadau deallus.

Mae'r gwasanaeth yn defnyddio meddalwedd Skype ar lechi, cyfrifiaduron glin a ffonau clyfar, felly gallid ei ddarparu'n rhad ar raddfa eang. Drwy osgoi costau teithio'r dehonglwr, bydd gwasanaeth dehongli Iaith Arwyddion Prydain neu fathau eraill o gefnogaeth yn fwy fforddiadwy. Mae hyn yn helpu'r gymuned o bobl fyddar i gyrchu dehonglwyr a chefnogaeth arall ym maes cyfathrebu.

Mae'r Ganolfan Arwyddo-Golwg-Sain yn gweithio gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i ddatblygu DAISY. Fodd bynnag, cred y Ganolfan y gellid gwneud defnydd llawer ehangach o DAISY, ymhle bynnag y bydd ar bobl angen dehonglwyr Iaith Arwyddion Cymru neu gymerwyr nodiadau.

Mae sefydliadau eraill yng Nghymru yn datblygu gwahanol wasanaethau fideo-ddehongli o bell ar gyfer gwasanaethau iaith arwyddion. Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf wedi gweithio gyda'r Ganolfan Arwydd-Golwg-Sain a Chyngor Cymru i Bobl Fyddar. Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg hefyd wedi cyflwyno Dehongli Fideo o Bell, yn gweithio gyda Chyngor Cymru i Bobl Fyddar. Mae gan wasanaeth 111 GIG Cymru gontract â chwmni preifat i ddarparu gwasanaeth dehongli dros y ffôn neu fideo-ddehongli o bell i bobl nad ydynt yn siarad Cymraeg na Saesneg. Mae 111 GIG Cymru yn cynnal adolygiad gyda grwpiau cynrychioliadol o'i wasanaeth i bobl sy'n fyddar.

Ffynhonnell: Canolfan Arwyddo-Golwg-Sain, Gorffennaf 2017 a Swyddfa Archwilio Cymru

2.5 Bydd rhai sefydliadau (gan gynnwys yr Adran Gwaith a Phensiynau) yn defnyddio gwasanaeth dehongli dros y ffôn neu fideo-ddehongli o bell yn y rhan fwyaf o sefyllfaoedd, ac eithrio ar gyfer Iaith Arwyddion Prydain neu os yw pobl yn agored i niwed am ryw reswm arall. Yn yr Alban, mae'r Llywodraeth wedi caffael ap tele-ddehongli i'r sector cyhoeddus (Interpreter Now). Mae'r ap yn rhoi mynediad eang i wasanaeth fideo-ddehongli o bell mewn iaith arwyddion ac ieithoedd eraill drwy ffôn clyfar, llechen neu gyfrifiadur. Mae'r mathau hyn o dechnoleg yn datblygu'n gyflym, ac fe geir defnydd ehangach ohonynt yn y dyfodol.

## Sicrhau bod dehonglwyr wedi'u trefnu ar gyfer pob apwyntiad pan fo angen

2.6 Dywedodd defnyddwyr a darparwyr gwasanaeth wrthym na fydd dehonglwyr wedi'u trefnu bob tro pan fydd angen. Ni ellir osgoi hyn ar adegau, er enghraifft, efallai y bydd rhywun yn teimlo eu bod yn hyfedr yn y Gymraeg neu'r Saesneg, ond wrth i'r apwyntiad fynd rhagddo gallant ganfod nad yw eu sgiliau iaith yn ddigonol i gynnal sgwrs ynghylch gofal arbenigol. Gan amlaf, bydd cynghorau a byrddau iechyd yn rhoi'r cyfrifoldeb i'r unigolyn ddweud a oes angen dehonglydd arno ai peidio wrth drefnu apwyntiad. Ar gyfer hyn, bydd angen i unigolion wybod bod ganddynt hawl i gael dehonglydd, a bydd yn rhaid iddynt ofyn am gael trefnu un. Efallai y bydd y cyfle hwn wedi'i nodi'n glir yn llythyr yr apwyntiad neu ar wefan y sefydliad (Astudiaeth Achos 3). Fodd bynnag, dywedodd amryw o sefydliadau wrthym na fydd y dull hwn yn llwyddo o bosib os na fydd yr unigolyn neu ei gynrychiolydd yn gallu darllen y llythyr neu'r wefan yn Gymraeg neu'n Saesneg i ddechrau. Yn aml, bydd disgwyl i bobl drefnu dros y ffôn, sy'n anodd i lawer o bobl nad ydynt yn siarad Cymraeg na Saesneg neu sy'n fyddar.

### Astudiaeth Achos 3 – Cardiau cyfathrebu – Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ac Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaeth Ambiwlans Cymru

Cynhyrchodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr **Gerdyn Cyfathrebu Iechyd Hygyrch** i bobl fyddar sydd angen cefnogaeth wrth gyfathrebu ei ddefnyddio mewn gofal sylfaenol ac ysbytai. Mae'r Cerdyn yn galluogi cleifion sy'n fyddar, wedi'u byddaru neu'n drwm eu clyw i gofnodi eu hanghenion cyfathrebu, yn sbarduno staff i weithredu mewn rhyw ffordd ac yn rhoi cyngor ynghylch cyfathrebu. Mae'r cerdyn yn rhan o Becyn Cymorth BIP Betsi Cadwaladr ar gyfer Nam ar y Synhwyrau, er mwyn helpu staff i fodloni anghenion pobl â nam ar y synhwyrau.

Cyflwynodd Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaeth Ambiwlans Cymru **Gerdyn Gwybodaeth Feddygol** ddwyieithog yn 2013. Mae'n helpu pobl fyddar a thrwm eu clyw gyfleu gwybodaeth bwysig fel y dull cyfathrebu a ffafrir, y berthynas agosaf, a hanes meddyginiaethol a meddygol. Mae'r cerdyn yr un maint â cherdyn credyd a gellir ei gadw mewn pwrs neu waled.

Ffynhonnell: Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Ymddiriedolaeth y GIG Gwasanaeth Ambiwlans Cymru a Chanolfan Cydraddoldeb a Hawliau Dynol GIG Cymru

2.7 Agwedd arall a oedd yn creu rhwystredigaeth yn aml oedd y ffaith nad oedd anghenion yr unigolyn o ran iaith a chyfathrebu yn cael eu cofnodi fel mater o drefn, er enghraifft drwy amlygu neu nodi bod angen dehonglydd yn nodiadau achos neu gofnod electronig yr unigolyn. Gan hynny, oni fydd yr unigolyn yn sylweddoli bod angen iddo drefnu dehonglydd ar gyfer pob apwyntiad ar wahân, efallai y bydd yn cyrraedd ail apwyntiad gan ddisgwyl gweld dehonglydd, ond yn canfod nad oes un wedi cael ei drefnu. Mae gorfod cael dehonglydd ar fyr-rybudd yn lleihau'r tebygolrwydd bod y dehonglydd gwreiddiol ar gael. Mae hyn yn golygu nad yw'r berthynas rhwng y dehonglydd, yr unigolyn a'r gweithiwr proffesiynol yn datblygu yn yr un modd, a bod yr ail apwyntiad a'r apwyntiadau dilynol yn cymryd mwy o amser nag y byddent fel arall.

2.8 Cyflwynwyd Safon Gwybodaeth Hygyrch newydd i bobl â nam ar y synhwyrau mewn meddygfeydd ym mis Tachwedd 2017. Mae'r fenter genedlaethol hon, dan arweiniad Llywodraeth Cymru, yn adeiladu ar Safonau Cymru Gyfan ar gyfer Darparu Gwybodaeth Hygyrch i Bobl â Nam ar eu Synhwyrau a Chyfathrebu â Hwy 2013. Mae'r Safon yn ei gwneud yn ofynnol i feddygfeydd ddefnyddio dull electronig o gipio, cofnodi ac amlygu anghenion cleifion â nam ar y synhwyrau o ran gwybodaeth a chyfathrebu Mae ail gam y prosiect yn golygu y bydd gwybodaeth am anghenion cyfathrebu yn cael ei rhannu ag unrhyw e-atgyfeiriad i ofal eilaidd o fis Mawrth 2018. Fodd bynnag, nid yw'r gofynion hyn yn cynnwys siaradwyr ieithoedd eraill, pobl ag anawsterau eraill wrth gyfathrebu na darparwyr gofal cymdeithasol. I'r gwrthwyneb, mae'r Safon Gwybodaeth Hygyrch yn Lloegr[17] yn cynnwys gofal cymdeithasol i oedolion a ariennir yn gyhoeddus yn ogystal ag NHS Lloegr, ac mae'n trafod defnyddwyr gwasanaeth, cleifion gofalwyr a rhieni ag anabledd, nam corfforol neu nam ar y synhwyrau.

## Meithrin cyd-ddealltwriaeth o rôl y dehonglydd

2.9 Gall dealltwriaeth dehonglwyr a'r sefydliadau sy'n eu cyflogi o rôl y dehonglydd amrywio. Yn sylfaenol, dehongli yw dweud wrth rhywun beth mae'r unigolyn arall yn ei ddweud. Fodd bynnag, clywsom am enghreifftiau lle bydd dehonglwyr yn mynd y tu hwnt i hynny, er enghraifft drwy wneud apwyntiadau i'r unigolyn neu wirio a yw wedi deall popeth yn iawn ar ôl apwyntiad. Yn yr achosion hyn, mae'r dehonglydd yn symud y tu hwnt i'w rôl ei hun ac yn cefnogi'r unigolyn neu'n eiriol drosto.

17 Mae Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012 (adran 250) yn cyflwyno Safon Gwybodaeth Hygyrch yn Lloegr. Daeth y Safon i rym ar 31 Gorffennaf 2016.

2.10 Er y bydd dehonglwyr yn llawn bwriadau da wrth wneud hynny, ceir risgiau iddynt hwy ac i ddefnyddwyr gwasanaeth. Yn gyntaf, gall y defnyddiwr gwasanaeth ddechrau dibynnu gormod ar ddehonglydd na fydd bob amser ar gael, o bosib. Yn ail, gall y dehonglydd annog yr unigolyn i ddibynnu'n ormodol arno i greu mwy o waith. Yn olaf, mae yswiriant atebolrwydd proffesiynol yn annhebygol o amddiffyn rhag costau sy'n deillio o gyngor a roddwyd mewn modd amhriodol os gwneir hawliad yn erbyn y dehonglydd.

## Cynnig dewis o ddehonglwyr i bobl pan fydd hynny'n ymarferol bosib

2.11 Mae hyn yn golygu bod modd meithrin perthnasoedd sy'n llawn ymddiriedaeth dros amser, ar wahân i'r risgiau a nodir uchod. I ddechrau, nid oedd WITS yn cynnig cyfle i bobl ofyn am ddehonglydd penodol. Yn dilyn sylwadau gan y gymuned fyddar yn enwedig, mae WITS bellach yn cynnig hyn yn y rhan fwyaf o amgylchiadau, ond mae'n rhaid i bartneriaid ofyn am yr unigolyn dan sylw wrth archebu. Ni all WITS warantu y bydd y dehonglydd a ddewiswyd ar gael, oherwydd gan mai hunangyflogedig yw dehonglwyr, cânt ddewis lle a phryd i weithio.

## Paru pobl â dehonglwyr o'r un rhyw os yw'n ymarferol bosib

2.12 Oherwydd natur sensitif llawer o'r trafodaethau a gynhelir rhwng pobl â chyrff cyhoeddus, efallai y byddant yn teimlo'n fwy cyffyrddus â dehonglydd o'r un rhyw. Er enghraifft, bydd llawer o fenywod sy'n ceisio lloches neu'n ffoaduriaid wedi profi trais yn eu mamwlad neu yn y DU. Mae hyfforddiant arbenigol ar gael i ddehonglwyr sydd yn gweithio gyda phobl sydd wedi dioddef troseddau rhywiol neu dreisgar, a dengys ymchwil fod menywod yn fwy tebygol o ddatgelu eu bod wedi dioddef trais os yw'r dehonglydd hefyd yn fenyw[18]. Efallai y bydd dynion hefyd yn teimlo'n fwy cyffyrddus yn trafod problemau iechyd â dyn arall.

2.13 Nid oedd y polisïau y buom yn eu hadolygu yn unrhyw un o'r sefydliadau yn datgan bod paru rhywiau yn arfer safonol. Nid oeddent ychwaith yn crybwyll amgylchiadau lle gallai fod angen i'r staff ystyried cael dehonglydd o'r un rhyw. Gellid nodi'n fwy eglur y gallu i wneud cais am ddehonglydd o'r un rhyw mewn polisïau a gwybodaeth i'r cyhoedd, oherwydd bydd WITS a sefydliadau eraill sy'n darparu dehonglwyr yn ceisio eu paru ar gais.

18 Hubbard A., Payton J. a Robinson A., Uncharted territory: **Violence against migrant, refugee and asylum-seeking women in Wales,** Partneriaeth Ymfudo Strategol Cymru a Phrifysgol Caerdydd, 2013.

## Sicrhau bod gwasanaethau dehongli o ansawdd da

2.14 At ei gilydd, mae angen i gyrff cyhoeddus wybod bod yr wybodaeth y maent yn ei darparu o ansawdd da. Gall hyn fod yn anochel o anodd yn achos gwasanaethau dehongli a chyfieithu: er enghraifft, bydd staff yn ei chael hi'n anodd barnu ynghylch ansawdd unrhyw drafodaeth rhwng dehonglydd a chlaf os nad ydynt yn deall yr iaith. Serch hynny, mae hyn yn ffordd bwysig o fonitro ansawdd. Dim ond naw o'r 22 o gyrff y GIG a'r cynghorau a ymatebodd i'n cais am wybodaeth oedd yn monitro ansawdd gwasanaethau dehongli drwy ofyn am adborth oddi wrth staff ac/neu ddefnyddwyr gwasanaeth.

2.15 Cynhaliodd Cyngor Caerdydd arolwg o fodlonrwydd cwsmeriaid mewn sefydliadau a ddefnyddiai WITS ar ddiwedd 2017. Cynhaliodd WITS weithdai ym mis Tachwedd a Rhagfyr 2017 ac ym mis Mawrth 2018 yng Ngogledd a De Cymru gydag aelodau o'r gymuned o bobl fyddar er mwyn gofyn am eu hadborth ynghylch eu profiad o wasanaethau WITS. Yn flaenorol, byddai WITS yn dibynnu ar drafodaethau yn ei gyfarfodydd Bwrdd Partneriaeth chwarterol neu ar gwynion er mwyn canfod unrhyw broblemau neu bryderon yn gysylltiedig â'i wasanaeth. Mae Cyngor Caerdydd hefyd cynnal arolwg o ddehonglwyr WITS er mwyn canfod beth yw eu barn a'u profiad o weithio i WITS. Bydd yr arolygon hyn yn creu meincnod i fesur gwelliant yn eu herbyn. Nid yw WITS ar hyn o bryd yn cynnal ymarfer rheolaidd i reoli ansawdd gwaith ei ddehonglwyr nac i ofyn am farn defnyddwyr gwasanaeth.

2.16 Mae cwynion yn ffordd arall o wella ansawdd y gwasanaeth. Fodd bynnag, nodwyd yn adroddiad gweithgor 2012 ar Ofal Iechyd Hygyrch i Bobl â Nam ar y Synhwyrau[19] fod pobl â nam ar y synhwyrau yn aml yn amharod i wneud cwyn. Bydd hyn weithiau oherwydd na allant gyrchu'r system gwynion, er enghraifft os oes angen iddynt ffonio neu os oes angen cefnogaeth arnynt i wneud cwyn. Weithiau bydd pobl yn amharod i gwyno oherwydd materion sy'n ymwneud ag urddas personol neu barch. Problem arall a godwyd gyda ni oedd fod natur glòs llawer o gymunedau iaith yn gallu ei gwneud hi'n anodd cwyno am ddehonglwyr, yn enwedig os ydynt yn bobl uchel eu parch yn y gymuned. Gallai'r ffactorau hyn gyfyngu ar pa mor ddefnyddiol yw cwynion fel arwydd o ansawdd gwasanaethau.

19 Accessible Health Care for People with Sensory Loss Working Group, **Accessible Health Care for People with Sensory Loss in Wales: final report 2012.**

2.17 Rydym yn ymwybodol bod Cyngor Caerdydd wedi cydnabod bod angen i WITS sicrhau bod ei system cwynion yn hygyrch yn dilyn pryderon a godwyd mewn cyfarfodydd â chynrychiolwyr o'r gymuned o bobl fyddar yn hwyr yn 2017 ac ar ddechrau 2018. Yn ddiweddar, trafododd WITS gynllun gweithredu â'i Fwrdd Cynghori sy'n cynnwys cyflwyno proses gwyno fwy hygyrch. Mae WITS hefyd yn ymateb i bryderon eraill er mwyn gwella ei wasanaeth i bobl fyddar yng nghyd-destun y dyletswyddau statudol ehangach sydd gan gyrff cyhoeddus (Paragraffau 1.2 i 1.7).

## Datblygu sgiliau proffesiynol ac ieithyddol dehonglwyr

2.18 Un o'r nodau wrth sefydlu WITS oedd cynyddu nifer y dehonglwyr cymwys sydd yn gweithio yng Nghymru. Mae Cyngor Caerdydd yn adrodd bod gan ddehonglwyr Iaith Arwyddion Prydain sy'n gweithio gyda WITS gymwysterau dehongli. Mae pob un ohonynt wedi cofrestru gyda'r Gofrestr Genedlaethol o Weithwyr Cyfathrebu Proffesiynol sy'n gweithio gyda Phobl Fyddar a Phobl Fyddar a Dall (NRCPD).

2.19 Fodd bynnag, nid oes gan lawer o ddehonglwyr yr ieithoedd eraill gymwysterau ffurfiol. Gallant ddewis cofrestru gyda Chofrestr Genedlaethol Dehonglwyr y Gwasanaethau Cyhoeddus (NRPSI) ond nid yw hynny'n orfodol er mwyn gweithio fel dehonglydd yn y DU, ac mae'n rhaid talu ffi i ymuno â'r gofrestr. Dywedodd WITS wrthym nad yw hi bob amser yn bosibl defnyddio dehonglwyr cofrestredig neu gymwysedig gan eu bod mor brin mewn rhai ieithoedd. Mae WITS wedi bod yn gweithio gyda Phrifysgol Caerdydd i gynnal hyfforddiant achrededig i rai sy'n dymuno gweithio fel dehonglwyr i wasanaethau cyhoeddus. Fodd bynnag, mae'n cymryd llawer o amser i ennill y prif gymhwyster dehongli, ac mae'n weddol gostus. Gall hyn fod yn rhwystr i rai dehonglwyr, yn enwedig os nad ydynt yn gwneud llawer o waith yn y maes hwnnw, o bosib gan nad oes llawer o alw am eu hiaith neu gan fod ganddynt swydd arall.

## Dehongli arbenigol i'r gwasanaethau iechyd meddwl

2.20 Mae elusennau pobl fyddar yn amcangyfrif bod pobl fyddar o leiaf ddwywaith mor debygol o brofi iselder a gorbryder na'r boblogaeth yn gyffredinol[20]. Derbyniodd Cymdeithas Iechyd Meddwl a Byddardod Prydain grant drwy Raglen Pobl a Lleoedd Cronfa Loteri Fawr Cymru i ddarparu hyfforddiant ar ymwybyddiaeth iechyd meddwl i bobl fyddar. Mae'n gweithio mewn partneriaeth â Chymdeithas Pobl Fyddar Prydain ac Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru i greu rhaglen Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl achrededig sy'n hygyrch i bobl fyddar, gan gynnwys gwasanaeth dehongli i ddefnyddwyr Iaith Arwyddion Prydain. Nod y rhaglen yw helpu pobl fyddar a'r rhai sy'n ymwneud â'r gymuned i ennill y sgiliau i adnabod problemau iechyd meddwl ac ymateb iddynt mewn modd priodol.

2.21 Mae salwch meddwl yn gyffredin ymhlith ffoaduriaid a cheiswyr lloches, y mae llawer ohonynt wedi profi trawma a cholled yn eu mamwlad. Ar ben hynny, ar ôl cyrraedd y DU bydd llawer o ymfudwyr, ceiswyr lloches a ffoaduriaid wedi'u torri i ffwrdd oddi wrth gefnogaeth gymdeithasol, yn enwedig os ydynt wedi'u gwasgaru i ardal lle na cheir rhyw lawer o bobl o'r un gymuned. I'r rhai hynny sy'n ceisio triniaeth am salwch meddwl, bydd therapïau siarad effeithiol fel therapi ymddygiad gwybyddol yn amhosib heb gyfieithydd ar y pryd.

20 Mae'r elusen iechyd pobl fyddar SignHealth yn amcangyfrif bod pobl fyddar o leiaf ddwywaith mor debygol o brofi iselder a gorbryder na'r boblogaeth yn gyffredinol. Roedd peth ymchwil wedi amcangyfrif bod salwch meddwl hyd yn oed yn fwy cyffredin, yn enwedig ymhlith pobl nad oeddent wedi'u geni yn fyddar (Matthews L. Hearing Loss, tinnitus and mental health: a literature review, Action on Hearing Loss, Ionawr 2013).

2.22 Mae Llywodraeth Cymru a chyrff y GIG yn ogystal â WITS yn ymwybodol o'r angen i hyfforddi dehonglwyr i weithio mewn lleoliadau iechyd meddwl. Ym mis Chwefror 2017, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau i fyrddau iechyd[21]. Y mae wedi darparu £40,000 o gyllid i hyfforddi ymarferwyr iechyd meddwl mewn gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed ac oedolion yn gysylltiedig â darparu gofal sydd yn canolbwyntio ar drawma i geiswyr lloches a ffoaduriaid. Mae dogfen ymgynghori gyfredol Llywodraeth Cymru 'Cenedl Noddfa – Cynllun Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches' yn cynnig camau gweithredu a fyddai'n helpu pobl i gyrchu gwasanaethau iechyd meddwl ar eu taith tuag at loches. Mae amryw o fentrau yn ceisio gwneud gwasanaethau iechyd meddwl yn fwy hygyrch i oedolion, plant a'r glasoed nad ydynt yn siarad Cymraeg na Saesneg. Er enghraifft, cynhaliwyd Rhaglen Ymfudwyr Bregus MIND Cymru am dair blynedd hyd fis Mawrth 2018 i archwilio sut y gall gwasanaethau fod yn hygyrch i geiswyr lloches a ffoaduriaid. Yn rhan o hyn bu'n rhaid goresgyn rhwystrau ieithyddol a deall sut y gellir newid rhaglenni triniaeth i fod yn ystyriol o wahaniaethau diwylliannol yn y ddealltwriaeth o iechyd meddwl[22].

21 NHS Wales Welsh Health Circular, Good Practice Guidance on the Provision of Mental Health Support for Asylum Seekers and Refugees Dispersed to Wales, February 2017.

22 Mind Cymru, Improving mental health services for vulnerable migrants in Wales: changing context, emerging practice, Report of the Second Year, November 2017.

Rhan 3

# Datblygu gwasanaethau dehongli a chyfieithu



3.1 Yn nhymor yr haf 2017, gofynnwyd i gynghorau a chyrff y GIG ddweud wrthym am y camau y maent wedi'u cymryd i wneud gwasanaethau yn hygyrch i bobl sy'n wynebu rhwystrau ieithyddol. Roedd y meysydd y gofynnwyd amdanynt yn cynnwys dogfennau polisi, gwybodaeth a hyfforddiant i staff, gwybodaeth i ddefnyddwyr gwasanaeth a dulliau cyfathrebu digidol. Yn y rhan hon o'r adroddiad cyflwynir y manylion a gafwyd gan y 15 o gynghorau a saith o gyrff y GIG a ymatebodd. Ar sail yr wybodaeth hon a gwybodaeth arall, rydym wedi datblygu rhestr wirio i helpu sefydliadau wrth iddynt gynllunio gwasanaethau.

## Camau gweithredu ar y gweill mewn Cynghorau ac yng nghyrff y GIG yng Nghymru

3.2 Er bod yr holl gynghorau a chyrff y GIG yn darparu gwasanaethau dehongli a chyfieithu i bobl nad ydynt yn siarad Cymraeg na Saesneg, dangosai ein gwaith fod y graddau yr oeddent wedi datblygu polisïau a gweithdrefnau ffurfiol yn amrywio. Roedd hyn yn unol â chanfyddiadau asesiad Llywodraeth Cymru o gynnydd cyrff y GIG tuag at fodloni Safonau Cymru Gyfan ar gyfer Darparu Gwybodaeth Hygyrch i Bobl â Nam ar eu Synhwyrau a Chyfathrebu â Hwy (Atodiad 2).

3.3 Roedd pob un o'r 15 o gynghorau a saith corff y GIG a ymatebodd i'n cais am wybodaeth wedi darparu rhywfaint o hyfforddiant i rai o'u staff o leiaf, fel hyfforddiant ac arweiniad wyneb yn wyneb yn ogystal ag arddangos posteri, e-hyfforddi a rhoi gwybodaeth ar eu mewnrwyd. Ymhlith yr enghreifftiau ceir modiwl e-ddysgu nam ar y synhwyrau a gynhyrchwyd gan GIG Cymru sydd ar gael drwy blatfform dysgu GIG Cymru. Mae Ymddiriedolaeth GIG Felindre wedi cyflwyno rhaglen Iaith Arwyddion Prydain sydd wedi'i chynllunio i adlewyrchu gwaith staff yr Ymddiriedolaeth sydd yn darparu gwasanaethau canser. Mae Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaeth Ambiwlans Cymru hefyd wedi datblygu pecyn dysgu Iaith Arwyddion Prydain i'w staff. Cynhyrchodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr becyn cymorth Nam ar y Synhwyrau sy'n darparu gwybodaeth i staff ynghylch sut i helpu a chyfathrebu â phobl â nam ar y synhwyrau yn eu hysbytai. Mae ganddo hefyd gyfarwyddiadau cam wrth gam ar sut i drefnu cefnogaeth wrth gyfathrebu. Enillodd y pecyn wobr Rhagoriaeth Cymru gan Action on Hearing Loss Cymru.

3.4 Fodd bynnag, roedd gan lai na hanner y sefydliadau a ymatebodd bolisi ffurfiol yn manylu ar eu dyletswyddau ac/neu hawliau dinasyddion yn gysylltiedig â dehongli a chyfieithu. Roedd manylder y polisïau yn amrywio, ond roedd pob un ohonynt yn darparu gwybodaeth am y broses o archebu gwasanaeth dehongli a chyfieithu.

3.5 Mae tua hanner (7 o 15) o'r cynghorau a ymatebodd i'n cais am wybodaeth wedi cyflawni gwaith i wneud eu gwefannau yn fwy hygyrch. Gan amlaf, roedd hyn yn golygu cynnwys offeryn e-gyfieithu[23] neu ddarllenyddion sgrin[24] (Astudiaeth Achos 4).

3.6 Adolygwyd tudalennau hafan y byrddau iechyd a'r ymddiriedolaethau ar ddechrau 2018. Mae pedwar o'r saith bwrdd iechyd ac Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi mabwysiadu ffurf safonol i'w gwefannau wedi'i datblygu gan Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru. Gall defnyddwyr newid maint y ffont yn rhwydd a defnyddio darllenyddion sgrin. Mae byrddau iechyd eraill wedi datblygu fformatau sydd yn fwy unigryw ond sydd yn dal i gadw at y canllawiau. Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro wedi cynnwys offeryn e-gyfieithu (Google Translate) ar eu tudalen hafan. Mae hyn yn ei gwneud hi'n hawdd i ddefnyddwyr gyfieithu tudalennau gwe i sawl iaith gyffredin. Ar hafan Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaeth Ambiwlans Cymru ceir dolen i 'Byddar a Thrwm eich Clyw' sydd yn cynnwys Iaith Arwyddion Prydain yn ogystal â gwybodaeth am y gwasanaeth neges destun brys a'r cerdyn gwybodaeth feddygol (Astudiaeth Achos 3) er mwyn helpu pobl i gyfathrebu mewn argyfwng. Mae'r gallu i gyfieithu'r wefan i un o'r prif ieithoedd eraill a siaredir yng Nghymru wedi'i nodi'n glir ar waelod y dudalen hafan.

3.7 Lle bo gwybodaeth yn berthnasol i bobl nad ydynt yn siarad Cymraeg na Saesneg neu a chanddynt nam ar y synhwyrau, ceir enghreifftiau o sefydliadau sy'n darparu'r wybodaeth honno mewn llawer o wahanol fformatau. Er enghraifft, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Safonau GIG Cymru ar gyfer Darparu Gwybodaeth Hygyrch i Bobl â Nam ar eu Synhwyrau a Chyfathrebu â Hwy (Paragraffau 1.8 ac 1.9 ac Atodiad 2). yn 2013 mewn Iaith Arwyddion Prydain, print bras, trac sain, Braille a fersiwn hawdd ei darllen.

3.8 Mewn dau adroddiad arall diweddar[25], rydym wedi amlygu cyfleoedd i gyrff cyhoeddus wella hygyrchedd eu gwybodaeth gyhoeddus mewn agweddau penodol ar ddarpariaeth gwasanaeth. Er enghraifft, yn rhan o'n gwaith ar addasiadau tai, amlygwyd bod sefydliadau cyflenwi'n darparu gwybodaeth am addasiadau tai yn Gymraeg ac yn Saesneg, ond nad yw nifer sylweddol ohonynt yn darparu gwybodaeth mewn fformatau eraill hygyrch.

23 E-gyfieithu (neu gyfieithu peirianyddol) yw offeryn cyfieithu ar-lein neu electronig sy'n newid geiriau neu ymadroddion o'r naill iaith i iaith arall. Yn y gorffennol, disgrifiwyd hyn fel 'clumsy'. Fodd bynnag, mae cywirdeb y cyfieithiadau yn gwella, yn enwedig yn yr ieithoedd mwyaf cyffredin, ac mae rhaglenni newydd yn dod i'r amlwg fel siarad - cyfieithu a rhaglenni cyfieithu amser real.

24 Bydd darllenyddion sgrin yn darllen testun yn uchel i'w wneud yn hygyrch i bobl â nam ar y golwg, pobl ag anawsterau dysgu gan gynnwys dyslecsia a phobl sy'n brin o sgiliau llythrennedd.

25 Archwilydd Cyffredinol Cymru, **Sut mae Llywodraeth Leol yn rheoli'r galw – Digartrefedd,** Ionawr 2018; ac Archwilydd Cyffredinol Cymru Addasiadau Tai, Chwefror 2018.

Astudiaeth Achos 4 – Gwaith Swyddfa Archwilio Cymru i wneud ei wefan gyhoeddus yn hygyrch

Roedd Swyddfa Archwilio Cymru am wneud yn siŵr bod ei gwefan gyhoeddus yn hygyrch i bawb. Comisiynodd y Ganolfan Hygyrchedd Digidol i archwilio ei wefan yn 2015. Roedd adroddiad y ganolfan yn amlygu amryw o faterion ac yn argymell gwelliannau. Mae'r wefan bellach yn cynnwys meddalwedd sy'n troi testun yn llafar mewn 40 o ieithoedd a chyfieithu i mewn i 99 o ieithoedd yn ogystal â nodweddion eraill sy'n ei gwneud hi'n fwy hygyrch.

Er bod gwaith i drwsio'r wefan yn cymryd mwy o amser nag a gynlluniwyd, drwy wneud y gwaith yn fewnol bu modd i'r staff ddysgu sut i gynhyrchu cynnwys hygyrch ar y we. Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn gwybod y gall wneud mwy i sicrhau bod dulliau eraill o gyfathrebu yn fwy hygyrch. Yn ddiweddar bu'n adolygu maint ei ffont ar gyfer deunydd print, ac mae'n datblygu templedi newydd fel bod ei chyhoeddiadau yn bodloni'r arferion gorau o ran print.

Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru

## Rhestr wirio ar gyfer gwasanaethau dehongli a chyfieithu

3.9 Er mwyn cefnogi datblygiadau i'r dyfodol, rydym wedi llunio rhestr wirio o faterion y gallai fod angen i gyrff cyhoeddus eu hystyried wrth gynllunio sut i fodloni anghenion pobl nad ydynt yn siarad Cymraeg na Saesneg, ar sail y gwaith a gwblhawyd gennym (Bocs 4). Wrth wneud hyn, rydym wedi cyfeirio at gyngor ac arweiniad sydd ar gael o ffynonellau eraill ac yn Safonau Cymru Gyfan ar gyfer Darparu Gwybodaeth Hygyrch i Bobl â Nam ar eu Synhwyrau a Chyfathrebu â Hwy sy'n trafod y GIG yn benodol (Paragraffau 1.8 ac 1.9).

**Bocs 4 – Rhestr wirio ar gyfer gwasanaethau dehongli a chyfieithu**

**1. Deall anghenion cyfathrebu'r boblogaeth leol**

a A yw'r sefydliad wedi asesu anghenion cyfathrebu'r boblogaeth leol er mwyn amcangyfrif y galw tebygol am wasanaethau dehongli a chyfieithu, gan gynnwys yr ieithoedd a siaredir yn lleol?

b A yw'r sefydliad wedi adolygu pa mor hygyrch yw ei wasanaethau i bobl nad ydynt yn siarad Cymraeg na Saesneg, gan gynnwys pobl fyddar sy'n defnyddio Iaith Arwyddion Prydain, gan gynnwys gofyn am adborth oddi wrth ddefnyddwyr gwasanaeth a grwpiau cynrychioliadol?

**Bocs 4 – Rhestr wirio ar gyfer gwasanaethau dehongli a chyfieithu**

**2. Polisi a gweithdrefnau**

a A yw'r sefydliad wedi datblygu polisi sy'n trafod:
- Gofynion deddfwriaethol i sicrhau bod gwasanaethau'n hygyrch.
- Y gofyniad i ddefnyddio dehonglwyr proffesiynol yn hytrach na dibynnu ar staff dwyieithog, perthnasau neu ffrindiau.
- Amgylchiadau lle gall staff ddibynnu ar rywun arall yn lle dehonglydd proffesiynol, fel argyfyngau.
- Y mathau o ddehongli sydd ar gael, a'r amgylchiadau lle dylai staff ddefnyddio dehonglwyr wyneb yn wyneb, dros y ffôn a thros fideo o bell.
- Y broses ar gyfer archebu dehonglwyr wyneb yn wyneb, dros y ffôn fideo-ddehongli o bell.
- Sut i gael gafael ar ddehonglwyr ar fyr-rybudd neu mewn argyfwng.

b A oes trefniadau ar waith i fonitro ansawdd dehonglwyr a chyfieithiadau?

c A oes proses gwyno hygyrch?

**3. Canfod gwasanaethau dehongli a chyfieithu**

a A yw'r sefydliad wedi ystyried yr opsiynau gorau er mwyn canfod gwasanaethau dehongli a chyfieithu (boed hynny drwy WITS, fframweithiau Llywodraeth y DU, drwy gontract uniongyrchol â darparwyr gwasanaeth eraill neu drwy gymysgedd o'r opsiynau hyn)?

b A yw'r sefydliad yn monitro'r galw am wasanaethau dehongli a chyfieithu, a chost hynny, gan gynnwys unrhyw gostau ychwanegol a achosir yn sgil archebion byr-rybudd neu frys, canslo'n fyr-rybudd neu fethu apwyntiadau?

c A yw'r sefydliad wedi ystyried a oes angen iddo ganfod dehonglwyr arbenigol, er enghraifft i weithio gyda phobl gyda salwch meddwl neu sydd wedi profi trais neu drawma?

d A yw'r sefydliad yn gwybod pa staff – os o gwbl – sydd yn meddu ar sgiliau ieithyddol i ddarparu gwasanaethau mewn iaith arall neu i gefnogi cyfathrebu mewn argyfwng nes bo dehonglydd proffesiynol ar gael?

| Bocs 4 – Rhestr wirio ar gyfer gwasanaethau dehongli a chyfieithu |
| --- |

**4. Hyfforddiant i staff ar weithio gyda phobl nad ydynt yn siarad Cymraeg na Saesneg fel iaith gyntaf**

- a A yw'r sefydliad wedi ystyried ac ymateb i anghenion hyfforddi staff er mwyn sicrhau eu bod yn gallu cyfathrebu'n effeithiol â phobl nad ydynt yn siarad Cymraeg na Saesneg fel iaith gyntaf?
- b A yw'r sefydliad wedi gwerthuso effeithiolrwydd ei hyfforddiant i'r staff?
- c A yw'r staff yn gwybod sut i archebu dehonglydd?
- ch A yw'r staff yn gwybod sut i weithio gyda dehonglwyr, er enghraifft, bod angen trefnu apwyntiadau hirach, neu beth yw rôl briodol y dehonglydd?

**5. Darparu gwybodaeth i ddefnyddwyr gwasanaeth nad ydynt yn siarad Cymraeg na Saesneg fel prif iaith**

- a A yw defnyddwyr gwasanaeth nad ydynt yn siarad Cymraeg na Saesneg fel iaith gyntaf (gan gynnwys pobl a allai ddefnyddio'r gwasanaethau) yn ymwybodol y gallant wneud cais am ddehonglydd neu gyfieithiad, er enghraifft drwy wybodaeth ar wefan y sefydliad, ar bosteri/mewn llythyrau a thrwy grwpiau cynrychioliadol?
- b A yw defnyddwyr gwasanaeth yn cael gwybod y gallant fynegi bod yn well ganddynt ddehonglydd arbennig?
- c A yw'r sefydliad yn gofyn am adborth oddi wrth ddefnyddwyr gwasanaeth sydd wedi defnyddio dehonglydd?
- ch A yw'r sefydliad yn cyfleu'n glir wrth ddefnyddwyr gwasanaeth a chanddynt anghenion ieithyddol gwahanol sut i wneud cwyn naill ai ynglŷn â'r dehonglydd, ynghylch diffyg gwybodaeth hygyrch neu'r gwasanaeth y maent wedi'i dderbyn yn fwy cyffredinol?
- d A yw'r sefydliad wedi sicrhau bod ei wefan a dulliau eraill o gyfathrebu'n ddigidol yn hygyrch i rai nad ydynt yn siarad Cymraeg na Saesneg?

Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru

# Atodiadau

Atodiad 1 – Ein dulliau

Atodiad 2 – Perfformiad yn erbyn Safonau Cymru Gyfan ar gyfer Darparu Gwybodaeth Hygyrch i Bobl â Nam ar eu Synhwyrau a Chyfathrebu â Hwy 2013



# Atodiad 1 – Ein dulliau

Mae'r astudiaeth hon yn canolbwyntio ar bobl nad ydynt yn siarad Cymraeg na Saesneg, gan gynnwys pobl fyddar sy'n defnyddio Iaith Arwyddion Prydain. Rydym yn cydnabod bod llawer o bobl eraill yn wynebu rhwystrau cyfathrebu gwahanol, er enghraifft pobl ag anableddau dysgu neu bobl sydd yn fyddar neu'n drwm eu clyw, pobl â chyfuniad o nam ar y golwg a'r clyw neu bobl sy'n brin eu sgiliau llythrennedd. Bydd llawer o'r camau i wella mynediad i bobl nad ydynt yn siarad Cymraeg na Saesneg fel iaith gyntaf o gymorth i'r grwpiau ehangach hyn (er enghraifft drwy ddefnyddio Cymraeg/Saesneg clir a thrwy gynyddu ymwybyddiaeth o rwystrau cyfathrebu yn gyffredinol) ond nid dyma fu ffocws ein gwaith.

Yn dilyn gwaith ymchwil ac ymgynghori â llunwyr polisi a chynrychiolwyr pobl sy'n defnyddio gwasanaethau dehongli a chyfieithu, cynhaliwyd dau seminar i ddysgu ar y cyd ym mis Chwefror a mis Mawrth 2017 fel y gallai cynrychiolwyr o grwpiau neilltuol a staff a oedd yn ymwneud â chyflenwi gwasanaethu ddysgu o'u profiadau a dysgu'r naill oddi wrth y llall. Yn dilyn hyn lluniwyd enghreifftiau o astudiaethau achos o'r seminarau (Bocs 5) ac mae mwy o fanylion ar gael ar dudalennau gwe Cyd-ddysgu Swyddfa Archwilio Cymru (Gwneud gwasanaethau'n fwy hygyrch i bobl nad ydynt yn siarad Cymraeg na Saesneg).

**Bocs 5 – Astudiaethau achos**

1. Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg – Tîm Mynediad Iechyd
2. Heddlu De Cymru – Cyswllt ar gyfer achosion brys, ac achosion eraill, Cadw'n Ddiogel Cymru
3. Heddlu Dyfed-Powys – Galwadau brys, Cynllun Pegasus
4. Heddlu Dyfed-Powys – Rhif testun ar gyfer achosion nad ydynt yn argyfwng
5. Trenau Arriva Cymru – Cynllun Waled Oren
6. Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaeth Ambiwlans Cymru – Ap cyn mynd i'r ysbyty
7. Tai Taf – Cefnogi pobl sy'n adsefydlu yng Nghaerdydd ac ym Mro Morgannwg drwy Raglen y Swyddfa Gartref i Adsefydlu Pobl o Syria sy'n Agored i Niwed
8. Cyngor Caerdydd – Yn darparu gwasanaethau cynghori i siaradwyr ieithoedd eraill mewn Hybiau Cymunedol
9. Swyddfa Archwilio Cymru – gwneud y wefan gyhoeddus yn hygyrch

Yn nhymor yr haf 2017, aethom ati i gysylltu â chynghorau a chyrff y GIG yng Nghymru i ofyn am wybodaeth am eu polisi a'u camau gweithredu er mwyn galluogi mynediad ehangach at wasanaethau cyhoeddus i bobl nad ydynt yn siarad Cymraeg na Saesneg fel iaith gyntaf, neu sy'n wynebu rhwystrau wrth gyfathrebu oherwydd nam ar y synhwyrau. Cawsom ymateb gan 15 o gynghorau, pedwar bwrdd iechyd a thair ymddiriedolaeth y GIG.

Buom yn adolygu Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol 41 o sefydliadau – pob un o'r 22 o gynghorau, y saith bwrdd iechyd a thair o ymddiriedolaethau'r GIG, y tri awdurdod parc cenedlaethol, y pedwar heddlu a'r tri awdurdod tân yng Nghymru – i weld pa gyfeiriadau, os o gwbl, oedd wedi'u cynnwys tuag at bobl nad ydynt yn siarad Cymraeg na Saesneg fel iaith gyntaf neu sy'n wynebu rhwystrau ieithyddol oherwydd nam ar y synhwyrau. Buom yn chwilio'n benodol at gyfeiriadau at ffoaduriaid, ceiswyr lloches, ymfudwyr a grwpiau du a lleiafrifol ethnig yn ogystal â ieithoedd. Roeddem hefyd yn chwilio am gyfeiriadau at bobl 'fyddar', 'wedi'u byddaru', 'â nam ar y clyw' neu 'â nam ar y synhwyrau'. Cynhaliwyd yr un adolygiad ar y saith Asesiad o Anghenion y Boblogaeth a gyhoeddwyd gan y Cyd-bartneriaethau Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Llesiant yn 2017, a'r 19 o asesiadau llesiant a gyhoeddwyd gan y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus am y tro cyntaf yn nhymor y gwanwyn 2017.

Cawsom sawl cyfarfod â swyddogion o WITS. Buom ar drywydd y newidiadau a gyflwynwyd yn dilyn adroddiad archwilio ym mis Mawrth 2015 ac ar ôl trosglwyddo cyfrifoldebau cynnal o Heddlu Gwent i Gyngor Caerdydd. Cysylltwyd â gwasanaethau dehongli a chyfieithu eraill er mwyn rhoi cyfle iddynt ddarparu gwybodaeth am eu gwasanaethau a'u gwaith yng Nghymru.

Yn ystod y gwaith hwn, aethom hefyd i gyfarfod â staff o Gyngor Cymru i Bobl Fyddar a'r Ganolfan Arwyddo-Golwg-Sain (Cymdeithas y Byddar Gogledd Cymru gynt) yn nhymor yr haf 2017. Buom yn trafod y gwaith â Chynghrair Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, ac fe gawsom wybodaeth fanwl gan amryw o sefydliadau am fentrau sydd ar y gweill.

Buom hefyd yn cynnal trafodaethau â swyddogion o Lywodraeth Cymru ac o Bartneriaeth Ymfudo Strategol Cymru, a gynhelir gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

## Cyfanswm y gwariant ar wasanaethau dehongli a chyfieithu

Gwyddom fod cyrff cyhoeddus yng Nghymru wedi gwario £ 2.2 miliwn trwy WITS a £55,000 drwy fframweithiau caffael Llywodraeth y DU ar wasanaethau dehongli a chyfieithu yn 2016-17 (Paragraffau 1.19 a 1.29). Mae gwariant drwy WITS yn cynnwys swm bychan (amcangyfrifir nad yw'n fwy na £7,000) i'w wario ar wasanaeth dehongli Cymraeg.

Fodd bynnag, nid yw'r ffigurau hyn yn cynnwys cost gwasanaethau dehongli neu gyfieithu a gaffaelir drwy gontractau â chwmnïau preifat neu sefydliadau trydydd sector eraill. Ar y cyfan, nid oedd modd inni gyfrifo cyfanswm y gwariant ar wasanaethau dehongli a chyfieithu ar gyfer ieithoedd, a hynny gan mai ond gwybodaeth am wariant 12 cyngor, pedwar Bwrdd Iechyd a thair o Ymddiriedolaethau'r GIG a gawsom. Roedd rhai o'r ffigurau a ddarparwyd naill ai'n anghyflawn neu'n anghyson; er enghraifft, roedd rhai'n talu ffi am bob archeb lle'r oedd gan eraill gontract sefydlog ar gyfer gwasanaethau dehongli. Nid oedd yr wybodaeth a ddarparwyd gan y cynghorau yn cynnwys gwasanaethau dehongli a chyfieithu i geiswyr lloches a adsefydlwyd yng Nghymru o dan y Rhaglen Adsefydlu Pobl o Syria sy'n Agored i Niwed gan fod grant bloc y Swyddfa Gartref i'r awdurdod cynnal yn talu'r costau hynny.

Ni ddarparwyd unrhyw wybodaeth ychwaith am nifer y cyflogeion a ystyriai mai eu prif rôl oedd dehongli neu gyfieithu. Ni wnaeth sefydliadau ychwaith ddarparu unrhyw asesiad o'r costau cyfle a achoswyd gan fod staff yn gwneud gwaith dehongli yn hytrach na chyflawni eu prif rôl.

# Atodiad 2 – Perfformiad yn erbyn Safonau Cymru Gyfan GIG Cymru ar gyfer Darparu Gwybodaeth Hygyrch i Bobl â Nam ar eu Synhwyrau a Chyfathrebu â Hwy 2013

Mae Llywodraeth Cymru yn monitro cynnydd cyrff iechyd tuag at fodloni Safonau Cymru Gyfan ar gyfer Darparu Gwybodaeth Hygyrch i Bobl â Nam ar eu Synhwyrau a Chyfathrebu â Hwy yn flynyddol. Yn ei hadolygiadau nas cyhoeddwyd o wybodaeth a ddarparwyd gan Fyrddau ac Ymddiriedolaethau Iechyd ar gyfer 2015-16 a 2016-17, casglwyd bod pawb wedi gwneud cynnydd tuag at gyflawni'r Safonau ond bod y perfformiad yn amrywio. Roedd gan bob un ohonynt ar wahân i Iechyd Cyhoeddus Cymru gynllun gweithredu tuag at gyflawni'r Safonau erbyn mis Mawrth 2016. Gallai pob un ohonynt ddangos eu bod wedi cynnal rhyw fath o asesiad o anghenion ar gyfer gofal yn yr ysbyty. Ceir crynodeb yn y paragraffau a ganlyn o rai o ganfyddiadau'r adolygiadau.

## Gofal iechyd eilaidd

Mae'r holl fyrddau a'r ymddiriedolaethau iechyd ar wahân i Fwrdd Iechyd Addysgu Powys wedi codi ymwybyddiaeth y staff ac/neu ddarparu hyfforddiant iddynt mewn rhyw fodd neu'i gilydd. Mae'r mentrau amrywiol yn cynnwys sut i ddefnyddio cyfarpar arbenigol; gwybodaeth i godi ymwybyddiaeth ynghylch yr anghenion a'r problemau a wynebir gan bobl â nam ar y synhwyrau a hyfforddi staff ar Iaith Arwyddion Prydain. Yn 2016, enillodd Ysbyty Deintyddol y Brifysgol wobr yn rhan Wobrau Cydnabod Staff BIP Caerdydd a'r Fro am ei waith yn codi ymwybyddiaeth ac yn hyfforddi staff rheng-flaen ar namau ar y synhwyrau.

Mae pob un ohonynt wedi rhoi mesurau ar waith i wella eu trefniadau i gyfathrebu â phobl â nam ar y synhwyrau. Roedd pedwar bwrdd iechyd yn profi neu'n gweithredu cynllun i anfon neges-destun ar gyfer apwyntiadau, ac mae un bwrdd iechyd yn profi system larwm i alw cleifion allanol i'w hapwyntiad. Mae'r rhan fwyaf wedi sefydlu mecanweithiau cyfathrebu fel dolenni cymhorthion clyw, unedau chwyddo sain Sondio, matiau synhwyraidd, dehonglwyr Iaith Arwyddion Prydain ac arweiniad ar wybodaeth ysgrifenedig i gleifion. Mae gan rai ohonynt systemau i hysbysu'r staff ynghylch anghenion synhwyraidd cleifion fel symbolau ar gyfer nam ar y synhwyrau ar gofnodion cleifion/byrddau statws a chofnodi anghenion cyfathrebu mewn llythyrau atgyfeirio. Mae menter Bwrdd Iechyd Addysgu Powys i amlygu anghenion cleifion o ran mynediad ac iaith drwy e-atgyfeiriadau a'r System Derbyn Cleifion wedi'i mabwysiadu fel enghraifft ragorol.

## Gofal iechyd sylfaenol

At ei gilydd, roedd darparwyr gofal sylfaenol wedi gwneud llai i weithredu'r Safonau na darparwyr gofal eilaidd. Mae'r mentrau sydd ar y gweill ac sydd wedi'u cwblhau yn cynnwys:

a **Codi ymwybyddiaeth staff ynghylch** materion nam ar y synhwyrau ac/neu'r Safonau drwy hyfforddiant, sesiynau codi ymwybyddiaeth a dogfennau canllaw;

b **Cyflwyno offer cyfathrebu** i bobl â nam ar y synhwyrau sydd am ddefnyddio gwasanaethau gofal sylfaenol. Mae'r enghreifftiau yn cynnwys cardiau cyfathrebu, trefnu dehonglwyr Iaith Arwyddion Prydain a phrofi'r defnydd o symbolau codi ymwybyddiaeth. Yn fwy penodol, cyflwynwyd y Safon Gwybodaeth Hygyrch i bobl â nam ar y synhwyrau mewn meddygfeydd o fis Tachwedd 2017.

Prosiect cenedlaethol a arweinir gan Lywodraeth Cymru ydyw sy'n galluogi meddygfeydd i gipio, cofnodi, trosglwyddo ac amlygu anghenion cleifion â nam ar y synhwyrau o ran cyfathrebu a gwybodaeth. Bydd cam arall yn cael ei ychwanegu at y prosiect erbyn diwedd mis Mawrth 2018 fydd yn ei gwneud hi'n bosibl i rannu'r anghenion hynny a nodwyd o ran cyfathrebu a gwybodaeth drwy e-atgyfeiriad, lle bo'r meddyg teulu yn atgyfeirio cleifion i ofal eilaidd; ac

c **Gwneud gwybodaeth am iechyd a llesiant yn hygyrch** er enghraifft drwy gynnwys clipiau sain Iaith Arwyddion Prydain ar wefannau ac addasu rhaglenni addysg fel bod modd i bawb gymryd rhan. O ran rhaglenni addysg, mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg wedi ennill Gwobr GIG Cymru (Rhoi'r Prif Sylw i Ddinasyddion wrth Ailddylunio a Chyflenwi Gwasanaethau) yn 2015 am ailddylunio ei gyrsiau iechyd a llesiant fel eu bod bellach yn hygyrch i ddefnyddwyr byddar sy'n defnyddio Iaith Arwyddion Prydain.

Ymhlith y materion a nodwyd i fynd i'r afael â hwy ym mis Mawrth 2017, yr oedd sicrhau bod systemau apwyntiadau yn fwy hygyrch i bobl â nam ar y synhwyrau. Nododd un bwrdd iechyd fod sicrhau bod dehonglwyr ar gael ar gyfer apwyntiadau brys yn broblem barhaus. Roedd gwneud ardaloedd cyhoeddus a chleifion mewn adeiladau gofal iechyd sylfaenol yn fwy hygyrch yn bryder mwy cyffredin yn nhri o'r saith bwrdd iechyd, a hynny'n enwedig mewn adeiladau hŷn, yn ogystal â sicrhau bod dolenni clyw ar gael.

## Gofal iechyd brys a heb ei drefnu

Mae’r graddau y mae cyrff y GIG wedi cymryd camau i wella mynediad at ofal brys a gofal heb ei drefnu yn amrywio. Mae’r mentrau’n cynnwys:

a sesiynau hyfforddi/codi ymwybyddiaeth i’r staff;

b defnyddio offer fel dyfeisiau clyw, cardiau gwybodaeth, diweddaru gwefannau er mwyn cynorthwyo pobl sydd â nam ar y synhwyrau neu bennu arweinydd neu hyrwyddwr ar gyfer materion nam ar y synhwyrau; ac

c mae Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaeth Ambiwlans Cymru wedi datblygu ap er mwyn helpu i gyfathrebu â chleifion ac eraill nad ydynt yn siarad Cymraeg na Saesneg neu a chanddynt nam ar y synhwyrau neu fath arall o anghenion cyfathrebu (Astudiaeth Achos 6, Cyd-ddysgu Siaradwch Fy Iaith).

Fodd bynnag, ym mis Mawrth 2017, adroddodd tri bwrdd iechyd fod angen iddynt fynd i’r afael â phroblemau’n gysylltiedig â mynediad at ofal heb ei drefnu a gofal brys, a hynny’n enwedig y tu allan i oriau craidd.

Wales Audit Office

24 Cathedral Road

Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

We welcome telephone calls in Welsh and English.

E-mail: info@audit.wales

Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn Testun: 029 2032 0660

Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

**Tracey Burke**
Cyfarwyddwr Cyffredinol / Director General

Y Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus
Education and Public Services Group

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Nick Ramsay AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

10 Gorffennaf 2018

Annwyl Nick,

**YMCHWILIAD Y PWYLLGOR CYFRIFON CYHOEDDUS, 25 MEHEFIN 2018 – ADDASIADAU TAI**

Yn sgil y sesiwn dystiolaeth ar 25 Mehefin 2018, gofynnwyd i ni roi gwybodaeth i chi am y bylchau yn y modd mae Llywodraeth Cymru yn casglu data a gwybodaeth bellach ynghylch pa mor bwysig yw cael tystiolaeth i fesur effaith ymyriadau.

**Mynd i'r afael â'r bylchau**

I gychwyn, efallai y byddai'n help i mi egluro sut mae Sefydliadau Trosglwyddo Gwirfoddol ar Raddfa Fawr (LSVTau) yn ymwneud â'r gwaith o gasglu data a datblygu polisïau. Mae'r casgliad data Hwyluso yn casglu gwybodaeth ar addasiadau o *bob* sefydliad, mae hyn yn cynnwys LSVTau. Yn ychwanegol at hyn, nid oedd gan y Grŵp Llywio Cymhorthion ac Addasiadau (y Grŵp Llywio Hwyluso gynt) gynrychiolaeth cyn hyn o'r sector LSVT. Er hynny, er mwyn sicrhau bod gennym ddealltwriaeth dda o'r sector hwn, ac er mwyn cydnabod ei sefyllfa unigryw o ran darparu addasiadau i dai, gofynnwyd i gynrychiolydd LSVT ymuno â'r grŵp.

Fel y dywedwyd yn y sesiwn dystiolaeth, rydym yn cytuno bod casglu data a monitro yn faes gwaith allweddol. Rydym yn bwrw ati i wella'r maes gwaith hwnnw. Mae'r casgliad data Hwyluso wedi bod yn ei le ers mis Ionawr 2017. Ar hyn o bryd, rydym yn dadansoddi data o'r ffurflenni sy'n ymwneud â'r flwyddyn gyntaf. Mae'n cynnwys data sy'n ymwneud â phrofiadau dros 12,000 o unigolion. Disgwylir yr adroddiad terfynol ar y casgliad data hwn yn ystod tymor yr hydref 2018. Mae ein dadansoddiad eisoes wedi tynnu sylw at nifer o anghysondebau yn y modd y mae darparwyr gwasanaeth yn cofnodi data. Rydym wedi cymryd camau i wella cysondeb ffurflenni ar gyfer yr ail flwyddyn, gan gynnwys mynd i'r afael â'r bylchau. Bydd yr adroddiad terfynol yn helpu i lywio fersiwn nesaf y fethodoleg casglu data a gwella ein dealltwriaeth eto o berfformiad darparwyr gwasanaethau ac effaith y gwasanaethau hyn.

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 0258047
tracey.burke@llyw.cymru
Gwefan ● website: www.llyw.cymru.uk

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae is-grŵp o'r Grŵp Llywio Cymhorthion ac Addasiadau wedi cael ei sefydlu i ddiweddaru'r canllawiau a'r templedi, bydd hyn sicrhau bod cysondeb y ffurflenni data yn well fyth. Bydd y grŵp yn cyfarfod fis Gorffennaf ac yn anelu at gael y trefniadau gwell ar gyfer casglu data yn eu lle erbyn diwedd haf 2018.

**<u>Mesur effeithiau</u>**

O ran casglu tystiolaeth o effaith, a mesur yr agwedd ataliol ar addasiadau tai, fel y dywedwyd wrth y Pwyllgor, mae'r meysydd hyn yn anoddach i'w mesur. Mae gwaith yn mynd rhagddo, ond rhaid i ni gofio pa mor heriol yw mesur effeithiau ataliol. Un dull gweithredu sydd eisoes yn mynd rhagddo yw'r gwaith sy'n cael ei wneud gan Gofal a Thrwsio Cymru, sy'n cydweithio â banc data SAIL Prifysgol Abertawe i sefydlu tystiolaeth o effaith ei gwaith ar y defnydd o wasanaethau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol. Mae Banc data Cyswllt Diogel Gwybodaeth Ddienw (SAIL) yn fanc data cenedlaethol o setiau data iechyd a gweinyddol sy'n ddienw, ac yn ymwneud â phoblogaeth Cymru. Defnyddir y banc data i lunio a darparu tystiolaeth i wneuthurwyr polisi i wella iechyd, lles a gwasanaethau. Gall dracio pobl ddienw gan ddefnyddio ystod o setiau data i bennu sut y mae'r ymyriadau'n cael effaith ar wasanaethau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol.

Mae disgwyl i'r astudiaeth cyswllt gwybodaeth gynyddu ein dealltwriaeth o effaith addasiadau ar ddefnydd y gwasanaeth iechyd; yn benodol, eu heffaith ar dderbyniadau brys i'r ysbyty. Mae posibilrwydd i hyn fod yn arf pwerus i'n helpu i fesur a chofnodi tystiolaeth gref o'r effaith ataliol y mae darparu addasiadau yn ei chael. Cyn estyn y dull gweithredu hwn y tu hwnt i ddata Gofal a Thrwsio, mae angen cydweithio mwy â'r sector i sicrhau bod y ffordd bresennol o gasglu data yn briodol ar gyfer paru â data SAIL. Byddwn yn parhau i weithio drwy'r Grŵp Llywio Cymhorthion ac Addasiadau i ddatblygu ein dealltwriaeth ymhellach o ran effaith ymyriadau a'r defnydd tebygol o dystiolaeth SAIL.

Yn gywir



Tracey Burke

**Tracey Burke**
Cyfarwyddwr Cyffredinol / Director General

Y Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus
Education and Public Services Group

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

10 Gorffennaf 2018

Annwyl Mr Ramsay,

**Ynghylch: Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru: Rhaglen Gyfalaf i Sicrhau Addysg ac Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif**

Diolch am fy ngwahodd i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar y Rhaglen Gyfalaf i Sicrhau Addysg ac Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif ar 25 Mehefin.

Yn ystod y sesiwn roeddwn wedi cytuno i ddarparu rhagor o wybodaeth ac esboniadau ynghylch y pwyntiau a drafodwyd. Mae hyn wedi'i gynnwys yn yr atodiad sydd ynghlwm.

Yn gywir

**Tracey Burke**
**Cyfarwyddwr Cyffredinol, Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus**

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 0258047
tracey.burke@gov.wales
Gwefan ● website:
www.wales.gov.uk

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**RHAGLEN GYFALAF I SICRHAU ADDYSG AC YSGOLION AR GYFER YR 21AIN GANRIF**

1. **Manylion y gwahaniaethau rhwng y model trysorlys pum achos busnes a ddefnyddiwyd i gymeradwyo'r Model Buddsoddi Cydfuddiannol a'r model a ddefnyddiwyd i gymeradwyo'r Cyllid Menter Cyllid Preifat**

Mae Gweinidogion Cymru wedi egluro ei bod yn rhaid i'r buddsoddiad a wneir drwy ddefnyddio'r Model Buddsoddi Cydfuddiannol hybu budd y cyhoedd, gan gynnwys gwerth am arian. I'r perwyl hwnnw caiff pob cynllun Model Buddsoddi Cydfuddiannol ei asesu drwy ddefnyddio'r Model Pum Achos.

Mae'r Model Pum Achos yn berchen i Lywodraeth Cymru a Thrysorlys EM ar y cyd. Mae'n rhan greiddiol o'r rhaglen Gwell Achosion Busnes, sydd hefyd yn cynnwys hyfforddiant sydd wedi cael ei achredu'n rhyngwladol ar lefelau sylfaen, ymarferydd ac adolygwr. Mae'r Model Pum Achos yn rhoi fframwaith ar gyfer gwneud penderfyniadau'n effeithiol o ran achosion strategol, economaidd, masnachol, ariannol a rheolaethol prosiect. Mae gwerth am arian yn amodol ar ddisgyblaeth yr achos economaidd, sy'n cynnwys, *inter alia*, cymhwyso costau a manteision, cynnal arfarniad o'r dewisiadau, a chynnwys tuedd optimistaidd. Mae rhagor o wybodaeth am y Model Pum Achos a'r rhaglen Gwell Achosion Busnes ar gael yn:

https://gov.wales/funding/wales-infrastructure-investment-plan/better-business-cases/?skip=1&lang=cy

Gan nad oedd Llywodraeth Cymru yn barti mewn contractau Menter Cyllid Preifat hanesyddol a wnaed gan Drysorlys EM, ni allaf roi sylw ar yr arfarniadau gwerth am arian a gynhaliodd Trysorlys EM. Gallaf sicrhau'r Pwyllgor, fodd bynnag, fod yr asesiadau gwerth am arian wedi esblygu dros y blynyddoedd ers cynlluniau cynnar y Fenter Cyllid Preifat, ynghyd â'r gwersi a ddysgwyd, a fydd yn cael eu defnyddio wrth graffu ar brosiectau'r Model Buddsoddi Cydfuddiannol.

2. **Bydd esboniad o dystiolaeth ysgrifenedig Llywodraeth Cymru ynghylch sut bydd y Rhaglen Gyfalaf i Sicrhau Addysg ac Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif yn cyfrannu at ymrwymiad Llywodraeth Cymru i filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050**

Mae twf yn y sector cyfrwng Cymraeg yn nod allweddol i'r Rhaglen Gyfalaf i Sicrhau Addysg ac Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif ac rydym yn gweithio'n gadarnhaol gyda'n partneriaid i gyflawni hynny. Mae hi nawr yn orfodol i'r achos busnes ar gyfer pob prosiect unigol ddarparu manylion ynghylch sut bydd y cynnig yn cyfrannu at ymrwymiad Llywodraeth Cymru i un filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 neu egluro pam nad ydy hyn yn briodol a nodi'r sail dystiolaeth i gefnogi'r penderfyniad hwnnw. Craffir ar yr wybodaeth hon fel rhan o'r broses o asesu'r achos busnes.

Pan fydd awdurdod lleol yn cyflwyno cynnig ar gyfer ysgol cyfrwng Saesneg byddem yn disgwyl gweld tystiolaeth bod digon o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn yr ardal a pham mai Saesneg ydy'r iaith cyfarwyddyd priodol yn yr achos yma. Bydd swyddogion o'r tîm Iaith Gymraeg yn craffu ar bob cynnig ac yn darparu sicrwydd ynghylch a ydy'r dystiolaeth ar sail gadarn.

**3. Manylion ynghylch sut bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau y bydd gofynion Deddf Teithio Llesol (2013) yn cael eu hystyried a'u gweithredu fel rhan o adeiladu ysgolion yn y dyfodol.**

Mae Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 yn ceisio cynyddu nifer y siwrneiau bob dydd sy'n cael eu gwneud ar droed ac ar feic, fel y siwrnai i'r ysgol. O ganlyniad i'r Ddeddf, mae angen i awdurdodau lleol gynllunio a datblygu rhwydweithiau teithio llesol integredig, sy'n cysylltu sbardunau teithiau allweddol, gan gynnwys ysgolion. Cyfeirir at y newid hwn mewn deddfwriaeth yn ein canllawiau ar achosion busnes. Caiff y canllawiau hyn eu defnyddio gan awdurdodau lleol a sefydliadau addysg bellach wrth baratoi achosion busnes am fuddsoddiad cyfalaf yn eu seilwaith addysg i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â pholisïau a deddfwriaeth Llywodraeth Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i unrhyw brosiect Addysg ac Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif gynnwys darparu mynediad cerdded a beicio diogel a hwylus. Bydd swyddogion trafnidiaeth ac addysg yn craffu ar yr achosion busnes ar gyfer prosiectau Addysg ac Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif. Mae'n rhaid i achosion busnes sy'n dangos ystyriaeth wael o ran mynediad teithio llesol sicrhau y rhoddir sylw i hyn cyn bod modd symud ymlaen. Dyma faes lle byddwn yn craffu ac yn herio mwy wrth fynd yn ein blaenau.

**4. Rhagor o wybodaeth ar ddiogelwch y Model Buddsoddi Cydfuddiannol i sicrhau safonau adeiladu o ansawdd uchel ar gyfer adeiladau ysgolion**

Cymhwysir safonau adeiladu llym at brosiectau sy'n llwyddiannus yn sicrhau cyllid. Bydd hyn yn parhau fewn i Band B ar gyfer cynlluniau cyfalaf a chyllid Model Buddsoddi Cydfuddiannol. Bydd cynlluniau Model Buddsoddi Cydfuddiannol yn benodol yn safoni dyluniad, gyda manyleb allbwn safonol ar gyfer gwaith a gwasanaethau. Ni fydd y taliad yn cychwyn nes bod Profwr Annibynnol wedi llofnodi'r adeilad yn gyflawn.

Gofynnodd y pwyllgor yn benodol am ein hymateb i'r Adroddiad gan yr Ymchwiliad Annibynnol i Adeiladu Ysgolion Caeredin (Partneriaeth Cyhoeddus-Preifat) ym mis Chwefror 2017. Yn dilyn rhyddhau'r adroddiad, cynhaliwyd ymarfer o fewn Llywodraeth Cymru i ystyried sut y gallai'r Model Buddsoddi Cydfuddiannol weithredu prif argymhellion yr Ymchwiliad o ran rôl yr Awdurdod sy'n contractio mewn perthynas â sicrhau ansawdd dylunio ac adeiladu cyfleusterau partneriaeth cyhoeddus-preifat.

O ganlyniad i'r ymarfer yma, daethpwyd i'r casgliad y byddai modd ategu'r Ffurflen Safonol ar gyfer Cytundeb Prosiect Model Buddsoddi Cydfuddiannol â chanllawiau wedi'u cyhoeddi i ymestyn cwmpas gwasanaethau'r Profwr Annibynnol. Mae'r canllawiau hyn nawr ar gael yn:

https://gov.wales/docs/caecd/publications/171215-independent-tester.pdf

Daethpwyd i'r casgliad hefyd y byddai rhagor o ganllawiau ynghylch *Sicrwydd Awdurdod yn ystod y Cam Adeiladu* yn cael eu cyhoeddi i dimau prosiect y Model Buddsoddi Cydfuddiannol. Mae'r canllawiau hyn yn nodi hawliau a gofynion yr Awdurdod o dan y Ffurflen Safonol ar gyfer Cytundeb Prosiect Model Buddsoddi Cydfuddiannol. Rhaid penodi Rheolwr Adeiladu gan yr Awdurdod i wneud gweithgareddau sicrhau ansawdd ar ran yr Awdurdod, gan gynnwys, os oes angen, monitro ac archwilio gweithgareddau adeiladu o ddydd i ddydd.

Yn gryno, mae ein hymateb i'r Ymchwiliad yn:

- Rhoi sylw i'r argymhelliad bod Awdurdodau angen buddsoddi mewn arbenigedd priodol er mwyn craffu ar brosiectau'n iawn;
- Rhoi sylw i'r pryder bod angen adolygu lefel y gwasanaeth a ddarperir gan Brofwyr Annibynnol a bod angen ysgrifennu contractau penodi i adlewyrchu'r hyn mae cleientiaid wir am ei gael o'r rôl;
- Ailbwysleisio'r angen am ddiwydrwydd trwyadl yn ystod y caffael mewn perthynas â phrosesau ansawdd adeiladu, a monitro'r gweithgareddau hynny'n barhaus.
- Gorfodi penodi Rheolwr Adeiladu Awdurdod i weithredu ar ran yr Awdurdod;
- Mae'n cynnwys meini prawf cwblhau adeiladu manwl, ee glynu wrth safonau, gwarantau a rheoliadau tân adeiladau;
- Mae'n symud i ffwrdd oddi wrth brofi/archwilio sampl cyfyngedig at ddull o brofi cwblhau pwrpasol; ac
- Mae'n defnyddio BIM (Modelu Gwybodaeth am Adeiladau) i sicrhau bod lluniadau 'fel y cafodd ei adeiladu' a dogfennau eraill ar gael yn hawdd drwy gadw cofnodion cywir a thrwyadl.

Eitem 2.4

**Ein Cyf** / Our Ref:
**Eich Cyf** / Your Ref:
**Dyddiad** / Date:
**Gofynnwch am** / Please ask for:
**Llinell uniongyrchol** / Direct line:
**Ebost** / Email:

**Cc: Public Accounts Committee**

Nick Ramsay AM
National Assembly for Wales
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Dear Mr Ramsay,

**Additional Information: PAC Inquiry into 21st Century Schools and Education Programme**

Many thanks for the invitation and the opportunity to give evidence to the Public Accounts Committee part of the inquiry into 21st Century Schools and Education Programme. During the evidence session I gave a commitment to provide further information concerning the Mutual Investment Model (MIM) element of Band B. During the course of the discussion and in the WLGA's written evidence I indicated that there were some anxieties within local government regarding a revenue funded approach to 21st Century Schools and the fact that several authorities had had less than favourable experiences of the Public Finance Initiative (PFI) which had been used as a vehicle for building schools in the past. There is no doubt that authorities would prefer a traditional capital funding approach if that was available but that is not the case. The Welsh Government and the 21st Century Schools Programme Board were determined from the outset therefore to learn the lessons of past experiences.

Despite initial anxieties, there are several potential benefits to the MIM proposal: They include:

- It provides an additional source of funding for the Programme which enables greater investment in school buildings beyond the capital funding available.
- It ensures that the school buildings that are delivered are maintained for their *lifetime* and over a long period of time than would otherwise be the case.
- If there are failures on the part of the contractor in terms of provision of the services and availability of areas in the building, then MIM provides the public sector with a route of redress. Deductions can be levied against the contractor for such failures.

CLlLC • WLGA

Steve Thomas CBE
Prif Weithredwr
Chief Executive

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Tŷ Llywodraeth Leol
Rhodfa Drake
CAERDYDD CF10 4LG
Ffôn: 029 2046 8600

Welsh Local Government Association
Local Government House
Drake Walk
CARDIFF CF10 4LG
Tel: 029 2046 8600

wlga.cymru
wlga.wales

@WelshLGA


**Croesawn ohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg a byddwn yn ymateb i ohebiaeth yn yr un iaith.**
**Ni fydd defnyddio'r naill iaith na'r llall yn arwain at oedi.**
We welcome correspondence in Welsh and English and will respond to correspondence in the same language.
Use of either language will not lead to a delay.

- Local authorities might have to borrow to match fund the Welsh Government contribution to the traditional capital model whereas the MIM approach is unlikely to require additional borrowing.

Additional beneficial features of the MIM approach include the transfer of many risks currently borne by local authorities to the private sector. These include, the ongoing availability of the building; the efficient performance of the services on an on-going basis; the energy efficiency of the design of the building; asset replacement and the timely delivery of the facility and associated cost overruns. If the authority can't use the school building or if it is defective, then they are compensated through a deduction to the monthly payment.

As has already been stated, many aspects of the 21st Century Schools and Education Programme are contestable and authorities will consider all the evidence and come to different conclusions about which is their preferred funding approach. There are several potential benefits to adopting the MIM model and while some of these might be contestable, it is evident that MIM provides an additional source of funding that can be invested in the school estate resulting in new and improved school buildings.

**Yours sincerely,**



**Chris Llewelyn**
*Dirprwy Brif Weithredwr - Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes, Hamdden a Gwybodaeth*
*Deputy Chief Executive - Director of Lifelong Learning, Leisure & Information*

**Croesawn ohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg a byddwn yn ymateb i ohebiaeth yn yr un iaith.**
**Ni fydd defnyddio'r naill iaith na'r llall yn arwain at oedi.**
We welcome correspondence in Welsh and English and will respond to correspondence in the same language.
Use of either language will not lead to a delay.

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus**
**Sesiwn graffu ar Ddeddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014**
**16 Mehefin 2018**

**Papur tystiolaeth gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol, Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

## Cyflwyniad

Mae hi'n bedair blynedd bellach ers cyflwyno Deddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014. Y flwyddyn ariannol sydd newydd ddod i ben oedd yr ail dro inni adrodd ar ein dyletswydd ariannol tair blynedd, a'r bedwaredd flwyddyn y gofynnwyd i sefydliadau gyflwyno cynlluniau tymor canolig integredig i'w cymeradwyo. Mae hwn yn gyfle da i ddiweddaru'r Pwyllgor ar y cynnydd a wnaed gennym ers ein sesiwn dystiolaeth ym mis Gorffennaf 2017 gan ymgorffori dull cynllunio integredig a gwella disgyblaeth ariannol yn GIG Cymru. Er ei bod yn amlwg bod gwaith i'w wneud o hyd i sicrhau bod pob sefydliad yn bodloni gofynion y Ddeddf, credaf y gallwn ddangos bod 2017-18 wedi bod yn flwyddyn o sefydlogi a gwella.

## Cynlluniau Tymor Canolig Integredig 2018 i 2021

### Y broses

Mae'r broses o lunio Cynlluniau Tymor Canolig Integredig wedi datblygu'n raddol ers cyflwyno Deddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014. Y nod yw sicrhau cydbwysedd rhwng adolygiad cadarn a sicrwydd a chynnal perchenogaeth ac atebolrwydd ar lefel sefydliadol. Bwriad y cam adolygu yw sicrhau bod yr uchelgais, y blaenoriaethau a'r perfformiad a bennir gan bob sefydliad yn gredadwy ac yn cael eu cefnogi gan weithlu priodol, adnoddau eraill ac y gellir eu cyflawni'n ariannol. Mae manylion y broses i'w gweld yn Atodiad 1.

### Aeddfedrwydd y Prosesau Cynllunio

Ar gyfer y bumed flwyddyn o gynllunio integredig, mae chwe sefydliad (Byrddau Iechyd Aneurin Bevan, Cwm Taf a Phowys ac Ymddiriedolaethau GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru, Felindre a Gwasanaethau Ambiwlans Cymru) wedi dangos aeddfedrwydd a datblygiad cynyddol o ran eu prosesau cynllunio sefydliadol ac mae ganddynt hanes da o gyflawni sy'n rhoi hyder a hygrededd yng ngallu'r sefydliad a'u Byrddau i weithredu eu cynlluniau. Maent wedi cyflwyno cynlluniau terfynol sydd wedi'u datblygu'n dda sy'n:

- dangos tystiolaeth eu bod yn sefydliadau "iechyd y boblogaeth", gan ddeall yr angen i ofal sylfaenol a chymunedol lleol fod yn ganolog i drawsnewid y system iechyd;

- deall yr angen i ganolbwyntio ar waith atal ac iechyd y cyhoedd;
- meddu ar flaenoriaethau sefydliadol clir sydd, ar y cyfan, wedi'u hategu gan ddisgrifiadau clir o ddylanwad, gweithredoedd, cerrig milltir ac effeithiau ar gyllid a gweithlu;
- darparu tystiolaeth o berchnogaeth cynlluniau ar draws eu sefydliadau, drwy ddull o ddatblygu blaenoriaethau o'r gwaelod i fyny.

O ran y dyfodol bydd cynlluniau yn cael eu cysoni â *Dyfodol Iachach*, ond ar gyfer cylch cynllunio 2018-21, roedd sefydliadau'n gallu ystyried canfyddiadau'r Adolygiad Seneddol wrth baratoi eu cynlluniau presennol.

Un o nodweddion allweddol y cynlluniau a gymeradwywyd yw eu bod wedi'u gosod yng nghyd-destun strategaethau clinigol tymor hir y cytunwyd arnynt gan y Bwrdd, neu sy'n dod i'r amlwg, sy'n rhoi cyfeiriad clir ar gyfer cyflawni'r cynlluniau tymor canolig integredig.

Mae hefyd yn amlwg bod y sefydliadau hynny sydd wedi llwyddo i gael cymeradwyaeth ar gyfer nifer o gynlluniau yn fwy datblygedig o ran cymhwyso'r ddeddfwriaeth a pholisïau cenedlaethol sy'n gofyn am ddulliau newydd o weithio mewn partneriaeth a chydweithredu megis y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

**Datblygiadau**

**Sgiliau cynllunio**

Mae'r Rhaglen Gynllunio ar gyfer Dysgu wedi parhau i esblygu a bellach mae'n cynnwys nifer o feysydd sy'n cefnogi datblygu sgiliau a chapasiti i gefnogi cynllunio integredig, ac i gyfrannu at wella ansawdd ac aeddfedrwydd cynlluniau tymor canolig integredig.

Mae'r Rhaglen yn cynnwys:

- Digwyddiadau dysgu ddwywaith y flwyddyn gyda Chynllunwyr y GIG a swyddogion er mwyn dysgu gwersi a rhannu arferion da;
- Cyfres o ddosbarthiadau meistr i fynd i'r afael â meysydd penodol, megis galw a chynllunio capasiti, er mwyn sicrhau cysondeb a gwella cywirdeb cynllunio;
- Rhaglen Academaidd sydd wrthi'n cael ei datblygu i ddarparu dysgu achrededig a gwella sgiliau cynllunio proffesiynol.

Gyda'i gilydd, mae'r dull gweithredu hwn yn gwella galluoedd a chyfleoedd cynllunio yng Nghymru ac yn cefnogi dysgu unigol ac ar y cyd. Mae'r digwyddiadau dysgu a'r dosbarthiadau meistr eisoes yn cael eu cynnig i ystod eang o fynychwyr a thros amser bydd y rhaglen academaidd yn cael ei chynnig yn ehangach.

**Gweithio gyda Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a Byrddau'r Sector Cyhoeddus**

Mae Byrddau Iechyd eisoes yn bartneriaid statudol ar Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol a Byrddau'r Sector Cyhoeddus, lle maent yn cytuno ar flaenoriaethau cyffredin ac amcanion strategol sy'n dylanwadu ar eu cynlluniau. Mae angen i'r trefniadau hyn fynd gam ymhellach yn awr gyda sefydliadau yn chwilio am ragor o ddulliau gweithredu ar y cyd, modelau gofal a chymorth newydd a chyfuno cyllidebau ac yn rhoi hynny ar waith. Bydd y Fframwaith Cynllunio nesaf, sydd i'w gyhoeddi yn ystod hydref 2018, yn rhoi eglurder ynghylch y disgwyliadau a nodir yn y cynllun hirdymor ar gyfer iechyd a gofal i gefnogi a, lle bo hynny'n bosibl, cyflymu'r gwaith hwn, er enghraifft drwy'r Gronfa Drawsnewid a'r Gronfa Gofal Integredig.

***Cymru Iachach* - ein cynllun ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol**

Mae *Cymru Iachach* yn nodi'r uchelgais ar gyfer trawsnewid gwasanaethau iechyd a gofal i bobl yng Nghymru. Mae cynllunio integredig a dull partneriaeth gwirioneddol ar draws sectorau yn darparu sylfaen gadarn ar gyfer gwella a chyflawni'r disgwyliadau sy'n gysylltiedig â gwell canlyniadau a gofal di-dor a nodwyd gyntaf yn yr adolygiad Seneddol. Dros y misoedd nesaf, byddwn yn dechrau gweithredu'r cynllun ac yn edrych ar yr hyn y mae angen ei wneud i gefnogi ymhellach, alinio a sbarduno trefniadau cynllunio ar draws sectorau.

Wrth ymateb i *Cymru Iachach* mae fy swyddogion yn ystyried sut y gellir symleiddio'r system gynllunio yng Nghymru, gan gynnwys cynlluniau tymor canolig integredig. Mae'r gwaith hwn eisoes wedi dechrau ac mae'n cynnwys:

- Ymgysylltu â Chynllunwyr yn fewnol ac yn allanol
- Ystyried sut y gall prosesau a pholisi gefnogi a symleiddio'r trefniadau; er enghraifft, amserlenni a lleihau unrhyw ddyblygu.

Bydd y Fframwaith Cynllunio nesaf yn ceisio symleiddio ac egluro materion lle bynnag y bo modd. Ceir amserlen heriol dros yr haf a fydd yn dechrau ar y gwaith hwn, yn ogystal â nodi'r ysgogiadau ar gyfer newid a chyfleoedd i gyflymu'r arferion da presennol. Yn ogystal, mae gwaith pellach yn cael ei wneud i ysgogi trawsnewid a gwella perfformiad drwy ffrydiau cyllido pwrpasol. Wrth gymhwyso'r ysgogiadau hyn, mae'n bwysig cydnabod bod gan nifer o fyrddau ac ymddiriedolaethau iechyd amrywiaeth o heriau a bydd y gefnogaeth a'r ysgogiadau y bydd eu hangen yn amrywio er mwyn gwneud y mwyaf o'r adnoddau a'r cyllid sydd ar gael. Fel erioed, bydd Llywodraeth Cymru yn taro cydbwysedd rhwng ymyriadau uwchgyfeirio a'r cymorth cynllunio strategol sy'n gysylltiedig â'r ysgogiadau ar gyfer newid sy'n cael eu datblygu.

**Adolygiad o Alldro Ariannol 2017-18**

Cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ddatganiad ysgrifenedig i'r aelodau ar 14 Mehefin yn manylu ar alldro ariannol sefydliadau GIG Cymru yn 2017-18. Roedd chwech o blith deg o sefydliadau yn cydymffurfio â'r ddyletswydd statudol i fantoli'r gyllideb drwy weithredu o fewn eu cyllidebau dros y cyfnod tair blynedd o fis Ebrill 2015 i fis Mawrth 2018. Yn ychwanegol at eu ffigurau alldro, yn ystod 2017-18 cynhyrchodd Aneurin Bevan warged o £2.4 miliwn a chynhyrchodd Cwm Taf warged o £3 miliwn, ac mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno i gario'r symiau hyn ymlaen. Tynnwyd y symiau hyn o ddyraniadau 2017-18 y byrddau, a byddant yn cael eu hailddarparu iddynt yn 2018-19.

Nid oedd pedwar o blith y deg sefydliad wedi cyflawni eu dyletswydd ariannol i fantoli'r gyllideb dros dair blynedd. O ganlyniad, mae'r pedwar sefydliad hyn wedi methu â bodloni eu dyletswydd ariannol statudol ar gyfer y cyfnod tair blynedd, ac o ganlyniad maent wedi cael barn reoleiddiol amodol gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ar eu cyfrifon ar gyfer 2017-18.

I gadarnhau ein disgwyliad o sefydlogi a gwella ar gyfer y pedwar bwrdd hyn, am y tro cyntaf yn 2017-18 gosodwyd cyfansymiau rheoli diffyg ariannol ar gyfer y sefydliadau hyn. Mae manylion y cyfansymiau rheoli a'r alldro terfynol yn y tabl isod.

| Bwrdd Iechyd | Cyfanswm Rheoli Diffyg<br><br>£m | Diffyg alldro terfynol<br><br>£m | Amrywiad i gyfanswm rheoli<br>-<br>Wedi gwella / (wedi gwaethygu)<br>£m |
|---|---:|---:|---:|
| Abertawe Bro Morgannwg | 36.0 | 32.4 | 3.6 |
| Betsi Cadwaladr | 26.0 | 38.8 | (12.8) |
| Caerdydd a'r Fro | 30.9 | 26.8 | 4.1 |
| Hywel Dda | 58.9 | 69.4 | (10.5) |

O ran BIP Hywel Dda, yn 2015-16 a 2016-17, rhoddodd Llywodraeth Cymru gyllid ychwanegol nad yw'n rheolaidd o £14.4 miliwn i'r Bwrdd ym mhob blwyddyn fel cymorth strwythurol tymor byr i gydnabod yr heriau ariannol y mae'n eu hwynebu. Yn ystod 2017-18, ni ddarparwyd unrhyw arian ychwanegol, hyd nes i Lywodraeth Cymru gomisiynu adolygiad cwbl gynhwysfawr o sylfaen cost y Bwrdd. Er mwyn sicrhau gwelliant cyson, ystyriwyd y gostyngiad yn nyraniad y Bwrdd wrth bennu ei gyfanswm rheoli ar gyfer 2017-18.

Cyflawnodd dau sefydliad - Abertawe Bro Morgannwg a Chaerdydd a'r Fro - sefyllfa well o ran diffyg ariannol yn 2017-18 o'i gymharu â 2016-17, gan wella ar y cyfansymiau rheoli diffyg a bennwyd gan Lywodraeth Cymru.

Mae'r holl Fyrddau Iechyd Lleol a adroddodd fod ganddynt ddiffygion ariannol yn 2017-18 wedi derbyn adroddiadau adolygu annibynnol o drefniadau llywodraethu ariannol a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru yn ystod 2017-18, ac maent wedi datblygu a chyhoeddi cynlluniau gweithredu i'w rhoi ar waith. Mae'r cynnydd o ran cyflawni'r camau hyn yn cael ei fonitro gan swyddogion drwy'r cyfarfodydd ymyrraeth rheolaidd gyda'r byrddau hyn.

Yn ogystal â'r adolygiadau llywodraethu ariannol a chyfarfodydd ymyrraeth rheolaidd wedi'u targedu, cynhaliwyd cyfarfodydd cyllid manwl gyda'r sefydliadau hyn ar faterion ariannol penodol megis cynlluniau arbedion, costau cyflogau a niferoedd y gweithlu, cyflwyno adroddiadau a rhagolygon ariannol.  Roedd y cymorth hwn i'r byrddau iechyd hynny yn canolbwyntio ar welliannau yn ystod y flwyddyn a hefyd gwelliannau ar gyfer 2018-19.

Gan ystyried gwarged y ddau fwrdd iechyd a gafodd ei gario ymlaen yn ystod 2017-18, a'r arian ychwanegol untro yn y blynyddoedd blaenorol i Hywel Dda nas darparwyd yn 2017-18, roedd yr alldro net cyffredinol ar gyfer GIG Cymru yn 2017-18 wedi gwella rhywfaint o gymharu â 2016-17, fel y dangosir isod:

| | **£m** |
|---|---|
| **Diffyg net o ran alldro GIG Cymru ar gyfer 2017-18** | **167.0** |
| Addaswyd ar gyfer: | |
| Gwargedion a gariwyd ymlaen i 2018-19 | (5.4) |
| Gostyngiad yn nyraniad Hywel Dda | (14.4) |
| **Alldro 2017-18 wedi'i addasu** | **147.2** |
| **Diffyg net o ran alldro ar gyfer 2016-17** | **147.7** |

Rheolwyd diffyg net y GIG yn 2017-18 o fewn y gyllideb iechyd a gwasanaethau cymdeithasol gyffredinol. Yn amodol ar archwiliad, disgwylir i gyfrifon adnoddau Llywodraeth Cymru ar gyfer 2017-18 ddangos gwarged cymedrol ar gyllidebau refeniw iechyd a gwasanaethau cymdeithasol. Mae hyn yn golygu y cadwyd at y gyllideb gyffredinol tra’n cynnal y ffocws ar sefydliadau unigol lle’r ydym am weld y ddisgyblaeth ariannol yn gwella.

**Rhagolygon ar gyfer y Flwyddyn Ariannol 2018-19**

Ar 13 Mehefin, cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad i'r aelodau yn cadarnhau ei fod wedi cymeradwyo'r cynlluniau tymor canolig integredig o 2018 i 2021 ar gyfer chwe sefydliad yn seiliedig ar gynlluniau cytbwys a chyraeddadwy. Fodd bynnag, ni fu modd i bedwar bwrdd iechyd a oedd yn destun ymyriadau

uwchgyfeirio gyflwyno cynlluniau y gellid eu cymeradwyo ar gyfer y cyfnod hwn, ac felly roeddent yn parhau i weithio ar sail cynlluniau gweithredu blynyddol. Mae tystiolaeth yn barod bod Byrddau Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg a Caerdydd a'r Fro yn parhau i wella gan sicrhau lleihad pellach yn eu diffyg arfaethedig. (Atodiad 1)

Gwnaeth Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol gyhoeddiad ym mis Mai ar ganlyniad yr adolygiad cwbl gynhwysfawr o Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda. Yn rhannol, cadarnhaodd yr adolygiad fod Hywel Dda yn wynebu heriau gofal iechyd unigryw sydd wedi cyfrannu at ddiffygion cyson y Bwrdd a'r sefydliadau a'i rhagflaenodd.  Mewn ymateb i'r canfyddiadau hyn, cymeradwyodd Ysgrifennydd y Cabinet benderfyniad i ryddhau £27 miliwn o gyllid rheolaidd ychwanegol. O ganlyniad i'r cyllid ychwanegol hwn, disgwyliwn i Hywel Dda weithredu o fewn diffyg sylweddol is na'r blynyddoedd blaenorol.

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn parhau i achosi pryderon yn y meysydd cynllunio ariannol a rheoli. Roedd diffyg y Bwrdd yn uwch na'r cyfanswm rheoli yn 2017-18, a hynny o bron i £13 miliwn, ac mae ei gynllun presennol ar gyfer 2018-19 yn dangos, ar y cam hwn, mai cyfyngedig yw’r sefydlogi a’r gwelliant ers y llynedd. Byddwn yn cynyddu ein hymyrraeth ariannol yn y sefydliad dros yr haf gyda mewnbwn yr Uned Cyflenwi Cyllid a sefydlwyd yn ddiweddar, ochr yn ochr â'n proses atebolrwydd reolaidd gyda'i dîm gweithredol.

Rydym wedi canolbwyntio'n benodol ar fynd i'r afael â'r diffygion sylfaenol net yn sefydliadau'r GIG fel dangosydd perfformiad allweddol wrth wella sefydlogrwydd ariannol. Mae'r dangosydd yn addasu ar gyfer ffrydiau cyllido rheolaidd a chamau i sicrhau arbedion, yn ogystal â chael gwared ar unrhyw wariant afreolaidd. Er bod y dadansoddiad yn dal i gael ei adolygu a'i herio gan swyddogion â thimau cyllid y GIG, yr arwyddion cadarnhaol yw y bydd y risg yn cael ei leihau o 3 y cant o'r gwariant yn y flwyddyn bresennol i lai na dau y cant erbyn diwedd y flwyddyn. Llwyddwyd i gyrraedd y sefyllfa hon trwy gynyddu’r ffocws ar gynllunio ac ar ddisgyblaeth ariannol.

**Effeithlonrwydd a Gwerth am Arian**

Mae'r Grŵp Effeithlonrwydd, Gwerth Gofal Iechyd a Gwella Cenedlaethol yn parhau i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r agenda effeithlonrwydd, gan ganolbwyntio ar wella effeithlonrwydd technegol ac effeithlonrwydd o ran dyrannu.  Mae'r Grŵp Effeithlonrwydd yn gweithio gyda, a thrwy, grwpiau Cyfarwyddwyr Cymru Gyfan, ar ddatblygu a galluogi cyfleoedd gwella penodol ar sail system gyfan, er enghraifft:

- Atlas Amrywiad gyda Chyfarwyddwyr Meddygol
- Llunio'r Rhestr Dyletswyddau Orau Bosibl gyda Chyfarwyddwyr Nyrsio

- Cyflawni ar optimeiddio meddyginiaethau gan weithio gyda Phrif Fferyllwyr
- Datblygu Fframwaith Effeithlonrwydd gyda Chyfarwyddwyr Cyllid
- Trwy gyfarwyddwyr meddygol a Chydwasanaethau caffael, safoni gweithdrefnau clinigol megis Prosthesis y Glun, a nwyddau traul eraill fel trocarau cost uchel
- Datblygu a chyflwyno cap drwy'r system gyfan ar gyfraddau tâl staff locwm meddygol ac asiantaethau.

Yn ogystal â rhaglen y Grŵp Effeithlonrwydd, mae gwaith arall yn mynd rhagddo o ran hybu datblygiad Gofal Iechyd Seiliedig ar Werth, a chryfhawyd hynny drwy benodi Arweinydd Clinigol ar gyfer Gofal Iechyd Seiliedig ar Werth yng Nghymru. Mae'r gwaith yn parhau i ddatblygu'r dull gweithredu o ran caffael seiliedig ar werth, mesur canlyniadau a gwerthuso. Mae gan GIG Cymru bartneriaeth strategol gyda'r Consortiwm Rhyngwladol ar gyfer Mesur Canlyniadau Iechyd i gefnogi'r gwaith hwn, sy'n cynnwys datblygu gwaith mewn meysydd peilot megis Canser yr Ysgyfaint.

Mae'r wybodaeth uchod yn cynnwys enghreifftiau arwyddocaol o'r modd y mae grwpiau system a grwpiau cymheiriaid yn llunio ymateb cydlynus a chyson i'r heriau sy'n codi, ac yn sicrhau gwelliant ariannol. Ymhlith effeithiau hyn mae:

- Gwella'r gyfradd ddefnyddio ar gyfer meddyginiaethau Biodebyg trwy ddull a gymeradwywyd gan y Grŵp Effeithlonrwydd ac a arweiniwyd gan grŵp cymheiriaid prif fferyllwyr y GIG.  Mae hyn wedi arwain at gynnydd o 35% yn y defnydd o infliximab Biodebyg drwy Gymru rhwng Ionawr a Hydref 2017 a chynydd o tua 30% yn y defnydd o etanercept Biodebyg rhwng Ionawr a Thachwedd 2017. Mae'r effaith flynyddol o ran arbedion mewn perthynas â chynyddu'r cyfraddau ar gyfer meddyginiaethau Biodebyg mewn un Bwrdd iechyd yn unig (Aneurin Bevan) yn £0.7 miliwn y flwyddyn.

- Cefnogi datblygiad cynlluniau Optimeiddio Medyginiaethau, drwy Brif Fferyllwyr, gan sicrhau'r arbedion ychwanegol gorau posibl trwy drefnu bod Pregabalin generig ar gael.

- Trwy Gyfarwyddwyr Cyllid a chaffael cydwasanaethau yn nodi a gweithredu Rhaglenni Talu'n Gynnar, rhagwelir y bydd GIG Cymru ar ei hennill o £8 miliwn dros gyfnod o 5 mlynedd.

- Cyflwyno cap ar gyfraddau staff locwm ac asiantaethau ym mis Tachwedd 2017. Roedd cyfanwm y gwariant ar staff locwm meddygol a deintyddol a gweithwyr asiantaeth y talwyd cyfraddau premiwm iddynt wedi gostwng £13.4 miliwn yn ystod y cyfnod rhwng Tachwedd 2017 – Mawrth 2018 o'i gymharu â'r un cyfnod yn 2016-17.

- Cynyddu’r lefelau safoni ar gyfer cynhyrchion clinigol drwy gaffael cydwasanaethau gan weithio gyda staff clinigol a Byrddau Iechyd. Cafodd y gwelliant posibl drwy safoni Trocars, offeryn allweddol a ddefnyddir mewn triniaethau laparosgopeg, ei nodi fel £0.7 miliwn y flwyddyn ac fe wnaeth y Byrddau Iechyd fwrw ymlaen â hynny.

- Datblygu dull gweithredu ar gyfer Gofal Iechyd Seiliedig ar Werth drwy roi rhaglen TDABC (Time-Driven Activity-Based Costing) ar waith ar gyfer llawdriniaethau Cataract, gan nodi amrywiaeth sylweddol o ran llwybrau, a datblygu gwaith TDABC yn lleol, er enghraifft gwaith Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan ar y llwybr ar gyfer Canser y Prostad. Trwy’r Bwrdd Cenedlaethol ar gyfer Gofal wedi’i Drefnu, mae Cyfarwyddwyr Cyllid wrthi’n cefnogi’r asesiad TDABC ar gyfer Llawdriniaethau Pen-glin er mwyn darganfod unrhyw amrywiaethau posibl diangen a chyfleoedd i wella.

Trwy’r Uned Cyflawni Cyllidol a sefydlwyd yn ddiweddar, mae Fframwaith Effeithlonrwydd wedi’i sefydlu er mwyn sicrhau trefn fwy systematig o rannu a nodi cyfleoedd i wella ar draws sefydliadau GIG Cymru. Mae hyn yn canolbwyntio ar:

- Ddadansoddiadau ar sail iechyd y boblogaeth er mwyn hybu’r cyfleoedd i fod yn effeithlon wrth ddyrannu. Mae hyn yn cymryd i ystyriaeth yr amrywiaeth mewn gwariant yn ôl sefydliad ac yn ôl categori’r clefyd, ac mae’n defnyddio meddalwedd Health-maps Wales i nodi amrywiaethau mewn atgyfeiriadau ar draws clystyrau a phractisau.
- Dadansoddiad o effeithlonrwydd technegol a chynhyrchiant, a chyfleoedd i wella cynhyrchiant gan ystyried perfformiad sefydliadau yn erbyn eu cymheiriaid sy’n gweithio yn y ffordd orau.
- Cymharu cynlluniau arbed a meini prawf penodol eraill ar draws sefydliadau er mwyn nodi cyfleoedd ar gyfer gwelliannau pellach a rhoi’r arferion gorau ar waith drwy’r system.
- Cydlynu golwg ar y cyd ar wybodaeth yn seiliedig ar system gyfan i helpu i barhau i ddatblygu cynlluniau a hybu gwelliant.

Trwy Gyfarwyddwyr Cyllid ac uwch dimau, mae’r Fframwaith yn cael ei ddefnyddio i fireinio a pharhau i datblygu cynlluniau 2018-19, a bydd yn parhau i gael ei ddatblygu i helpu cynlluniau sefydliadau ar gyfer 2019-20.

Trwy wneud cymariaethau manwl rhwng cynlluniau arbed sefydliadau yn erbyn diffiniadau safonol y cytunwyd arnynt, mae hyn wedi arwain at:

- Ddatblygu fframwaith a dull gweithredu cyson ar draws sefydliadau
- Nodi meysydd i’w gwella ar draws sefydliadau, o ran dull gweithredu ac o ran cynnwys

- Meithrin dealltwriaeth o’r arferion da a’r arferion gorau, gan alluogi sefydliadau mewn Ymyriadau wedi’u Targedu i ystyried gwelliannau posibl yn unol â sefydliadau sydd â chynlluniau wedi’u cymeradwyo.

Rhagwelir y bydd y camau gweithredu a’r gwaith a ddisgrifir uchod yn parhau i gael eu datblygu a’u cyflawni yn gyflym yn ystod 2018-19 er mwyn parhau i gefnogi gwelliant yn y maes hwn.

**Argymhellion Archwilydd Cyffredinol Cymru**

Gwnaeth Archwilydd Cyffredinol Cymru ddau argymhelliad yn ei adroddiad yn 2017 a nododd hefyd ddau faes cyffredinol i Lywodraeth Cymru ganolbwyntio arnynt. Amlinellir ymateb cychwynnol Llywodraeth Cymru a'r sefyllfa ddiweddaraf yn Atodiad 2.

**Atodiad 1**

## Cynlluniau Tymor Canolig Integredig

### Y broses

Nod y broses asesu yw bod yn gadarn a phenderfynu a yw cynlluniau'n realistig ac yn fforddiadwy. Mae'r elfennau allweddol yn cynnwys:

- dadansoddiad trawsadrannol / aml-bolisi ym mis Chwefror 2018 ar ôl cyflwyno'r cynlluniau ym mis Ionawr 2018 ac eto ym mis Ebrill 2018, ar ôl i'r cynlluniau gael eu cyflwyno ym mis Mawrth 2018;
- defnyddio Bwrdd Cynllunio, dan gadeiryddiaeth Dirprwy Brif Weithredwr GIG Cymru a chyda nifer o aelodau Tîm Cyfarwyddwyr Gweithredol HSSG, i arwain a goruchwylio'r broses asesu a chymeradwyo;
- defnyddio cyfarfodydd amlbroffesiwn ar lefel weithredol rhwng HSSG a sefydliadau'r GIG, gan gynnwys fel rhan o gyfarfodydd y Tîm Gweithredol ar y Cyd (JET) a chyfarfodydd Ymyriadau wedi'u Targedu, er mwyn galluogi'r cynllun i gael ei herio a chael eglurder a sicrwydd.
- Mae swyddogion wedi cwrdd â phob Bwrdd ac Ymddiriedolaeth Iechyd o leiaf ddwywaith rhwng mis Ionawr a mis Mawrth. Ar gyfer rhai sefydliadau, mae nifer y cyfarfodydd wedi bod yn sylweddol uwch
- Treuliwyd cryn amser yn dadansoddi ac yn adolygu'r cynlluniau. Mae hyn wedi bod ar ffurf adolygiadau polisi unigol, arweinwyr polisi yn dod ynghyd i ystyried a thrafod pob sefydliad a thrafodaethau a phenderfyniadau yn y Bwrdd Cynllunio. Goruchwylir y broses hon gan y Cyfarwyddwr.
- Bu cyfathrebu parhaus â sefydliadau fel rhan o'r ddolen adborth ar ffurf llythyrau oddi wrth Ddirprwy Brif Weithredwr GIG Cymru a chyfarfodydd ag ef. Ategwyd y rhain mewn sawl achos gan drafodaethau adborth wedi'u teilwra rhwng arweinwyr cynllunio a pholisi HSSG.

### Crynodebau sefydliadol lefel uchel

**<u>BIP Aneurin Bevan</u>**

Mae Aneurin Bevan wedi darparu cynllun datblygedig ar gyfer 2018/21 ac mae ganddo hanes da o gyflawni. Yn ôl y disgwyl, roedd sicrwydd ynghylch cyflawni Ysbyty Athrofaol Grange yn agwedd bwysig ar y cynllun.

**<u>Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf</u>**

Mae Cwm Taf wedi darparu cynllun cryf ar gyfer 2018/21 sy'n dangos lefel uchel o ymgysylltu sefydliadol wrth ddatblygu ei gynllun. Mae'r sefydliad wedi dangos uchelgais yn ei gynlluniau, yn enwedig o ran iechyd a gofal sylfaenol lleol ac ymgysylltu â phartneriaid awdurdodau lleol. Mae'r bwrdd iechyd wedi mynegi ymrwymiad i gynllunio rhanbarthol a fydd yn cefnogi rhanbarth de-ddwyrain Cymru.

**BIP Powys**

Mae Powys wedi darparu cynllun cadarn dros y tair blynedd sy'n parhau i ddatblygu ei ddulliau integredig. Mae gan y Prif Weithredwr rôl ar y cyd ar draws y bwrdd iechyd a'r awdurdod lleol, gan gynnwys y gwasanaethau cymdeithasol. Datblygwyd cynllun tymor canolig integredig y Bwrdd yn benodol gyda golwg ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, egwyddorion datblygu cynaliadwy (y pum ffordd o weithio), ac yng nghyd-destun Cyd-strategaeth iechyd a Gofal Powys a gyhoeddwyd yn ddiweddar. Mae hyn wedi gwella'r ffocws ar ei ddulliau integreiddio a chydweithredol. Mae datblygu iechyd a gofal sylfaenol lleol yn parhau i fod yn ganolog i'w gynlluniau. Mae'r bwrdd iechyd yn parhau i ddatblygu trefniadau comisiynu a monitro allanol ac o fewn Cymru i olrhain a deall y gwasanaethau a ddarperir i'w gleifion.

**Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru**

Datblygwyd cynllun tymor canolig integredig yr Ymddiriedolaeth yn benodol gyda golwg ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, egwyddorion datblygu cynaliadwy (y pum ffordd o weithio), ac yng nghyd-destun cynllun hirdymor strategol arfaethedig yr Ymddiriedolaeth.

**Ymddiriedolaeth GIG Felindre**

Yng nghynllun Felindre amlinellwyd rhaglen waith uchelgeisiol ar gyfer Trawsnewid Gwasanaethau Canser gan gynnwys sefydlu ysbyty newydd. Mae'r cynllun yn darparu mecanwaith i weld y trefniadau comisiynu a phartneriaeth ar y cyd sydd eu hangen ar gyfer datblygiad mor gymhleth. Mae'r rhain yn cynnwys:

- parhau i ddatblygu Gwasanaeth Gwaed Cymru;
- modelau gofal yn nes adref; a,
- strategaethau ar gyfer cyflwyno cyffuriau a thriniaethau newydd mewn partneriaeth â byrddau iechyd.

**Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru**

Mae cynllun tymor canolig integredig Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru ar gyfer 2018-21 yn adeiladu ar y gwaith blaenorol ac ymgysylltu â phartneriaid ac yn darparu cynllun cynaliadwy a chytbwys a gytunwyd gyda'r Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys.

**Sefydliadau a ddarparodd gynlluniau blynyddol**

Nid oedd modd i bedwar sefydliad ddatblygu cynlluniau tymor canolig integredig a oedd yn gynaliadwy nac yn ariannol gytbwys dros dair blynedd ac felly nid oedd modd i'w Byrddau eu cymeradwyo. Roedd yn ofynnol i'r sefydliadau hyn ddatblygu cynlluniau blynyddol sy'n cynnwys sut y bydd y Byrddau yn gweithio tuag at eu huchelgais o ddatblygu cynllun tymor canolig integredig cytbwys ar gyfer cylch 2019/22.

Mae'r sefydliadau hyn hefyd yn wynebu lefelau uwch o ymyriadau uwchgyfeirio - BIP Abertawe Bro Morgannwg, Caerdydd a'r Fro a Hywel Dda (sydd ar hyn o bryd yn destun Ymyriadau Wedi'u Targedu) a BIP Betsi Cadwaladr (mewn Mesurau Arbennig).

Cyflwynwyd cynlluniau blynyddol yn dilyn ystyriaeth gan eu Byrddau ond mae pob un ohonynt yn gofyn am lefelau datblygu amrywiol er mwyn cynhyrchu cynlluniau cynaliadwy sy'n ariannol gytbwys. Mae datblygiad y cynlluniau blynyddol yn cael ei oruchwylio fel rhan o'r trefniadau ymyrraeth a bydd uwch swyddogion yn parhau i weithio'n agos gyda phob sefydliad i'w cefnogi i gwblhau cynlluniau blynyddol 2018/19 a chyflwyno cynlluniau tymor canolig integredig ar gyfer 2019 lle bo hyn yn bosibl.

**Atodiad 2**

**Ymateb Llywodraeth Cymru i argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol**

**Argymhelliad 1**
**Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn:**
**a) nodi'n gliriach yn ei chanllawiau sut y dylai cyrff y GIG sydd â diffyg, gan weithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru, adfer eu sefyllfa ariannol er mwyn cyflawni'r ddyletswydd mewn blynyddoedd i ddod; a**
**b) gwella ei ffurflenni monitro drwy gynnwys y sefyllfa yn erbyn y cyfnodau treigl o dair blynedd, nid dim ond y darlun blynyddol**

**Ymateb Llywodraeth Cymru *(a ddarparwyd ym mis Gorffennaf 2017)*:**

***Derbyniwyd yn rhannol***
Nid ydym yn derbyn bod angen arweiniad ychwanegol gan Lywodraeth Cymru ar gyrff y GIG o ran y camau y mae angen iddynt eu cymryd i adfer eu sefyllfa ariannol os oes ganddynt ddiffyg er mwyn cyflawni'r ddyletswydd yn y dyfodol. Manylwyd ar gyflawni'r ddyletswydd yn y Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Ddeddf, a chafodd ei nodi hefyd yng Nghylchlythyr Iechyd Cymru (2016) 054 - Dyletswyddau Ariannol Statudol Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod yr angen i sicrhau bod holl aelodau newydd y bwrdd yn deall dyletswyddau'r sefydliad yn llawn, a bydd y gofyniad hwn yn cael sylw yn y Rhaglen Sefydlu ar gyfer Aelodau Annibynnol.

Rydym yn derbyn yr argymhelliad bod angen i'n proses fonitro reolaidd gynnwys persbectif tair blynedd yn ogystal â'r sefyllfa flynyddol ar gyfer y sefydliadau hynny sy'n gweithio ar sail cynlluniau tair blynedd cymeradwy. Byddwn yn ystyried ychwanegiadau y mae angen inni eu gwneud i'r broses fonitro i gynnwys y safbwynt hwn. Bydd hyn yn cael ei gwblhau erbyn 31 Hydref 2017.

**Diweddariad gan Lywodraeth Cymru, Mehefin 2018:**

**Sefydlu Aelodau Annibynnol**

Gan adeiladu ar y sesiwn ddatblygu lwyddiannus i Aelodau Annibynnol ar Gyllid a Llywodraethu a drefnwyd gan yr Academi Gyllid ac a gynhaliwyd ym mis Mehefin 2016, mae swyddogion Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio gydag Academi Cymru ar:

- Ganllaw Sefydlu i Aelodau Annibynnol Byrddau
- Rhaglen Sefydlu i Aelodau Annibynnol Byrddau

Roedd Modiwl 2 y Rhaglen Sefydlu ar "Gynllunio, Adnoddau a Chyflawni" yn cynnwys sesiwn benodol ar Ddyletswyddau Ariannol GIG Cymru, ac yn cwmpasu'r ddyletswydd cynllunio a mantoli'r gyllideb. Roedd Modiwl 2 hefyd yn cynnwys cyflwyniadau gan Gyfarwyddwr Cyllid y GIG a Chyfarwyddwr Cynllunio, yn ogystal â chyflwyniad gan Swyddfa Archwilio Cymru. I gefnogi aelodau Annibynnol wrth iddynt graffu ac adolygu'r Cynlluniau Tymor Canolig Integredig drafft perthnasol a gyflwynwyd yng nghyfarfodydd y Byrddau ym mis Ionawr, cynhaliwyd Modiwl 2 yn fwriadol ar 16 Ionawr 2018.

Mae'r Rhaglen Sefydlu i Aelodau Annibynnol Byrddau gan Academi Cymru yn ategu'r rhaglenni sefydlu a datblygu a drefnir yn lleol mewn Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG.

**Ffurflenni Monitro**

Cynhaliwyd trafodaethau gyda staff cyllid y GIG ym mis Hydref 2017 ynglŷn â chyflwyno tablau monitro tair blynedd. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw ofynion penodol ar gyfer tablau monitro tair blynedd wedi'u cynllunio ar gyfer y sefydliadau hynny â chynlluniau tymor canolig cymeradwy. Mae Fframwaith Cynllunio'r GIG yn ei gwneud yn ofynnol i fyrddau ac ymddiriedolaethau iechyd gynnal Adolygiad Canol Blwyddyn ar gyflawni'r cynllun, gan gyfeirio'n benodol at edrych ar oblygiadau, canlyniadau a newidiadau posibl i flynyddoedd 2 a 3 y cynllun. Mae Llywodraeth Cymru yn adolygu'r cynnydd yn ffurfiol yng nghyfarfodydd y Tîm Gweithredol ar y Cyd bob dwy flynedd gyda phob sefydliad.

**Argymhelliad 2**

**Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru gwblhau'r adolygiad o'i fformiwla gyllido ar gyfer byrddau iechyd yn fuan er mwyn sicrhau bod amrywiadau mewn lefelau cyllido yn adlewyrchu gwahaniaethau yn anghenion iechyd poblogaethau a phenderfynyddion eraill costau gofal iechyd yn briodol.**

**Ymateb Llywodraeth Cymru *(a ddarparwyd ym mis Gorffennaf 2017)*:**

***Derbyniwyd***

Cwblhawyd Cam 1 o'r adolygiad dyrannu adnoddau o fewn elfen y Gyfundrefn Gyllid ar gyfer Law yn Llaw at Iechyd. Rydym yn bwriadu bwrw ymlaen â Cham 2 maes o law. Mae cynigion ac amserlen y prosiect yn cael eu datblygu a byddant yn cael eu rhannu gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon.

**Diweddariad gan Lywodraeth Cymru, Mehefin 2018:**

Mae cynigion yn cael eu datblygu ar gyfer Cam 2 o'r Adolygiad Dyrannu Adnoddau. Bydd y gwaith hwn yn adeiladu ar yr arbenigedd a'r gwersi o Gam 1, canfyddiadau'r

Adolygiad Cwbl Gynhwysfawr diweddar ym Mwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda, dulliau fformiwla ariannu mewn gwledydd tebyg, megis Seland Newydd, yr Alban a Lloegr, a blaenoriaethau polisi Llywodraeth Cymru hefyd.

Er enghraifft, cyd-destun yr Adolygiad Cwbl Gynhwysfawr oedd bod cyfluniad y gwasanaethau yn Hywel Dda yn golygu bod gormod o gostau yn cael eu cynhyrchu i'r Bwrdd, ond nododd y canfyddiadau allweddol mai nodweddion y boblogaeth, hynny yw ei demograffeg, yn hytrach na chyfluniad y gwasanaethau a oedd yn bennaf cyfrifol am y gost ormodol. Y goblygiad, sydd i'w brofi yn y gwaith adolygu, oedd efallai nad yw'r fformiwla bresennol yn cydnabod yn ddigonol yr anghenion o ran oed a rhyw a chromlin y gost nac yn rhoi digon o bwys ar hynny. O gofio'r demograffeg newidiol, a'r newidiadau a ragwelir, o fewn y boblogaeth, o ran ei maint a'r gymysgedd o ran oedran/rhyw, bydd hyn yn elfen hanfodol o'r adolygiad a'r broses o ddatblygu fformiwla.

**Meysydd cyffredinol Archwilydd Cyffredinol Cymru**

a mynd i'r afael â'r cylch cyllido lle mae symiau sylweddol o arian yn cael eu rhoi i gyrff y GIG tua diwedd y flwyddyn ariannol; yn ein barn ni, nid yw parhau â'r patrwm hwn yn gynaliadwy; a

b achub ar y cyfle a gynigir gan yr Adolygiad Seneddol o Iechyd a Gofal, y strategaeth newydd sy'n cael ei datblygu ar gyfer y GIG a chynlluniau hirdymor lleol sy'n cael eu datblygu gan gyrff y GIG i roi cyfeiriad wedi'i ddiweddaru a chliriach i wasanaethau'r GIG, yn arbennig y newid i wasanaethau mwy rhanbarthol a chenedlaethol

**Ymateb Llywodraeth Cymru:**

a. Mae Llywodraeth Cymru rhoi'r gorau i'r arfer o neilltuo symiau sylweddol o arian yn hwyr yn y flwyddyn. O ran 2017-18, cafodd holl gyrff y GIG godiad o 2% mewn cyllid i ariannu pwysau'n gysylltiedig â chwyddiant a phwysau eraill o ran cost a gadarnhawyd cyn dechrau'r flwyddyn ariannol. Darparwyd rhagor o gyllid i BIP Aneurin Bevan a BIP Cwm Taf ym mis Mehefin 2017 i gefnogi eu cynlluniau tymor canolig cymeradwy. Yn dilyn hyn, yr unig arian ychwanegol a ddarparwyd i gyrff y GIG oedd ar gyfer blaenoriaethau penodol. Roedd hyn yn cynnwys £50 miliwn a gyhoeddwyd ym mis Awst 2017 i wella amseroedd aros, a chyhoeddwyd £10 miliwn ym mis Ionawr 2018 i gydnabod y pwysau eithafol dros y gaeaf a gafodd iechyd a gwasanaethau cymdeithasol.

b. Cyhoeddwyd *Cymru Iachach: ein cynllun ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol* ar 11 Mehefin. Mae hwn yn nodi ein hymateb i'r Adolygiad Seneddol a gyhoeddwyd ym mis Ionawr, gyda chamau penodol y byddwn yn eu gweithredu dros y tair blynedd nesaf. Mae hyn yn cynnwys ymrwymiad i ddatblygu cynllun clinigol cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau iechyd

arbenigol sy'n nodi ein dull strategol o ddarparu gwasanaethau iechyd diogel o ansawdd uchel sy'n diwallu anghenion pobl ledled Cymru erbyn diwedd 2019.

# Eitem 4

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol/
Prif Weithredwr GIG Cymru
Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

**Director General Health and Social Services/
NHS Wales Chief Executive
Health and Social Services Group**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Nick Ramsay AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

2 Gorffennaf 2018

Annwyl Mr Ramsay

**Gwybodeg GIG Cymru**

Yn dilyn eich gwahoddiad i fod yn bresennol yng nghyfarfod y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar 16 Gorffennaf, rwy'n gobeithio y bydd yr ymateb cychwynnol hwn sy'n mynd i'r afael â'r pryderon o gymorth i'r Pwyllgor cyn y sesiwn.

Yn gyntaf, hoffwn sicrhau aelodau'r Pwyllgor fy mod yn deall natur y feirniadaeth a welir yn adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru. Roedd yr adroddiad hwnnw yn tynnu sylw at nifer o wendidau sylweddol a gafodd eu nodi yn ystod ymchwiliadau'r Swyddfa Archwilio ac yr ymatebais iddynt yn fy ngohebiaeth wreiddiol. Rwyf wedi ysgrifennu i roi sicrwydd am ein dull gweithredu, i nodi'r datblygiadau sydd ar waith ers y gwaith maes, gan gynnwys newidiadau i agenda a ffocws Bwrdd Rheoli Gwybodeg GIG Cymru ynghyd â dulliau gweithredu newydd o ran blaenoriaethu, er enghraifft, sy'n faterion sy'n cael eu nodi yn yr adroddiad. Ar yr un pryd, darperais sylwadau ar y cynnydd o ran datblygiadau gwybodaeth a thechnoleg, yn enwedig yng nghyd-destun y wlad gyfan yn hytrach na'r sefydliad yn unig. Fodd bynnag, er ein bod wedi gwneud cynnydd, rwy'n derbyn bod hynny wedi digwydd yn arafach nag y byddem wedi ei ddymuno oherwydd cymhlethdod cyflwyno systemau newydd gan ystyried yr amrywiol systemau sydd eisoes ar waith. Rwy'n cytuno bod angen inni ysgogi gwelliannau yn y dyfodol, a mynd ati i wneud hynny yn gyflymach.

Roedd yr Adolygiad Seneddol diweddar o Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru hefyd yn nodi'r heriau a wynebir ar draws y gwasanaeth gan alw am weithredu o ran darparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Roedd ei adroddiad yn amlinellu'n glir yr angen i arloesi a sbarduno datblygiadau ym maes technoleg a seilwaith. Mae hyn hefyd yn cyd-fynd ag asesiad Swyddfa Archwilio Cymru.

Ar 11 Mehefin, mewn ymateb i'r Adolygiad Seneddol, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru 'Cymru Iachach: ein Cynllun Iechyd a Gofal Cymdeithasol' sy'n amlinellu'r weledigaeth hirdymor ar gyfer 'system gyfan iechyd a gofal cymdeithasol' yn y dyfodol, gan ganolbwyntio ar iechyd a llesiant ac atal salwch. Mae'r bennod Digidol a Data yn dangos bod technoleg ddigidol yn ffordd bwysig o sicrhau trawsnewid ac mae'n amlinellu nifer o feysydd blaenoriaeth i'w gweithredu, gan gynnwys yr ymrwymiad i gynyddu'r buddsoddiad mewn seilwaith digidol, technolegau a chapasiti'r gweithlu yn sylweddol. Mae'n derbyn yr asesiad

gan yr Adolygiad Seneddol. Rwy’n dweud yn glir y bydd technoleg ddigidol yn ffordd bwysig o drawsnewid gwasanaethau ledled Cymru, a bydd angen i’n systemau adlewyrchu’n well y ffordd y mae dinasyddion yn defnyddio technoleg yn eu bywydau o ddydd i ddydd. Wedi dweud hynny, mae gennym hefyd gyfrifoldeb i sicrhau y gellir darparu gofal drwy’r systemau presennol wrth inni gefnogi’r cyfnod pontio ac yn hollbwysig, rhaid inni gadw data a chofnodion gofal yn ddiogel ac yn hygyrch.

Yn dilyn y gymeradwyaeth ym Mwrdd Rheoli Gwybodeg GIG Cymru fis diwethaf, rydym wrthi’n trefnu adolygiadau ar bensaernïaeth y systemau a’r model llywodraethiant ar gyfer gwybodeg yn GIG Cymru ar ôl i argymhellion ehangach ar gyfer llywodraethiant a swyddogaethau GIG Cymru gael eu nodi yn ‘Cymru Iachach’. Bydd angen i’r adolygiad ar bensaernïaeth y system fynd i’r afael â’r cydbwysedd rhwng y fframweithiau cenedlaethol a chyflawni’n lleol, a chymhwyso rôl nifer o gyrff cenedlaethol. Bydd yr adolygiad o lywodraethiant systemau gwybodeg yn ystyried craffu a thryloywder, ynghyd â threfniadau llywodraethu ac atebolrwydd cyffredinol. Bydd hyn yn adeiladu ar argymhellion Swyddfa Archwilio Cymru ac yn cyd-fynd â'r ymrwymiadau a wnaed yn y ddogfen 'Cymru Iachach' i adolygu swyddogaethau cynghori arbenigol a chenedlaethol.

Nodaf y llythyr a gyflwynwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ar 8 Mehefin ynghylch y digwyddiadau sy'n effeithio ar argaeledd systemau gwybodeg clinigol cenedlaethol. Rwy'n cydnabod y bydd cadernid y system a threfniadau parhad busnes yn destun pryder i'r Pwyllgor er nad oeddent yn rhan o adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru. Roeddwn am ddarparu sylwadau ychwanegol cyn 16 Gorffennaf.

Ym mis Ionawr, Mawrth ac Ebrill eleni, collodd y GIG yng Nghymru wasanaeth y ganolfan ddata genedlaethol deirgwaith. Fe wnaeth pob achlysur effeithio ar fynediad at nifer o systemau TG y gwasanaeth iechyd. Yn ogystal â hynny, mae System Rheoli Gwybodaeth Labordy Cymru a System Gwybodaeth Rhwydweithiau Canser Cymru hefyd wedi dioddef colli gwasanaeth.

Yn syth ar ôl nodi’r diffyg yng ngwasanaeth y ganolfan ddata, aethpwyd ati ar unwaith ar lefel leol a chenedlaethol i ddatrys y mater yn gyflym, gan sicrhau bod cynlluniau parhad busnes yn cael eu rhoi ar waith yn ôl yr angen, a bod y systemau yn ôl yn gweithio mor gyflym a diogel â phosibl. Pan gafodd Llywodraeth Cymru wybod am hyn, aeth ati ar unwaith i ofyn am sicrwydd bod ymchwiliadau yn cael eu cynnal er mwyn gweithredu’n brydlon. Yn dilyn hynny, fe wnaeth Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru gadarnhau nad yr un gwraidd oedd i’r broblem ar y tri achlysur, a’u bod wedi digwydd am wahanol resymau. Roedd y diffyg cyntaf yn ymwneud â phroblem â waliau tân, mater cysylltedd y rhwydwaith oedd yr ail a mater yn ymwneud â gweinydd oedd y trydydd. Ysgrifennodd Andrew Griffiths at Brif Weithredwyr yr holl Fyrddau Iechyd a’r Ymddiriedolaethau ar 25 Mehefin yn amlinellu’r camau sy’n cael eu cymryd gan Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru a Bwrdd Rheoli’r Seilwaith (lle cynrychiolir y byrddau iechyd a’r ymddiriedolaethau).

Mae Llywodraeth Cymru wedi arwain y gwaith o greu fframwaith cyfathrebu ar gyfer ymateb i ymosodiadau seiber a digwyddiadau TGCh yng Nghymru i fynd i'r afael â gwers allweddol a ddysgwyd yn ystod y diffygion yn y gwasanaethau. Mae hyn wedi’i ddatblygu ar y cyd â Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru a chynrychiolwyr o'r Byrddau Iechyd a bydd yn sicrhau bod gwybodaeth glir yn cael ei rhoi’n gyson i’r holl randdeiliaid pan fo ymosodiad seiber neu ddigwyddiad TGCh mawr yn mynd rhagddo. Mae'r broses genedlaethol hon a ddisgrifir yn y fframwaith eisoes wedi'i dilyn yn ystod digwyddiadau TGCh, ac mae'r adborth gan y gwasanaeth wedi bod yn gadarnhaol ar y cyfan. Cyhoeddwyd y fframwaith hwn yn ffurfiol ar 14 Mehefin 2018.

O ran sefydlogrwydd System Rheoli Gwybodaeth Labordy Cymru, collwyd y gwasanaeth ar 14 a 15 Mai o ganlyniad i newid cyffredinol i'r cod profi, er i hyn weithio'n iawn yn yr amgylchedd profi. Cafodd Bwrdd Gwasanaeth System Rheoli Gwybodaeth Labordy Cymru eglurhad ynghylch y diffygion ac mae'r Cadeirydd wedi cadarnhau bod y Bwrdd yn fodlon â'r camau a gymerwyd. Yn ogystal â hynny, darparodd Llywodraeth Cymru £1.32 miliwn o gyllid i uwchraddio seilwaith y System a mis diwethaf, cafodd y storfa ddata ei huwchraddio a gosodwyd caledwedd newydd yn lle'r hen galedwedd oedd dros saith mlwydd oed. Bydd y gwaith o uwchraddio'r caledwedd hwn wedi'i gwblhau erbyn diwedd mis Awst.

Mae System Gwybodaeth Rhwydweithiau Canser Cymru wedi profi materion cadernid a nodwyd yr angen i gael system newydd yn lle'r system bresennol yn y Cynllun Cyflawni ar gyfer Canser a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2016. O ganlyniad i hynny, darparodd Llywodraeth Cymru gyllid i Ymddiriedolaeth GIG Felindre er mwyn datblygu opsiynau ar gyfer hyn. Datblygwyd arfarniad amlinellol o'r opsiynau yn ystod 2017, dan arweiniad y Grŵp Gweithredu ar Ganser, a argymhellodd i Ganolfan Canser Felindre fabwysiadu System Gweinyddu Cleifion Cymru ac i Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru ddatblygu cofnod cleifion electronig newydd i gleifion canser yng Nghymru o fewn yr un bensaernïaeth genedlaethol. Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n craffu ar yr achos busnes ar gyfer y rhan gyntaf o gaffael system newydd (ar gyfer System Gweinyddu Cleifion Cymru) ar hyn o bryd. Er bod System Gwybodaeth Rhwydweithiau Canser Cymru wedi profi cyfres o gyfnodau o ddiffyg gwasanaeth, roedd papur Bwrdd Ymddiriedolaeth GIG Felindre a oedd wedi'i atodi at lythyr yr Archwilydd Cyffredinol yn nodi nad oes unrhyw dystiolaeth yr achoswyd niwed i gleifion oherwydd y problemau â'r system. Er hyn, mae caffael system newydd yn parhau'n flaenoriaeth allweddol.

O ran digwyddiadau TGCh yn ymwneud â systemau sy'n cael eu defnyddio ar gyfer gofal clinigol, cytunwyd i gofnodi rheini'n electronig ar y system digwyddiadau a diogelwch cleifion (Datix) fel dim sylw annisgwyl (No Surprise). Bydd is-set o'r rhain (lle mae'n bosibl bod niwed wedi'i achosi) yn cael ei nodi fel digwyddiad difrifol a bydd Llywodraeth Cymru yn cael ei hysbysu am hyn.

Mae'r GIG yn gyfrifol am gynnal dadansoddiad o'r hyn sydd wrth wraidd unrhyw ddigwyddiad, gan nodi unrhyw niwed posibl a allai fod wedi'i achosi a datblygu'r gwersi a ddysgwyd. Mae hefyd yn ofynnol i'r GIG ddarparu sicrwydd i Lywodraeth Cymru bod hyn ar waith. Gallaf gadarnhau bod y broses hon wedi'i dilyn yn ystod materion cadernid y systemau y cyfeiriwyd atynt uchod.

Yn ei rôl fel corff cyfrifol, mae Ymddiriedolaeth GIG Felindre yn cael gwybodaeth gan Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru pan fo Digwyddiad Difrifol posibl yn digwydd, a bydd y Gwasanaeth Gwybodeg yn hefyd yn rhoi gwybod i'r cyrff iechyd yr effeithir arnynt. Caiff adroddiadau chwarterol i Fwrdd Ymddiriedolaeth GIG Felindre ar Ddigwyddiadau Difrifol Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru eu hintegreiddio i drefniadau llywodraethu'r Ymddiriedolaeth, ac adroddir i Lywodraeth Cymru drwy'r cyfarfodydd perfformiad Ansawdd a Chyflenwi chwarterol.

Gofynnodd y pwyllgor am eglurhad ynghylch y ffigurau a gyflwynwyd gan Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru yn ymwneud â chostau rhedeg dwbl. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymchwilio i'r ffigurau a ddarparwyd ac rwyf o'r farn bod Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru wedi adrodd am ei gostau fel sefydliad ac nad yw wedi ystyried yn llawn lle bo gan Fwrdd Iechyd systemau eraill yn eu lle. Roedd ffigur Hywel Dda yn cynnwys cost dwy system Cysylltiadau Meddygon Teulu yn hytrach na'r un a nodwyd gan Wasanaeth Gwybodeg GIG

Cymru. Mae'r Bwrdd Iechyd yn nodi y bydd yn rhoi'r gorau i'r contract cynnal a chadw ar gyfer y systemau hyn ym mis Medi 2018 gan y bydd y system genedlaethol ar gael.

Mae’r costau manwl gywir, gan ystyried y TAW cywir wedi’u cynnwys yn y tabl isod. Mae’n dangos bod y ffigurau gwreiddiol a ddarparwyd gan Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru wedi amcangyfrif y costau yn rhy isel o gyfanswm o £27k:

| Gwasanaethau: | AB | ABM | BC | C a’r F | CT | HDd | Powys | Iechyd Cyhoeddus Cymru | Felindre | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| System Rheoli Gwybodaeth Labordai | 79 | 151 | 99 | 73 | 42 | 83 | 0 | 0 | 0 | 527 |
| Cysylltiadau Meddygon Teulu Cenedlaethol | 0 | 9 | 9 | 9 | 0 | 18 | 0 | 0 | 0 | 45 |
| **Cyfanswm** | **79** | **160** | **108** | **82** | **42** | **101** | **0** | **0** | **0** | **572** |

I gloi, efallai bod gan y Pwyllgor ddiddordeb nodi bod Bwrdd Safonau Technegol Cymru, yn ei gyfarfod ar 19 Mehefin 2018, wedi mabwysiadu Egwyddorion Cynllunio Gwasanaeth Digidol Llywodraeth y DU ynghyd â Safon Gwasanaeth Digidol Llywodraeth Cymru i'w defnyddio ar draws GIG Cymru.

Gobeithiaf y bydd y sylwadau hyn o gymorth ymlaen llaw ac edrychaf ymlaen at drafod ymhellach â’r Pwyllgor ar 16 Gorffennaf.

Yn gywir



**Dr Andrew Goodall**

**Public Accounts Committee**

**Inquiry into the NHS Wales Informatics Services**

**Correspondence with Mark Osland,** **Director of Finance and Informatics, Velindre NHS Trust**

Following the evidence session on 2 July with officials from Velindre NHS Trust, the Clerks wrote seeking clarification on whether or not Velindre NHS Trust have received any incident reports from NWIS and if so whether they clearly identified the problem and outlined how problems have been resolved and whether the Trust has received a final incident report. Mark Osland's response is below:

I can confirm that Velindre has now received a briefing report on all major incidents affecting the organisation since June 2017. The report sets out the description of the incident, the root cause and the remediation action taken by NWIS to resolve the problem.

Just to reiterate and as conveyed to the Committee at the evidence session on 2 July, whilst not all of the formal paper work had been provided, Velindre was kept up to date and informed of the circumstances of each incident and the work that NWIS have been undertaking to resolve the problems, through daily contact, formal SLA meetings and separate meetings with NWIS Directors.

The briefing report which covered all major incidents since June 2017 was received on 11 July 2018. However the Trust had received a previous report in June 2018, which provided a briefing on 3 of the incidents which occurred on 24 January, 21 March and 24 April.

Mark Osland – Director of Finance and Informatics, Velindre NHS Trust

11 July 2018

# Eitem 5

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

24 Cathedral Road / 24 Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel / Ffôn: 029 2032 0500
Fax / Ffacs: 029 2032 0600
Textphone / Ffôn testun: 029 2032 0660
info@audit.wales / post@archwilio.cymru
www.audit.wales / www.archwilio.cymru

Mr Nick Ramsay AC
Cadeirydd, Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoec
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

**Cyfeirnod:** HVT/2869/caf
**Dyddiad cyhoeddi:** 27 Mehefin 2018

Annwyl Nick

## Archwilydd Cyffredinol Cymru: myfyrdodau wrth ffarwelio

Fel y gwyddoch, fy niwrnod olaf yn fy swydd fel Archwilydd Cyffredinol Cymru fydd Dydd Gwener, 20 Gorffennaf 2018.

Wrth imi nesáu at wythnosau olaf fy nghyfnod, meddyliais y gallai fod o gymorth i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus pe bawn yn rhoi ar ddu a gwyn rai myfyrdodau a sylwadau 'ffarwél' ar fy nhymor o wyth mlynedd yn y swydd, a chynnig fy mhersbectif personol ar yr heriau, y risgiau a'r cyfleoedd sy'n wynebu pawb sy'n ymdrechu i wella llywodraethu, craffu a darparu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

Byddaf yn hapus iawn i ehangu ar gynnwys y llythyr hwn pan fyddaf yn ymddangos gerbron y Pwyllgor i roi tystiolaeth lafar yn ei gyfarfod ar 16 Gorffennaf.

## Yr heriau sy'n wynebu cyflawni gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru

### Mae Brexit yn cyflwyno risgiau a chyfleoedd i wasanaethau cyhoeddus Cymru

Rhan allweddol o'r her sy'n wynebu'r gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, ac yn wir economi Cymru yn fwy cyffredinol, yw effeithiau Brexit, sydd hyd yn hyn yn aneglur. Mae ymadawiad y DU ag aelodaeth o'r Undeb Ewropeaidd yn cyflwyno amrywiaeth enfawr o risgiau a chyfleoedd, y mae llawer ohonynt, hyd yma, naill ai'n anhysbys neu heb eu deall yn llawn.

Mae telerau Brexit ei hun, yn y cyfnod trosiannol ac yng 'nghyflwr sefydlog' ein perthynas newydd â'r Undeb Ewropeaidd yn y pen draw, yn debygol o aros yn aneglur am beth amser eto. Fodd bynnag, mae'n ymddangos bod gwaith yn symud ymlaen o fewn Llywodraeth Cymru a llawer o gyrff cyhoeddus eraill ledled Cymru i reoli rhai o'r heriau cynharaf y mae proses Brexit a'i hansicrwydd parhaus yn eu gosod, yn arbennig ym maes cynllunio'r gweithlu, er mai megis dechrau y mae llawer o hyn. Mae GIG Cymru, er enghraifft, yn datblygu cynlluniau i fynd i'r afael â llif posibl gweithwyr yr UE allan o'r gweithlu iechyd presennol, ac mae

prifysgolion Cymru wrthi'n asesu beth yw'r ffordd orau i liniaru colled bosibl incwm ymchwil sy'n cael ei hariannu gan yr UE ac sy'n cynnal cyflogaeth llawer o staff academaidd a staff cefnogi.

Yn awr, a Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi cyrraedd cytundeb ynglŷn â goblygiadau cyfansoddiadol Bil Ymadael â'r UE ar gyfer y berthynas rhwng y Cynulliad Cenedlaethol a San Steffan, rwyf yn obeithiol y dylai hyn gynorthwyo pob rhan o Lywodraeth Cymru i droi eu sylw fwyfwy at ganfod, asesu a rheoli effeithiau ymarferol Brexit ar bobl Cymru. Mae fy staff ar hyn o bryd yn paratoi dau adroddiad archwilio perthnasol, i gael eu cyhoeddi yn ddiweddarach eleni, ar y modd y mae Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) a Llywodraeth Cymru, yn y drefn honno, yn rheoli Cronfeydd Strwythurol yr UE a'r Rhaglen Datblygu Gwledig yng nghyd-destun Brexit.

## Mae'r trefniadau cyfansoddiadol esblygol yng Nghymru yn cynnig cyfleoedd i feddwl o'r newydd a gwneud pethau'n wahanol

Mae cyflwyno'r model 'cadw pwerau' ar gyfer setliad datganoli dan Ddeddf Cymru 2015 yn cael effaith gynyddol ar weinyddiaeth a gwleidyddiaeth Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cymryd y cyfrifoldeb am elfennau o bolisi cyllidol a dechreuodd Awdurdod Refeniw Cymru ei weithrediadau ym mis Ebrill. Mae gan y Cynulliad Cenedlaethol yn awr y grym i ddeddfu i greu trethi newydd, ac mae gan gyflwyniad Cyfradd Treth Incwm Cymru (WRIT) o fis Ebrill 2019 ymlaen y potensial i gynhyrchu dadl bolisi o fath gwahanol iawn rhwng y pleidiau gwleidyddol fydd yn cystadlu yn etholiad y Cynulliad yn 2021.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi ennill pwerau benthyca cyfalaf a refeniw sylweddol am y tro cyntaf, ac mae'n edrych ar ddewisiadau i gyflwyno ffurfiau amrywiol o gyllid newydd. Mae hefyd wrthi'n cwblhau graddau ei phwerau newydd yn y sector trafnidiaeth (yn enwedig ar fasnachfreinio'r rheilffyrdd).

Mae'r holl ychwanegiadau hyn at bwerau'r Cynulliad Cenedlaethol a Llywodraeth Cymru yn cyflwyno mwy o gymhlethdod a her i lunwyr polisïau a deddfwyr fel ei gilydd, ond maent hefyd yn cynnig cyfleoedd i wneud pethau'n wahanol mewn ffordd sy'n gweithio er mwyn holl bobl Cymru.

## Mae cyni ynghyd â galwadau cynyddol am wasanaethau yn gosod mwy a mwy o straen ar gyllid cyhoeddus Cymru

Drwy gydol fy nhymor yn swydd yr Archwilydd Cyffredinol, yr her bwysicaf sydd wedi wynebu'r holl gyrff cyhoeddus yng Nghymru fu'r angen i ymgodymu ag effeithiau cyni di-baid yn erbyn cefndir o alw cynyddol am y gwasanaethau cyhoeddus. Bu hyn yn fwyaf amlwg mewn iechyd a gofal cymdeithasol, lle mae'r pwysau demograffig a achosir gan boblogaeth sy'n heneiddio, ynghyd â'r datblygiadau mewn technoleg feddygol a chynyddiadau sylweddol ym mhrisiau cyffuriau ac yn y blaen wedi parhau i osod galwadau bythol gynyddol ar GIG Cymru, ar ein hawdurdodau lleol a hefyd ar y trydydd sector. Rwyf wedi ymdrin â llawer o'r materion hyn mewn peth manylder yn fy adroddiadau 'Darlun o'r Gwasanaethau Cyhoeddus' yn 2011[1] ac eto yn 2015[2].

Mae dull Llywodraeth San Steffan o ymdrin â chyllid cyhoeddus y DU wedi arwain at doriadau yn y bloc Cymreig o oddeutu 10.5% mewn termau gwirioneddol ers 2010, ac mae hyn wedi peri rhai heriau sylweddol iawn i Lywodraeth Cymru yn ei phroses flynyddol o bennu'r gyllideb. Mae'r gyfran o gyllideb refeniw Cymru sydd wedi ei dyrannu i ofal iechyd wedi codi o 43% i 49% dros yr wyth mlynedd ddiwethaf, ac mae tuedd barhaus o'r fath yn gosod heriau sylweddol i Lywodraeth Cymru ac i gynaladwyedd gwasanaethau yng Nghymru nad ydynt yn gysylltiedig â'r GIG.

Rhan o'r ymateb ar draws gwasanaeth cyhoeddus Cymru i'r pwysau a ddaeth yn sgil cyni, yr un modd â gweddill y DU, fu canolbwyntio'n gynyddol, fel oedd yn iawn, ar yrru gwelliannau effeithlonrwydd wrth ddarparu gwasanaethau. Bu hyn o gymorth i liniaru rhai o effeithiau gostyngiadau blynyddol yn y gyllideb, ond mae amser yn dod pan mae enillion effeithlonrwydd ymylol pellach yn dechrau lleihau, os nad yw swm neu ansawdd y gwasanaethau a ddarperir hefyd yn cael eu lleihau. Bydd unrhyw ostyngiadau o'r fath yn ddieithriad yn effeithio ar ddinasyddion a gallant yn hawdd gael effaith drymach ar y rheiny sydd fwyaf agored i niwed. Mae angen i'r gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru felly feddwl mewn ffordd fwy radical ynghylch y ffordd y caiff gwasanaethau eu cyflawni, gan ganolbwyntio ar y canlyniadau yn hytrach nag ar y strwythurau.

## I wlad o faint Cymru, mae strwythur sefydliadol cymhleth y gwasanaethau cyhoeddus yn llesteirio cynllunio gwasanaethau'n gydlynol a'u darparu'n effeithlon

Yn fy marn i, yr hyn sydd wedi bod yn amlwg absennol hyd yma ar draws y gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru yw ymateb cydlynol i gyni a'r pwysau oherwydd galw cynyddol, sy'n mynd y tu hwnt i dactegau economi ac effeithlonrwydd traddodiadol seiliedig ar sectorau. Credaf fod yna gyfleoedd gwirioneddol i ailsiapio gwasanaethau ac ailgynllunio modelau darparu mewn ffyrdd sy'n gwneud trawsnewid gwirioneddol yn bosibl a gosod y dinesydd yn y canol, drwy weithio ar y cyd mewn ffyrdd sy'n codi uwchlaw y strwythurau sefydliadol a etifeddwyd. O'i wneud yn dda, gall meddwl, cynllunio a gweithio cydgysylltiedig mewn partneriaeth fel hyn sicrhau canlyniadau cost-effeithiol, cynaliadwy ac o safon uwch i ddefnyddwyr gwasanaeth. Bydd gweithredu'n llwyddiannus Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, sy'n ymgorffori'r pum ffordd o weithio, yn un o'r allweddi i lwyddiant yn hyn o beth, ac roedd fy adroddiad sylwebaeth 'Blwyddyn Un'[3] diweddar ar weithredu'r Ddeddf honno yn nodi nifer o enghreifftiau addawol o arferion da sy'n dod i'r amlwg ar draws Cymru i eraill ddysgu oddi wrthynt.

Yn y gorffennol, mae'r ddadl ynghylch gwneud pethau'n wahanol, p'un ai mewn iechyd neu lywodraeth leol, wedi canolbwyntio'n gyffredinol ar newidiadau strwythurol sydd wedi addo llawer, ond sydd yn rhy aml heb gyflawni ond yn rhannol. Er bod rhai diwygiadau i gyrff cyhoeddus wedi cyflawni, mae gormod wedi gwneud dim ond ailbacio'r problemau a'r bobl oedd yno eisoes o fewn setiau newydd o ffiniau sefydliadol.

Mae yna, wrth gwrs, lawer o enghreifftiau o newid sydd wedi eu bwriadu'n dda. Un o'r rhain fu creu pedwar consortiwm addysg rhanbarthol i gyflawni gwelliannau ar draws ysgolion. Gellir edrych ar hyn fel dull rhesymol i fynd i'r afael â materion sy'n atal plant rhag cyrraedd eu potensial llawn, a gall wneud y system yn gadarnach. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, ychwanegu at gymhlethdod y darlun y mae'r consortia, yn hytrach na symleiddio cynllunio a darparu fel sydd angen, gan fod y 22 awdurdod unedol wedi cadw eu cyfrifoldeb statudol dros y gwasanaethau hyn. Byddwn yn ychwanegu fy mod yn ei weld yn rhyfedd bod ein gwasanaethau addysg yn cael eu darparu ar wahân gan 22 awdurdod unedol sy'n gwasanaethu poblogaeth o 3.1 miliwn, tra mae Cyngor Swydd Caint, er enghraifft, yn darparu'r un gwasanaethau i boblogaeth o 1.5 miliwn o bobl.

Yn y blynyddoedd diwethaf, nid yw Cymru yn sicr wedi cael ei hun yn fyr o adroddiadau diagnostig, gennyf i fy hun ac eraill (megis Comisiwn Williams[4]), sy'n esbonio'n glir natur y problemau systemig sydd angen eu cywiro – ac mae yna ddealltwriaeth gyffredinol dda bellach o'r problemau hynny. Ond caf fy hun yn rhwystredig ac yn gynyddol bryderus nad yw'r llu o alwadau croch am weithredu, y mae Cymru wedi eu clywed dros y degawd diwethaf, wedi arwain at y newidiadau gweladwy y mae angen taer amdanynt erbyn hyn, ac nad ydym wedi defnyddio datganoli fel cyfle i ailfeddwl mewn ffordd sylfaenol.

Byddaf yn gwylio datblygiadau dros yr ychydig flynyddoedd nesaf gyda diddordeb mawr, ac yn gobeithio bod y gwersi iawn yn cael eu dysgu oddi wrth yr ad-drefnu a fu lawer gwaith ar gyrff iechyd a llywodraeth leol ar draws Cymru. Beth bynnag fydd ôl troed sefydliadol llywodraeth leol yn y pen draw, rwyf yn credu'n gryf mai'r allwedd i'r newid 'trawsnewidiol' y dymunir ei weld mewn darparu gwasanaethau cyhoeddus fydd partneriaethau a chydweithredu effeithiol, fydd yn seiliedig ar drefniadau llywodraethu ac atebolrwydd clir a chadarn.

## Mae blaenoriaethau sy'n gwrthdaro a'r canolbwynt presennol ar feddwl yn y tymor byr yn peryglu iechyd a lles cenedlaethau'r dyfodol

Er bod llawer o gyrff cyhoeddus wedi gwneud penderfyniadau ymwybodol i leihau lefelau eu gweithgarwch yn gymesur, rheidrwydd ariannol tymor byr sydd wedi gyrru'r penderfyniadau hyn yn aml ar draul ystyriaethau eraill megis dulliau ataliol tymor hir. Mae'r gostyngiadau hefyd wedi tueddu i syrthio yn y meysydd hynny o ddarparu gwasanaethau sy'n ddewisol neu'n anstatudol, megis llyfrgelloedd a chyfleusterau parciau. Mae dogni'r gwasanaethau a gyflenwir hefyd, boed hynny ar sail 'y cyntaf i'r felin gaiff falu' neu ar ryw sail arall, wedi cael ei ddefnyddio fel dull o osgoi gorwario. Fodd bynnag, yn rhy aml o lawer, gall hyn arwain at naill ai symud pwysau'r gost rhwng cyrff cyhoeddus (er enghraifft, o'r sector gofal yn ôl i mewn i'r GIG, drwy lenwi gwlâu mewn wardiau) neu, yn achos oedi cyn trin cyflyrau iechyd sy'n gwaethygu, cynyddu costau triniaeth yn gyffredinol ac arwain at ganlyniadau clinigol sydd o bosibl yn anffafriol.

Yn gynharach y mis hwn, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru 'Cymru Iachach: ein Cynllun Iechyd a Gofal Cymdeithasol'[5], fel ei hymateb i'r Adolygiad Seneddol o Iechyd a Gofal Cymdeithasol[6]. Ymddengys i mi y bydd gweithredu'r camau

amrywiol a ddisgrifir yn 'Cymru Iachach' yn achosi rhai heriau gwirioneddol i agweddau a ffyrdd o weithio sydd wedi hen ymsefydlu ar draws pob rhan o GIG Cymru. Bydd ei lwyddiant hefyd yn dibynnu ar barodrwydd gwleidyddion a'r cyhoedd i dderbyn a chefnogi ffyrdd newydd a thrawsnewidiol o gynllunio a darparu gwasanaethau. Mae'n galonogol i mi weld nad yw Llywodraeth Cymru wedi gwrthod galwad yr Adolygiad Seneddol i gymryd camau gweithredu yn gyflym, a bod yna rai targedau a cherrig milltir cyflawni heriol o fewn y cynlluniau gweithredu.

## Pwysigrwydd archwilio cyhoeddus annibynnol i sicrhau craffu effeithiol ar y weithrediaeth

Ers ymgymryd â'm swydd yn 2010, rwyf wedi mynegi fy nghefnogaeth yn gyson i 'gymryd risg dan reolaeth dda'. Yn rhy aml yn y gorffennol, rydym ni i gyd wedi gweld amharodrwydd ymhlith arweinwyr cyrff cyhoeddus i arloesi gyda ffyrdd newydd o weithio – o fewn eu sefydliadau ac ar draws ffiniau sectorol. Gadawyd i ofn craffu a beirniadaeth dreiddio drwy dimau gweithredol, ac mae ffordd orofalus o feddwl (wedi ei mynegi'n aml fel 'fyddai'r archwilydd ddim yn ei hoffi...!) o bosibl wedi dal gwelliannau a mentrau newydd yn ôl o ran darparu gwasanaethau. Mae ofnau camsyniol o'r fath wedi cael eu dyfynnu wrthyf, ar adegau, fel esgus dros ddiffyg gweithredu a chadw'r status quo.

Bûm yn glir iawn drwy gydol fy nghyfnod fel Archwilydd Cyffredinol, er bod gan archwilio cyhoeddus annibynnol yn bendant iawn swyddogaeth allweddol o ran cefnogi craffu democrataidd effeithiol yn lleol ac yn genedlaethol, drwy herio a **galw i gyfrif**, bod rhaid iddo hefyd chwarae rhan yr un mor bwysig yn **darparu dealltwriaeth** ac felly **gefnogi gwelliant.** Er nad wyf erioed wedi dal yn ôl rhag yr angen i 'lefaru'r gwir wrth rym' (ac weithiau wedi teimlo fel Thomas Becket wrth wneud hynny), mae fy adroddiadau archwilio mwyaf beirniadol wedi bod yn gymharol brin a heb eu cyhoeddi ond pan oeddwn yn meddwl eu bod yn hollol angenrheidiol. Mae'r rhain wedi tueddu i ymwneud â llywodraethu gwael, megis:

- fy Adroddiad Ymchwiliad Arbennig 2011 i Gyngor Sir Ynys Môn[7], a barodd i Lywodraeth Cymru anfon comisiynwyr i gymryd drosodd weithrediadau awdurdod lleol cyfan am y tro cyntaf yn y DU;
- fy adroddiad yn 2012 ar AWEMA[8] a fu, ynghyd â nifer o adroddiadau archwilio beirniadol eraill, yn gyfrwng i sbarduno newidiadau trylwyr yn rheolaeth Llywodraeth Cymru ar ei gwariant grantiau blynyddol o £2.6 biliwn;
- fy nghydadolygiad yn 2013[9] gydag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru o drefniadau llywodraethu Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, oedd yn rhagflaenydd i osod y corff hwnnw mewn Mesurau Arbennig;
- fy adroddiad yn 2015 ar Gronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio (RIFW)[10], a werthodd dir cyhoeddus am bris sylweddol lai na'i werth ac a achosodd efallai golled i'r trethdalwr o ddegau o filiynau o bunnau; a
- Camreolaeth Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ar gytundeb ymgynghori, y cyhoeddais fy Adroddiad Budd y Cyhoedd[11] cyntaf, ar gorff o fewn Gig Cymru, arno yn 2017.

Fodd bynnag, mae craffu seneddol effeithiol yn gofyn am fwy na swyddogaeth archwilio cyhoeddus annibynnol yn unig, sy'n disgrifio pethau fel y maent – mae angen i'r Cynulliad Cenedlaethol ei hun hefyd feddu ar y capasiti a'r gallu cynhenid i graffu ar wariant a deddfwriaeth yn effeithiol. Rydym ni yng Nghymru yn cael ein gwasanaethu'n dda iawn gan fodelau pwyllgorau a ffyrdd o weithio yn null San Steffan y mae'r Cynulliad Cenedlaethol wedi eu mabwysiadu yn gyffredinol. Mae'n bleser gennyf hefyd nodi bod fy adroddiadau archwilio, sydd wedi eu cyhoeddi, yn cael eu defnyddio'n gynyddol fel sail i waith pwyllgorau eraill y Cynulliad, yn ogystal â chan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ei hun. Esiampl ddiweddar ardderchog o hyn oedd ystyriaeth y Pwyllgor Cyllid o'm dau adroddiad ar barodrwydd cyllidol, a gyhoeddwyd yn 2016[12] a 2017[13]. Gobeithiaf y bydd fy 'Arweiniad i Gyllid Cyhoeddus Cymru[14]', y byddaf yn ei gyhoeddi cyn i mi orffen fy nhymor fel Archwilydd Cyffredinol, yn gymorth yn yr un modd i bwyllgorau craffu eraill – yn y Cynulliad Cenedlaethol a thu hwnt – i gyflawni eu swyddogaethau o graffu ar benderfyniadau'r gyllideb.

Ond byth ers i mi fod yn aelod o Gomisiwn Richard[15] yn 2002-04, mae wedi bod yn glir i mi fod cynnydd yn nifer Aelodau'r Cynulliad yn angenrheidiol, er mwyn i'r Cynulliad ei hun barhau i fedru craffu ar y weithrediaeth yn effeithiol. Gyda'r cynnydd parhaus yn amrywiaeth y pwerau sy'n cael eu datganoli i Gymru dan Ddeddf 2015, yn enwedig o ran codi trethi, mecanweithiau cyllido arloesol a chludiant, ystyriaf fod yr angen am Aelodau Cynulliad ychwanegol yn awr yn dod yn un difrifol, pwynt a bwysleisiwyd gennyf yn fy ymateb diweddar i ymgynghoriad y Cynulliad ym mis Chwefror 2018 ar 'Creu Senedd i Gymru'.

Un maes o bryder cysylltiedig i mi yw'r ffordd y mae Llywodraeth Cymru wedi syrthio y tu ôl i'r cyflymder a osodwyd gan adrannau llywodraeth Whitehall o ran hyrwyddo craffu Seneddol effeithiol, drwy gyhoeddi gwybodaeth amserol a llawn am berfformiad. Nid yw dogfen 'Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol' Llywodraeth Cymru, a gyhoeddir bob haf, hyd yn hyn, wedi cynnwys ond cymharol ychydig o wybodaeth ynglŷn â'r hyn y mae wedi ei gyflawni yn erbyn ei huchelgais strategol a'i mesuriadau perfformiad. O'u cyferbynnu, mae adroddiad a chyfrifon blynyddol pob adran o lywodraeth y DU yn cynnwys hunanasesiad o'i pherfformiad blynyddol yn erbyn ei hamcanion, sydd wedyn yn cael ei ddefnyddio gan bwyllgor dethol perthnasol Tŷ'r Cyffredin yn sail i'w waith o graffu ar yr adran.

Gyda mwy o bwerau ariannol a benthyca yn dod i Lywodraeth Cymru, credaf y dylid gwneud mwy i wella tryloywder a darparu darlun mwy crwn o gyllid cyhoeddus Cymru. Felly rwyf yn ailadrodd fy ngalwad flaenorol[16] i Lywodraeth Cymru baratoi a chyhoeddi adroddiad blynyddol 'Holl Lywodraeth Cymru', i alluogi'r Cynulliad Cenedlaethol a'i bwyllgorau i gael gwerthfawrogiad crwn o incwm, gwariant, asedau a rhwymedigaethau torfol yr holl gyrff sector cyhoeddus datganoledig ar draws y wlad. Rwyf yn sylwi bod fy nghydweithwraig, Archwilydd Cyffredinol yr Alban, wedi gwneud galwadau tebyg yn y blynyddoedd diwethaf, ac yn fy marn i mae ei hadroddiad archwilio ar Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Llywodraeth yr Alban am 2016-17[17] yn cyfleu rhesymeg glir wedi ei dadlau'n dda

(Nodyn 1) sydd yr un mor berthnasol i Gymru, ac a fyddai'n gwbl gytûn ag ysbryd deddfwriaeth Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

A throi yn awr oddi wrth y corff cyhoeddus mwyaf yng Nghymru at y lleiaf, sef y 743 o Gynghorau Tref a Chymuned. Er mai ychydig o filoedd yn unig o bunnau y flwyddyn y mae llawer o'r cyrff hyn yn eu gwario, mae eu harian wrth gefn, gyda'i gilydd, dros £41 miliwn. Rwyf wedi gweld yn rhy aml ymddygiad swyddogion ac aelodau yn syrthio'n is na'r safonau uchel y mae gan y cyhoedd yr hawl i'w disgwyl.

Yn fy adroddiad diweddaraf ar gynghorau tref a chymuned[18], nododd fy archwilwyr na wnaeth 81 o gynghorau gwrdd â'r amserlen statudol ar gyfer cyflwyno eu cyfrifon am 2016-17 i'w harchwilio. O'r rheiny, roedd 21 yn dal heb gyflwyno eu cyfrifon bum mis ar ôl y dyddiad cau i'w cymeradwyo gan y cyngor. Ar gyfer yr un flwyddyn, gosodais amodau ar fy marn archwilio ar gyfrifon 175 o gynghorau. Ar hyn o bryd, rwyf yn ystyried cyhoeddi nifer o adroddiadau er budd y cyhoedd lle mae, er enghraifft, gynghorau tref a chymuned wedi methu â chyflwyno cyfrifon yn brydlon neu wedi methu â chofrestru eu cyflogeion ar gyfer PAYE. Mae mwyafrif y cynghorau yn cael hyn yn iawn, ond mae gormod yn dal i fethu â gwneud hyn. Yn fy marn i, byddai newid i gael llai o gynghorau cymuned mwy o faint yn creu'r capasiti a'r gallu sy'n angenrheidiol i ddarparu gwasanaethau sy'n ystyrlon ac yn cael eu rheoli'n dda.

## Gwella effaith, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd Swyddfa Archwilio Cymru

Yn olaf, dylwn efallai ddweud ychydig am y ffordd yr wyf wedi arwain Swyddfa Archwilio Cymru ei hun. O'r cychwyn mae egni, doniau ac ymrwymiad ei staff wedi creu argraff ddofn arnaf, ac rwyf yn ddiolchgar iddynt i gyd am y gefnogaeth amhrisiadwy y maent wedi ei rhoi i mi drwy gydol fy nghyfnod yn y swydd. Yn wir, mae bod yn Archwilydd Cyffredinol wedi bod mewn llawer o ffyrdd yn uchafbwynt fy 48 mlynedd mewn gwasanaeth cyhoeddus.

Mae Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru a minnau hefyd yn dra ymwybodol bod rhaid i ni'n wir 'weithredu'r hyn yr ydym yn ei bregethu', er mwyn i'm hargymhellion archwilio i eraill ddwyn y pwysau a'r hygrededd dyladwy. I'r perwyl hwnnw, rwyf wedi cael pleser o oruchwylio'r modd yr ydym wedi cyflawni arbedion effeithlonrwydd sylweddol flwyddyn ar ôl blwyddyn tra mae ansawdd ac effaith ein gwaith archwilio wedi cael ei gynnal a'i wella. Mae effeithiolrwydd ein Cyfnewidfa Arferi Da[19] o ran hybu gwelliannau mewn gwasanaeth cyhoeddus yn cael ei werthfawrogi'n fawr gan y cyrff yr ydym yn eu harchwilio ac mae hi'n cael ei gweld fel esiampl yn rhyngwladol.

Yn wir, rydym wedi bod yn chwifio'r faner fwyfwy dros Gymru. Oherwydd ein maint, mae swyddfeydd archwilio mewn gwledydd fel Kosovo a Malta yn gweld eu

---

Nodyn 1: Gweler paragraffau 36-46 o bapur Archwilio'r Alban, sy'n mynegi'r achos dros 'Gyfrif Holl Lywodraeth yr Alban'.

bod yn gallu cymharu eu hunain â ni yn haws nag â gwledydd mawr ac wedi bod eisiau cyfnewid profiadau gyda ni. Rydym wedi cyfrannu siaradwyr yn rheolaidd mewn cyfarfodydd EURORAI a fforymau rhyngwladol eraill, yn ogystal â darparu gwasanaethau archwilio ar gyfer gwledydd llai y Gymanwlad megis Angwila.

Mae ein cyfrifon, sydd wedi eu harchwilio, am 2017-18, a osodwyd gerbron y Cynulliad Cenedlaethol ddeg wythnos ar ôl diwedd y flwyddyn, yn cofnodi bod cost gros rhedeg Swyddfa Archwilio Cymru yn 2017-18 fymryn o dan £21 miliwn. Mae hyn yn cymharu â thros £26 miliwn yn y flwyddyn cyn i mi ddod i'm swydd ym mis Hydref 2010, sy'n cyfateb i ostyngiad mewn costau gweithredu o tua 30 y cant mewn termau real yn ystod fy nhymor yn y swydd. Gyda chefnogaeth barhaus y Pwyllgor Cyllid, rwyf yn dal i fod yn obeithiol iawn y gellir gwneud newidiadau i rai agweddau penodol ar Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, gan gefnogi ymdrech o fewn Swyddfa Archwilio Cymru i sicrhau effeithlonrwydd cost pellach a gostyngiadau posibl yn y ffioedd mewn termau real.

Fe wnaeth cyflwyno Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru yn 2014, gan gynnwys dau aelod etholedig o staff, yn ddiamau gynorthwyo i gryfhau ein rheolaeth ac rydym yn awr wrthi'n gwneud newidiadau sylweddol mewn diwylliant ac arferion gwaith, gan gynnwys buddsoddiadau diweddar mewn dadansoddi data, hyfforddeion cyllid a phrentisiaethau sy'n addo'n dda ar gyfer y dyfodol. Rydym hefyd wedi cael boddhad mawr drwy ganlyniadau ein harolwg staff diweddaraf, oedd yn gosod Swyddfa Archwilio Cymru ymysg y 10 y cant uchaf o gyrff sector cyhoeddus y DU o ran ein lefel o ymgysylltiad staff.

Dylwn gloi'r sylwadau hyn drwy wneud yn glir mai fy marn bersonol i fel Archwilydd Cyffredinol y mae'r llythyr hwn yn ei chynrychioli, ac nid o angenrheidrwydd farn Swyddfa Archwilio Cymru. Rwyf hefyd yn awyddus i sicrhau nad wyf yn gwneud nac yn dweud dim yn fy wythnosau olaf, y gellid ei gamddehongli i lesteirio annibyniaeth archwilio statudol a chamau gweithredu fy olynydd – mater i Adrian, wrth gwrs, fydd penderfynu ar ei raglen o waith archwilio ei hun, ac rwyf yn dymuno pob llwyddiant iddo wrth iddo ddechrau ei dymor yn y swydd. Wrth wneud hynny, gwn y bydd yn gallu dibynnu ar gefnogaeth lawn eich Pwyllgor chi, ynghyd â Bwrdd a staff Swyddfa Archwilio Cymru.

Rwyf yn anfon copi o'r llythyr hwn at Simon Thomas AC, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid.

**HUW VAUGHAN THOMAS CBE**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**

## Rhestr o'r dogfennau sydd wedi eu cyhoeddi y cyfeirir atynt yn llythyr yr Archwilydd Cyffredinol


1. **'Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus 2011'**, Archwilydd Cyffredinol Cymru, Hydref 2011
   http://archwilio.cymru/cy/system/files/publications/A_Picture_of_Public_Services_Welsh_2011.pdf

2. **'Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus 2015'**, Archwilydd Cyffredinol Cymru, Rhagfyr 2015
   https://archwilio.cymru/cy/system/files/publications/POPS_2015_cym-accessible.pdf

3. **'Myfyrio ar Flwyddyn Un: Sut mae Cyrff Cyhoeddus wedi ymateb i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015'**, Archwilydd Cyffredinol Cymru, Mai 2018
   https://archwilio.cymru/cy/system/files/publications/reflecting-on-year-one-2018-welsh.pdf

4. **'Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus'**, Comisiwn Williams, Ionawr 2014
   https://gov.wales/topics/improvingservices/public-service-governance-and-delivery/report/?lang=cy

5. **'Cymru Iachach: Ein Cynllun Iechyd a Gofal Cymdeithasol'**, Llywodraeth Cymru, Mehefin 2018
   https://gov.wales/docs/dhss/publications/180608healthier-wales-maincy.pdf

6. **'Chwyldroad o'r tu fewn: Trawsnewid Iechyd a Gofal yng Nghymru'**, Adolygiad Seneddol o Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru, Ionawr 2018
   https://gov.wales/topics/health/nhswales/review/?skip=1&lang=cy

7. **'Ymchwiliad Arbennig: Cyngor Sir Ynys Môn'**, Archwilydd Cyffredinol Cymru, Mawrth 2011
   http://archwilio.cymru/cy/system/files/publications/Anglesey_Corporate_Governance_Re-inspection_Welsh_2011.pdf

8. **'Cydberthynas Llywodraeth Cymru â Chymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan'**, Archwilydd Cyffredinol Cymru, Hydref 2012
   http://archwilio.cymru/cy/system/files/publications/The_Welsh_Government%27s_relationship_with_the_All_Wales_Ethnic_Minority_Association_Welsh_2012.pdf

9. **'Trosolwg ar Drefniadau Llywodraethu – Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr'**, Arolygiaeth gofal Iechyd Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, Mehefin 2013
http://archwilio.cymru/cy/system/files/publications/BCUHB_Joint_Review_Welsh_2013.pdf

10. **'Cronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio'**, Archwilydd Cyffredinol Cymru, Gorffennaf 2015
http://archwilio.cymru/cy/system/files/publications/rifw-2015-welsh-final_1.pdf

11. **'Archwiliad o Berthnasoedd Cytundebol Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ag RKC Associates Ltd a'i Berchennog'**, Archwilydd Cyffredinol Cymru, Gorffennaf 2017
http://archwilio.cymru/cy/system/files/publications/C%26V%20UHB%20PIR-cym.pdf

12. **'Paratoadau ar gyfer gweithredu datganoli cyllidol yng Nghymru'**, Archwilydd Cyffredinol Cymru, Rhagfyr 2016
http://archwilio.cymru/cy/system/files/publications/Fiscal-devolution-2016-Cymraeg.pdf

13. **'Datganoli Cyllidol yng Nghymru: Diweddariad ar y paratoadau ar gyfer gweithredu'**, Archwilydd Cyffredinol Cymru, Rhagfyr 2017
http://archwilio.cymru/cy/system/files/publications/Fiscal-Devolution-in-Wales-2017-18-Welsh.pdf

14. **'Canllaw i Gyllid Cyhoeddus Cymru'**, Archwilydd Cyffredinol Cymru, i'w gyhoeddi Gorffennaf 2018

15. **'Adroddiad Comisiwn Richard'**, Comisiwn ar Bwerau a Threfniadau Etholiadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gwanwyn 2004
webarchive.nationalarchives.gov.uk/20100404200945/http:/www.richardcommission.gov.uk/content/finalreport/report-e.pdf

16. **Llythyr oddi wrth yr Archwilydd Cyffredinol at Gadeirydd Pwyllgor Cyllid y Cynulliad Cenedlaethol**, 7 Mai 2014
senedd.assembly.wales/documents/s27315/FIN4%20%20BPBP04%20Auditor%20General%20for%20Wales.pdf

17. **'The 2016/17 audit of the Scottish Government Consolidated Accounts'**, Archwilydd Cyffredinol yr Alban, Medi 2017
www.audit-scotland.gov.uk/uploads/docs/report/2017/s22_170928_scottish_gov.pdf

18. **‘Llywodraethu a Rheolaeth Ariannol mewn Cynghorau Lleol 2016-17’**, Archwilydd Cyffredinol Cymru, Ionawr 2018
www.audit.wales/system/files/publications/Financial%20-Management-in-local-councils-2016-17%20-%20English.pdf

19. **‘Cyfnewidfa Arferion Da’**, Swyddfa Archwilio Cymru: www.audit.wales/good-practice

**DIWEDD**